

# Adolygiad Cymheiriaid Rhyngwladol

## Swyddfa Archwilio Cymru

8 Hydref 2009

## Adolygiad Cymheiriaid Rhyngwladol

Rydym wedi paratoi'r adroddiad hwn i gyflawni diben ein penodiad gan Archwilydd Cyffredinol Cymru o dan baragraff 7 o Atodlen 8 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 i ymgymryd ag adolygiad annibynnol o waith Swyddfa Archwilio Cymru.

Caroline Gardner
Sir Alistair Graham
Roel Praat
John Purcell
Paul Boeding



# Cynnwys


Rhagair gan Gadeirydd yr Adolygiad Cymheiriaid 6

Crynodeb 7

Argymhellion 10

Pennod 1 – Cyd-destun a chyflwyniad 16

Archwilio ac atebolrwydd cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig 16

Crëwyd Swyddfa Archwilio Cymru gan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus Cymru ar 1 Ebrill 2005 17

Datblygu gwaith archwilio ac arolygu yng Nghymru yn y dyfodol 19

Pennod 2 – Y gwasanaethau a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru 21

Gwasanaethau archwilio ariannol 21

Archwilio perfformiad 23

Elfennau eraill y gwasanaethau a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru 26

Pennod 3 – Llywodraethu, atebolrwydd a chyfundrefn ehangach yr Archwilydd Cyffredinol 30

Pennod 4 – Rheoli Swyddfa Archwilio Cymru 33

Strwythur y sefydliad 33

Arweinyddiaeth a diwylliant 36

Materion yn ymwneud â rheoli pobl ac adnoddau dynol 36

Strategaeth, rheoli rhaglenni a manteisio ar fudd-daliadau 43

Y defnydd o adnoddau 46




## Pennod 5 – Cydberthnasau â rhanddeiliad 49

Cynulliad Cenedlaethol Cymru 49

Llywodraeth Cynulliad Cymru 49

Cyrff archwilio ac arolygu eraill 52

Cyflenwyr archwilio 53

Cleientiaid 53

Dinasyddion a'r cyfryngau 54

## Atodiadau 56

Atodiad 1 – Cylch Gorchwyl yr Adolygiad Cymheiriaid 56

Atodiad 2 – Cynnal yr Adolygiad Cymheiriaid 58

Atodiad 3 – Rhestr o randdeiliaid allanol a gafodd eu cyfweld fel rhan o'r Adolygiad Cymheiriaid 61

Atodiad 4 – Mewnbwn allanol ym maes Llywodraethu ac Atebolrwydd mewn cyrff archwilio ac arolygu eraill 63

# Rhagair gan Gadeirydd yr Adolygiad Cymheiriaid

Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn sefydliad cymharol newydd sydd wedi cyflawni cryn dipyn yn ei bedair blynedd gyntaf. Mae wedi dwyn ynghyd staff y ddau sefydliad a'i rhagflaenodd ac wedi darparu gwasanaethau da i'r sector cyhoeddus yng Nghymru gan ennill hygrededd ac enw da iddo'i hun.

Mae angen i Swyddfa Archwilio Cymru adeiladu ar y cryfderau hyn yng ngoleuni'r heriau a'r cyfleoedd sylweddol sy'n ei hwynebu bellach. Er mwyn ateb y rhain rhaid cael arweinyddiaeth gadarn, ffocws a diben cyffredin. Rwy'n hyderus y bydd rhanddeiliaid, yn Swyddfa Archwilio Cymru a'r sector cyhoeddus ehangach, yn cefnogi Swyddfa Archwilio Cymru yn llawn wrth iddi ddatblygu ei hymateb i'r heriau hyn.

Un arwydd o ymrwymiad Swyddfa Archwilio Cymru i wella yw penderfyniad yr Archwilydd Cyffredinol i gomisiynu'r Adolygiad Cymheiriaid rhyngwladol ac annibynnol hwn. Mae Sefydliadau Archwilio Rhyngwladol, Goruchaf a Rhanbarthol yn defnyddio Adolygiadau Cymheiriaid i graffu ar berfformiad a nodi lle i wella heb beryglu annibyniaeth hollbwysig yr Archwilydd Cyffredinol. Yr Adolygiad Cymheiriaid hwn o Swyddfa Archwilio Cymru yw'r Adolygiad Cymheiriaid cyntaf o un o swyddfeydd archwilio'r Deyrnas Unedig er mai Swyddfa Archwilio Cymru yw'r sefydliad mwyaf newydd yn eu plith.

Yn anarferol, cafodd yr Adolygiad Cymheiriaid hwn fudd o hunanasesiad hynod o drylwyr a chynhwysfawr gan Swyddfa Archwilio Cymru. Galluogodd hyn dîm yr Adolygiad Cymheiriaid i ddatblygu dealltwriaeth o rai o'r heriau allweddol sy'n wynebu'r sefydliad yn llawer cyflymach nag y byddai wedi bod yn bosibl fel arall. Hoffwn ddiolch hefyd i Jeremy Colman a'r holl staff a gyfarfu â'r Adolygwyr Cymheiriaid - gwnaeth eu hymrwymiad a'u parodrwydd di-ffael i helpu argraff fawr arnom.

Agwedd drawiadol arall ar yr Adolygiad Cymheiriaid hwn yw'r gefnogaeth rydym wedi'i chael gan bob rhan o'r gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru. Ar ran tîm yr Adolygiad Cymheiriaid, hoffwn ddiolch i holl randdeiliaid Swyddfa Archwilio Cymru a gymerodd amser o'u hamserlenni eithriadol brysur i gyfrannu at yr Adolygiad Cymheiriaid hwn.

Roedd tîm yr Adolygiad Cymheiriaid yn cynnwys cydweithwyr blaenllaw o fywyd cyhoeddus mewn gwledydd amrywiol. Fel Cadeirydd yr Adolygiad Cymheiriaid, hoffwn ddiolch i'm cydweithwyr am eu hymroddiad, eu craffter a'u cymorth.

Yn olaf, hoffwn ddiolch i Rob Powell a Delyth Lewis a fu'n gweithio fel Ysgrifenyddion i'r Adolygiad Cymheiriaid. Mae Rob wedi gweithio mewn modd arbennig o broffesiynol, annibynnol a chefnogol drwy gydol yr Adolygiad, a gwnaeth Delyth waith gwych wrth drefnu cyfarfodydd a chyfweliadau a darparu cymorth gweinyddol.

**Caroline Gardner**
*Cadeirydd yr Adolygiad Cymheiriaid a Dirprwy Archwilydd Cyffredinol yr Alban*



# Crynodeb

1 Mae Swyddfa Archwilio Cymru a'i staff wedi cyrraedd trobwynt yn eu hanes. Sefydlwyd Swyddfa Archwilio Cymru ar 1 Ebrill 2005 ar ôl uno'r Comisiwn Archwilio a Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru o dan arweiniad yr Archwilydd Cyffredinol llawn amser cyntaf, Jeremy Colman. Mae Swyddfa Archwilio Cymru wedi profi cryn lwyddiant yn ystod ei phedair blynedd gyntaf ac mae wedi ennill enw iddi ei hun fel sefydliad credadwy ac annibynnol. Yn ystod cam nesaf ei datblygiad, bydd yn wynebu nifer o heriau a chyfleoedd mawr sy'n golygu ei bod yn hanfodol adolygu ei chynnydd a gwneud nifer o newidiadau pwysig fel y gall barhau i fod yn addas ar gyfer y dyfodol. Mae'r materion allweddol yn rhai byrdymor a hirdymor eu natur.

2 Comisiynwyd yr Adolygiad Cymheiriaid annibynnol a rhyngwladol hwn gan yr Archwilydd Cyffredinol i helpu i gefnogi datblygiad parhaus Swyddfa Archwilio Cymru wrth iddi weithredu ei hail strategaeth dair blynedd. Mae **Atodiad 1** yn nodi ei chylch gorchwyl ac yn **Atodiad 2** nodir ein dull o gynnal yr Adolygiad Cymheiriaid. Cynhaliodd Swyddfa Archwilio Cymru hunanasesiad trylwyr, cadarn a gonest, a lywiodd yr Adolygiad Cymheiriaid ac a fu'n ddefnyddiol iawn o ran rhoi ffocws i'n gwaith. Cafodd y materion mewnol allweddol a nodwyd gennym ni ein hunain eu crybwyll yn yr hunanasesiad ac roedd hyn wedi rhoi sicrwydd i dîm yr Adolygiad Cymheiriaid ynghylch gallu ac awydd Swyddfa Archwilio Cymru i wella. Fel rhan o'r Adolygiad Cymheiriaid, cynhaliwyd cyfweliadau â 30 o randdeiliaid allanol (**Atodiad 3**), sesiynau briffio ar gyfer 55 o staff Swyddfa Archwilio Cymru a chyfweliadau unigol â 41 o aelodau staff Swyddfa Archwilio Cymru.

3 Mae gan Swyddfa Archwilio Cymru hanes o lwyddiant. Yn benodol:

- **a** Cafwyd adborth cadarnhaol ar y cyfan gan y rhan fwyaf o'r rhanddeiliaid allanol.
- **b** Roedd ansawdd a phroffesiynoldeb staff Swyddfa Archwilio Cymru i'w gweld yn glir yn ein gwaith gyda hwy ac yn adborth rhanddeiliaid allanol.
- **c** Mae Swyddfa Archwilio Cymru wedi dangos ei bod yn gallu ymateb yn effeithiol i sefyllfaoedd argyfyngus mewn gwasanaethau cyhoeddus, er enghraifft, ei gwaith ar wasanaethau ambiwlans, ac arolygiadau diweddar o lywodraethu corfforaethol yng Nghyngor Sir Ddinbych a Chyngor Sir Ynys Môn. Mae wedi ennill enw da fel llais awdurdodol, annibynnol a gwrthrychol ar wasanaethau cyhoeddus sydd â'r gallu unigryw i gyrraedd pob rhan o'r sector cyhoeddus yng Nghymru.
- **ch** Mae gwaith archwilio ariannol Swyddfa Archwilio Cymru, a wneir yn fewnol a chan ei chyflenwyr yn y sector preifat, yn gryfder gwirioneddol. Mae wedi cyflawni yn unol ag amserlenni cynyddol uchelgeisiol a safonau caeth heb amharu ar ansawdd.
- **d** Mae adroddiadau astudiaethau cenedlaethol o ansawdd uchel ac maent yn adlewyrchu'n dda ar Swyddfa Archwilio Cymru. Gwnaethom hefyd gael adborth cadarnhaol ar rywfaint o waith archwilio perfformiad lleol.
- **dd** Mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi llwyddo i ddefnyddio ei ddull unigryw ei hun o Lunio Casgliadau a Dadansoddi Materion a gydnabyddir yng Nghymru a thu hwnt, a bu Swyddfa Archwilio Cymru yn hyfforddi cydweithwyr yn Llys Archwilio Ewrop a Malta ar y dull hwn.
- **e** Mae gan Swyddfa Archwilio Cymru hanes da o arloesi. Er enghraifft, mae'r Gyfnewidfa Arfer Da yn adnodd arloesol o ran arfer archwilio cyhoeddus ac yn fenter ardderchog. Mae’r seilwaith a grëwyd gan y fenter hon yn berthnasol iawn i wasanaeth cyhoeddus

Cymru lle gwnaethom glywed yn gyson am drafferthion i drosglwyddo arfer da yn effeithiol. Mae'n debyg y bydd trosglwyddo arfer da yn effeithiol yn dod yn bwysicach fyth yn ystod y blynyddoedd anodd sy'n wynebu'r gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru.

f Roedd adborth gan randdeiliaid wedi tynnu sylw at y parch personol mawr sydd i'r Archwilydd Cyffredinol sy'n amlwg wedi bod yn llysgennad effeithiol i Swyddfa Archwilio Cymru a'r gwasanaeth cyhoeddus ehangach yng Nghymru. Mae Swyddfa Archwilio Cymru wedi gweithio'n dda mewn amgylchedd datganoledig ac mae wedi datblygu cydberthnasau gwaith cynyddol effeithiol â Llywodraeth y Cynulliad.

4 Mae hwn yn drobwynt am fod y cyd-destun ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus yn newid yn sylweddol. Mae'r gwasanaeth cyhoeddus yn wynebu cyfnod estynedig o ddarbodaeth a bydd ymdrech fawr i sicrhau arbedion effeithlonrwydd yn mynd rhagddi ym mhob rhan o'r llywodraeth. Bydd hyn yn effeithio ar Swyddfa Archwilio Cymru fel archwilydd, arolygydd a rheoleiddiwr gwasanaethau cyhoeddus ond hefyd fel corff a ariennir yn gyhoeddus gyda chyllideb o £25 miliwn. Mae disgwyliadau rhesymol iawn y dylai Swyddfa Archwilio Cymru arwain yr ymdrech i sicrhau effeithlonrwydd o fewn y gwasanaeth cyhoeddus drwy ddangos ei bod yn cynnig gwerth am arian mewn ffordd fwy strategol a systematig.

5 Mae cyfle pwysig hefyd i Swyddfa Archwilio Cymru ychwanegu mwy o werth at yr agenda gwasanaeth cyhoeddus ehangach drwy ei rhaglen waith. Mae angen i'r rhaglen waith hon helpu i ategu gwerth am arian ac enillion effeithlonrwydd o gofio maint y pwysau ariannol nawr ac yn y dyfodol. Mae'n annhebygol y bydd arbedion effeithlonrwydd cynyddol yn ddigon; yn hytrach, fel rhan o ymdrech lawer ehangach i gynnal ansawdd gwasanaethau yn wyneb pwysau deublyg ar ffurf cyfyngiadau ariannol a galw cynyddol, bydd arloesedd yn gymhwysedd allweddol ar gyfer sefydliadau gwasanaeth cyhoeddus. Mae Swyddfa Archwilio Cymru mewn sefyllfa unigryw i helpu i wella'r gwasanaethau cyhoeddus a ddarperir a gwerth am arian yng Nghymru, yn enwedig drwy ei chyrhaeddiad trawsbynciol ar draws y sector cyhoeddus i gyd.

6 Mae datblygiadau diweddar o ran llywodraethu gwasanaethau cyhoeddus a phryderon am safonau mewn bywyd cyhoeddus hefyd yn newid amgylchedd gweithredu Swyddfa Archwilio Cymru. Er bod annibyniaeth yr Archwilydd Cyffredinol yn hollbwysig i waith archwilio cyhoeddus effeithiol, roedd llawer o randdeiliaid wedi gofyn 'pwy sy'n gwarchod y gwarcheidwaid'. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn atebol i Bwyllgor Archwilio'r Cynulliad Cenedlaethol a chaiff ei gynorthwyo gan Bwyllgor Archwilio a Rheoli Risg sy'n cynnwys aelodau annibynnol. Er na cheir awgrym bod y trefniadau hyn yn aneffeithiol, mae'r Adolygiad Cymheiriaid wedi tynnu sylw at y ffaith bod lle i wella a chryfhau prosesau llywodraethu a rheoli Swyddfa Archwilio Cymru gan sicrhau hefyd na chyfyngir ar annibyniaeth yr Archwilydd Cyffredinol wrth lunio barn a dyfarniadau archwilio.

7 Mae Swyddfa Archwilio Cymru hefyd yn wynebu nifer o gyfleoedd a heriau penodol a fydd yn effeithio arni dros y pum mlynedd nesaf ac sy'n rhoi cyfle mawr iddi ymestyn ei heffaith:

a Bydd y nifer o gyrff y GIG y mae'n eu harchwilio yn lleihau'n sylweddol yn sgîl creu saith Bwrdd Iechyd newydd o'r 22 o Fyrddau Iechyd Lleol a'r 12 o Ymddiriedolaethau. Bydd y llwyth gwaith archwilio yn cynyddu i gychwyn ond mae'n debygol o leihau yn dilyn hynny wrth i'r cyrff newydd wella'u prosesau rheoli ariannol yn gynyddol.



b Drwy ei Mesur Llywodraeth Leol mae Llywodraeth y Cynulliad ar fin gwneud newidiadau i Raglen Cymru ar gyfer Gwella a gosod dyletswyddau newydd ar yr Archwilydd Cyffredinol. Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn defnyddio'r cyfle sy'n codi yn sgîl y Mesur i ddatblygu methodoleg a dull gweithredu sy'n llawer mwy effeithiol o ran ategu gwelliant parhaus, herio perfformiad a rhoi arwyddion cynharach o ddiffygion gwasanaeth posibl i randdeiliaid allweddol.

c Mae cyfleoedd i adeiladu ymhellach ar ddefnydd Swyddfa Archwilio Cymru o'i chyrhaeddiad trawsbynciol o fewn y gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru, sydd wedi arwain at gyflawni nifer o brosiectau trawsbynciol o ansawdd. Gallai newidiadau strwythurol yng nghyfundrefn arolygu'r GIG a llywodraeth leol ei gwneud yn llawer haws canolbwyntio ar faterion o safbwynt y dinesydd a dilyn y bunt gyhoeddus hyd nes y gwelir canlyniadau.

8 Gall y newidiadau hyn arwain at newid y cymysgedd sgil sydd ei angen ar Swyddfa Archwilio Cymru a bydd yn newid y ffordd y mae'n gweithio. Ar ôl dod drwy'r broses uno anodd ac anochel, mae'n hanfodol bod staff Swyddfa Archwilio Cymru yn edrych i'r dyfodol gan ganolbwyntio llai ar faterion mewnol yn ystod yr amserau heriol hyn.

9 Mae Swyddfa Archwilio Cymru bellach yn wynebu'r blaenoriaethau canlynol:

a Mae angen arweiniad mwy cyfeiriol a chyfeiriad cliriach ar y staff, ynghyd â dulliau cyfathrebu llawer cliriach a mwy strwythuredig. Mae Swyddfa Archwilio Cymru wedi rhoi strwythur matrics ar waith sydd wedi arwain at rai buddiannau sylweddol, ond mae angen trawsnewid y ffordd y caiff ei weithredu erbyn hyn.

b Cydnabod disgwyliadau cynyddol y cyhoedd mewn perthynas â phob corff cyhoeddus, i gryfhau prosesau llywodraethu Swyddfa Archwilio Cymru heb amharu ar annibyniaeth yr Archwilydd Cyffredinol.

c Mae newidiadau strwythurol yng ngwasanaethau cyhoeddus Cymru yn golygu bod angen i Swyddfa Archwilio Cymru sicrhau ei bod mewn sefyllfa dda i ymateb yn strategol i lwyth gwaith fydd yn lleihau yn y tymor canolig, ac un o ganlyniadau hyn yw'r tebygolrwydd y bydd yn gorfod gwneud penderfyniadau anodd am y lefel costau staff.

ch Mae angen i Swyddfa Archwilio Cymru wella ei gwaith cynllunio'r gweithlu a chynllunio ar gyfer olyniaeth yn sylweddol, a chynnwys Adnoddau Dynol yn y broses gwneud penderfyniadau. Mae angen i'r brosiect cyflog ac olyniaeth, sydd yn adeiladu ar y broses gwerthuso swyddi, ddod i ben yn gyflym ac yn effeithiol.

d Mae angen i brosesau busnes wella mewn nifer o feysydd pwysig, yn arbennig cynllunio busnes, rheoli rhaglenni a dyrannu gwaith, ac adrodd ar berfformiad.

## Argymhellion

### Ar wasanaethau Swyddfa Archwilio Cymru

#### Cynllun a chynnwys rhaglenni gwaith i helpu i wella gwasanaeth cyhoeddus Cymru

1 Dylai Swyddfa Archwilio Cymru ddatblygu rhaglen gyffredinol gydlynol a dull cyfannol o'i chyflawni, gan fanteisio i'r eithaf ar y cyrhaeddiad trawsbynciol sydd ganddi ym mhob rhan o wasanaeth cyhoeddus Cymru. Dylid manteisio'n effeithiol ar y cysylltiadau rhwng gwaith mewn sectorau gwahanol a dylai fod cysylltiad amlwg rhwng strategaeth Swyddfa Archwilio Cymru a chynnwys ei rhaglen ehangach. Wrth gynllunio ei rhaglen waith, dylai Swyddfa Archwilio Cymru nodi mwy o gyfleoedd yn ei rhaglen er mwyn:

- **a** defnyddio cyrhaeddiad cyffredinol Swyddfa Archwilio Cymru i ganolbwyntio ar faterion trawsbynciol o safbwynt y dinesydd er mwyn helpu i wella canlyniadau ac ategu'r modelau newydd ar gyfer darparu gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, fel Byrddau Gwasanaethau Lleol;
- **b** gwneud gwaith sy'n nodi ac yn adrodd ar yr amrywiadau yng nghostau a pherfformiad y gwasanaeth cyhoeddus, y ffactorau sylfaenol sy'n eu hachosi a sut yr aethpwyd i'r afael â hwy yn llwyddiannus yng Nghymru a thu hwnt;
- **c** datblygu ei gwaith Arfer Da a Rhannu Dysgu fel y gellir lledaenu a chymhwyso arfer da yn fwy effeithiol a lleihau'r amrywiadau amlwg ym mherfformiad gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru;
- **ch** hwyluso’r broses o nodi achosion o ddiffygion gwasanaeth posibl neu ddiffygion sydd ar fin digwydd yn gynt, a chymryd camau ymyrryd; fel rhan o'r broses hon dylid adolygu templed y llythyr archwilio blynyddol er mwyn sicrhau bod y negeseuon allweddol yn glir ac yn hawdd i randdeiliaid allweddol eu deall, er enghraifft, drwy gynnwys dogfen fer a chryno â'r dinesydd yn ganolbwynt iddi sy'n tynnu sylw at faterion allweddol y mae angen rhoi sylw iddynt.

2 Mae lle gan Swyddfa Archwilio Cymru i wella cydbwysedd ei rhaglen waith. Er y dylai iechyd fod yn nodwedd allweddol o'i rhaglen o gofio'r gyfran helaeth o gyllideb Llywodraeth y Cynulliad a ddyrannwyd iddi, o dan yr amgylchiadau economaidd presennol mae'n bwysig bod astudiaethau sy'n ymwneud ag effeithlonrwydd ymhob rhan o’r gwasanaeth cyhoeddus a materion economaidd ehangach, fel creu a chynnal swyddi, yn ogystal â mentrau eraill a gynlluniwyd i leihau effaith y dirwasgiad, yn cael mwy o sylw yn y rhaglen. Dylai Swyddfa Archwilio Cymru ystyried dulliau o gyfathrebu â'i rhanddeiliaid yn barhaus wrth greu syniadau ar gyfer ei rhaglen waith.

#### Datblygu arferion Archwilio Perfformiad ac Archwilio Ariannol

3 Dylai Swyddfa Archwilio Cymru sefydlu system i gynnal ôl-adolygiadau o ansawdd adroddiadau archwilio perfformiad, efallai drwy drefniant cyfatebol gydag un o gyrff archwilio eraill y DU.

4 Mae'r systemau ar gyfer monitro ansawdd gwaith archwilio ariannol yn gadarn ond byddent ar eu hennill petai mwy o bwyslais yn cael ei roi ar asesu ansawdd dyfarniadau archwilio yn ogystal â chydymffurfiaeth â gweithdrefnau.



5 Mae problemau hirdymor gydag ansawdd a maint y gwasanaethau archwilio TG mewnol. Mae camau lliniaru ar waith a dylent barhau, gan adeiladu ar lwyddiannau aseiniadau allanol diweddar.

## Cydgysylltu â chyrff archwilio ac arolygu eraill

6 Er gwaethaf rôl bwysig archwilio ac arolygu o ran rhoi gwybodaeth a sicrwydd i drethdalwyr a dinasyddion, datgelodd ein dadansoddiad o farn rhanddeiliaid ganfyddiadau cyson bod yr arolygiaethau amrywiol yn cynnal gormod o arolygiadau o wasanaethau cyhoeddus Cymru. O gofio ei rôl unigryw sy'n cwmpasu'r gwasanaethau cyhoeddus i gyd yng Nghymru, mae Swyddfa Archwilio Cymru mewn sefyllfa dda i gymryd y prif gyfrifoldeb am gydgysylltu a symleiddio'r drefn arolygu heb beryglu ei hannibyniaeth. Mae Swyddfa Archwilio Cymru wedi cymryd y blaen mewn gwaith i weithredu'r Mesur Llywodraeth Leol a fydd yn ysgogi cynnydd i gyflwyno fframwaith cyffredin mwy cydlynol, cydgysylltiedig a chymesur ar gyfer gwaith adolygu allanol. Er mwyn cael mwy o effaith a gwerth am arian, yn unol â'r egwyddorion a nodir yn Natganiad Polisi drafft Llywodraeth y Cynulliad ar Archwilio, Arolygu a Rheoleiddio, dylid rhoi'r flaenoriaeth fwyaf i orffen y gwaith sy'n mynd rhagddo i ddatblygu:

- **a** prosesau cynllunio cyffredin, gan weithio yn unol ag amserlenni cyson i'r graddau sy'n bosibl, sy'n darparu rhesymeg glir ar gyfer rhaglenni gwaith cyffredinol rheoleiddwyr;
- **b** dulliau gwell o rannu gwybodaeth rhwng yr arolygiaethau;
- **c** cyfleoedd i gynyddu'r gwerth a ychwanegir gan adolygiadau mewnol drwy gyfrwng camau ymyrryd sy'n fwy cymesur â pherfformiad;
- **ch** sefydlu'r angen i ganolbwyntio ar ganlyniadau yn ogystal â mewnbynnau ac allbynnau;
- **d** cefnogaeth ar gyfer gwelliannau i adnoddau a gallu sefydliadau i hunanasesu eu perfformiad mewn modd gwrthrychol a thryloyw;
- **dd** trefniadau i sicrhau nad yw prosesau cydgysylltu gwell yn rhwystro Swyddfa Archwilio Cymru wrth iddi lunio adroddiadau ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y cyrff adolygu allanol eraill.

## Datblygu'r Gyfnewidfa Arfer Da a Rhannu Dysgu

7 Daethom i'r casgliad bod y Gyfnewidfa Arfer Da wedi bod yn fenter ardderchog y mae nawr angen ei datblygu ymhellach. Dylai Swyddfa Archwilio Cymru geisio:

- **a** integreiddio Arfer Da a Rhannu Dysgu yn fwy effeithiol yn ei gwaith prif ffrwd er mwyn ymestyn a dyfnhau ei heffaith, gan gadw hyrwyddwr mewnol uwch;
- **b** datblygu ymhellach ei gwaith parhaus i gydgysylltu datblygiad y Porth Arfer Da ar y cyd â chyrff allweddol eraill yng ngwasanaethau cyhoeddus Cymru;
- **c** nodi dulliau ehangach i fesur effaith ac effeithiolrwydd y Gyfnewidfa Arfer Da;
- **ch** datblygu trefniadau cynaliadwy i ariannu'r Gyfnewidfa Arfer Da er mwyn sicrhau bod trefniadau effeithiol ar waith i ymestyn gwefan y Gyfnewidfa Arfer Da a sicrhau ei bod yn cynnwys y wybodaeth ddiweddaraf.

## Ar lywodraethu, atebolrwydd a chyfundrefn ehangach yr Archwilydd Cyffredinol

8 Mae'r hinsawdd bresennol yn galw am ailfeithrin ymddiriedaeth mewn gwasanaethau cyhoeddus. Yn yr hinsawdd newydd hon, bydd angen i bob corff cyhoeddus ddangos y safonau llywodraethu uchaf posibl er mwyn meithrin hyder rhanddeiliaid. Credwn fod lle i wella a chryfhau prosesau llywodraethu Swyddfa Archwilio Cymru heb gyfyngu ar annibyniaeth hollbwysig yr Archwilydd Cyffredinol i archwilio unrhyw bwnc o'i ddewis, a gwneud dyfarniadau archwilio annibynnol ar y pynciau hynny heb ymyrraeth wleidyddol. Rydym o'r farn y byddai efelychu'r trefniadau a sefydlwyd yn ddiweddar ar gyfer Swyddfa Archwilio Genedlaethol y DU yn amhriodol yng nghyd-destun Cymru. Wrth wneud ein penderfyniad terfynol ac anorfod am brosesau llywodraethu Swyddfa Archwilio Cymru yn y dyfodol, argymhellwn y canlynol:

a Dylai Pwyllgor Archwilio'r Cynulliad Cenedlaethol chwarae rôl lywodraethu gryfach mewn perthynas â'r Archwilydd Cyffredinol, er enghraifft drwy arfer ei bwerau i gomisiynu astudiaethau o werth am arian Swyddfa Archwilio Cymru bob rhyw dair i bum mlynedd.

b Hefyd, rydym wedi nodi dau opsiwn sylfaenol i gryfhau prosesau llywodraethu Swyddfa Archwilio Cymru. Dylai'r Archwilydd Cyffredinol ystyried a thrafod yr opsiynau hyn, eu costau a'u heffaith bosibl â Phwyllgor Archwilio'r Cynulliad Cenedlaethol, ynghyd â'u goblygiadau o ran gweithrediad y Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg presennol. Mae'r ddau opsiwn fel a ganlyn:

i Cyflwyno aelodau anweithredol a benodwyd drwy brosesau penodi cyhoeddus ac agored i Fwrdd Llywodraethu, y byddai'r Archwilydd Cyffredinol yn gadeirydd arno, ac a fyddai'n cynnwys aelodau o'r Pwyllgor Gweithredol newydd. Ni ddylai cylch gorchwyl y Bwrdd Llywodraethu gynnwys dyfarniadau archwilio na'r broses o gynnal y gwaith archwilio, ond dylai gynnwys y gwaith cynllunio strategol a busnes a'r gwaith monitro perfformiad, gan gynnwys cynhyrchiant ac effeithlonrwydd Swyddfa Archwilio Cymru.

ii Sefydlu Bwrdd Cynghori i helpu'r Archwilydd Cyffredinol i ddatblygu strategaethau a rhaglenni gwaith. Yn wahanol i’r Bwrdd Llywodraethu, byddai’r Bwrdd Cynghori yn canolbwyntio ar faterion allanol, gan ddarparu fforwm i drafodaeth ddwyffordd reolaidd rhwng yr Archwilydd Cyffredinol a grŵp o randdeiliaid allanol allweddol am ei strategaeth a’i raglen waith. Byddai’r Bwrdd Cynghori hefyd yn cael budd o gyfraniad gan arbenigwyr perthnasol o’r tu allan i Gymru a/neu aelod o Gymru nad yw’n un o brif gleientiaid neu randdeiliaid Swyddfa Archwilio Cymru. Diben y Bwrdd Cynghori fyddai cynghori’r Archwilydd Cyffredinol ond ni fyddai ganddo unrhyw bwerau dros strategaeth na rhaglen yr Archwilydd Cyffredinol.

## Ar reolaeth Swyddfa Archwilio Cymru

### Strwythur y sefydliad

9 Mae Swyddfa Archwilio Cymru wrthi'n cynllunio strwythur rheoli uwch newydd i ddarparu arddull arwain cyfeiriol, gan ymgorffori Pwyllgor Gweithredol bach a chydlynol. Yn y cyd-destun hwn dylai geisio symleiddio'r strwythur matrics, y rolau niferus sydd ynddo a'r cydberthnasau rhwng y rolau hynny. Dylai egluro cyfrifoldebau o ran rheoli staff a rhaglenni, yn enwedig rolau a chyfrifoldebau sy'n ymwneud â chleientiaid. I'r graddau sy'n bosibl, dylai unrhyw newidiadau



gadw'r hyblygrwydd a ddarperir gan y matrics o ran dewis y tîm gorau ar gyfer prosiectau o bob rhan o'r sefydliad. Dylai'r Archwilydd Cyffredinol adolygu strwythur y sefydliad ar ôl chwe mis, gan gynnwys adolygu'r goblygiadau ar gyfer rôl a chyfansoddiad y timau Cydymffurfio a Thechnegol.

## Arweinyddiaeth a diwylliant

10 Dylai Swyddfa Archwilio Cymru ddatblygu ymhellach ei dull o gyfathrebu â'i staff drwy roi pwyslais ar drafodaeth ddwyffordd barhaus rhwng arweinwyr a staff. Heb ddibynnu'n gyfan gwbl ar yr Archwilydd Cyffredinol ei hun, cynigiwn y dylid sefydlu system o sesiynau briffio staff rheolaidd, a gynhelir bob mis yn ddelfrydol gyda'r Rheolwyr Timau Cartref a'u timau. Yn ystod y sesiynau briffio hyn dylid rhoi adroddiadau rheolaidd ar gynnydd yn erbyn targedau'r cynllun busnes blynyddol a pherfformiad ariannol Swyddfa Archwilio Cymru, a dylid hefyd rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i staff am y newidiadau sylweddol sy'n wynebu'r sefydliad. Byddai'r system hon yn cynnig ffordd reolaidd a systematig o gael adborth gan staff hefyd. Byddai heriau ymarferol ac ariannol ynghlwm wrth drefnu cyfarfodydd o'r fath y byddai'n rhaid i Swyddfa Archwilio Cymru eu hystyried wrth gynllunio ei dull gweithredu.

## Adnoddau dynol a rheoli pobl

11 Mae angen i Swyddfa Archwilio Cymru ddatrys y problemau adnoddau dynol sy'n parhau o ran cyflog ac olyniaeth cyn gynted â phosibl. Bydd angen cynnal trafodaethau manwl i bennu cyfraddau cyflog sy'n gynaliadwy o safbwynt ariannol mewn hinsawdd o ddarbodaeth. Gan adeiladu ar yr ymarfer gwerthuso swyddi hirfaith, gwnaed gwaith meincnodi allanol ar sail cyflog yn unig gyda buddiannau ehangach yn dylanwadu ar yr osodiad o gyfraddau targed fel rhan ohono, mae angen dirwyn y trafodaethau sy'n mynd rhagddynt ar gyflog ac olyniaeth i ben yn gynnar. Bydd angen hefyd bod yn agored ac yn dryloyw wrth roi gwybod i staff am benderfyniadau anodd. Gan adeiladu ar gytundeb diweddar â Prospect, dylai ailfeithrin cydberthnasau diwydiannol effeithiol a lleihau nifer y cwynion yn sylweddol fod yn flaenoriaeth allweddol.

12 Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn wynebu amgylchedd allanol cymhleth lle mae'r llwyth gwaith yn debygol o leihau yn y tymor canolig, yn ogystal â'r tebygolrwydd y bydd y cymysgedd sgiliau a'r math o sgiliau fydd eu hangen yn y dyfodol yn wahanol i'r hyn sydd ar gael ar hyn o bryd. Mae angen i Swyddfa Archwilio Cymru gynllunio ei hymateb strategol i'r newidiadau hyn nawr, yn enwedig am ei bod yn debygol y bydd yn rhaid gwneud dewisiadau anodd. Er i ni weld tystiolaeth o fodelau ariannol o amrywiaeth o sefyllfaoedd posibl yn y dyfodol, bach iawn o dystiolaeth a welwyd o waith cynllunio gweithlu neu gynllunio ar gyfer olyniaeth. Ar ôl dechrau ar waith cynllunio'r gweithlu ffurfiol yn ddiweddar, mae'n hollbwysig bod Swyddfa Archwilio Cymru'n mynd ati nawr i ddatblygu cynllun gweithlu sy'n darogan sut dylai'r sefydliad edrych a llunio sefydliad sy'n cynnwys nifer y staff a'r math o sgiliau y bydd eu hangen arno i gyflawni ei genhadaeth. Elfen allweddol o'r cynllun gweithlu fydd ystyried llif staff i mewn ac allan o'r sefydliad er mwyn darparu meddylfryd ffres a syniadau newydd.

13 Gan na wnaed unrhyw waith cynllunio gweithlu yn y gorffennol, ni cheir strategaeth adnoddau dynol glir ond mae strategaeth datblygu sefydliadol newydd ar gyfer Swyddfa Archwilio Cymru bellach yn dod i'r amlwg yn sgîl y newidiadau i'r strwythur rheoli uwch. Bu tuedd i ddibynnu ar fentrau penodol i fynd i'r afael â materion corfforaethol penodol, yn hytrach na datblygu rhaglen gorfforaethol y mae staff yn ei hystyried yn gydlynol ac yn gydnaws â nodau strategol. Yn ogystal â chymryd camau breision i ddatblygu ei strategaethau adnoddau dynol a

datblygu sefydliadol, dylai Swyddfa Archwilio Cymru rannu gwybodaeth am ei rhaglen gorfforaethol yn fwy effeithiol a dylai'r rhaglen hon gyd-fynd yn glir â blaenoriaethau strategol amlwg.

14 Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn cynnal adolygiad mewnol o'i hadran adnoddau dynol. Ni ddylai maint cyffredinol yr adran hon ei rhwystro rhag darparu gwasanaeth adnoddau dynol effeithiol i sefydliad o faint Swyddfa Archwilio Cymru. Yn y cyd-destun hwn, dylai Swyddfa Archwilio Cymru geisio sefydlu adran adnoddau dynol fwy dylanwadol sy'n chwarae rôl fwy strategol o fewn y sefydliad. Yn y dyfodol, dylai adran adnoddau dynol Swyddfa Archwilio Cymru chwarae rôl fwy canolog mewn penderfyniadau corfforaethol er mwyn helpu i ddatblygu'r sefydliad yn fwy effeithiol.

15 Rydym o'r farn bod llwyddiant rôl y Rheolwr Tîm Cartref yn hollbwysig i ddatblygiad Swyddfa Archwilio Cymru fel sefydliad. Dylai Swyddfa Archwilio Cymru gefnogi'r Rheolwr Tîm Cartref yn well drwy:

- a sicrhau bod Rheolwyr Timau Cartref yn cael adborth mwy rheolaidd ac amserol ar y rhaglen waith gyffredinol a sut mae eu staff yn perfformio;
- b fel rhan o raglen o archwiliadau a phrosiectau a gaiff ei diweddaru'n rheolaidd, llunio rhestr gyfun a ddiweddarir yn aml o brosiectau y mae angen adnoddau ar eu cyfer er mwyn ei gwneud yn haws i Reolwyr Timau Cartref nodi gwaith y gallai aelodau eu tîm ei gyflawni;
- c mewn cyd-destun lle bo Partneriaid penodol yn cael eu clustnodi i bob Rheolwr Tîm Cartref, sicrhau bod Partneriaid yn cydnabod eu cyfrifoldebau eu hunain o ran rheoli pobl ac yn rhoi cymorth arwain effeithiol a chyson i Reolwyr Timau Cartref.

## Rheoli strategaethau a rhaglenni

16 Mae angen i Swyddfa Archwilio Cymru gynyddu'r graddau y mae strategaethau yn ysgogi gweithgarwch ledled y sefydliad, drwy wella prosesau cynllunio busnes a rheoli perfformiad. Ar ôl sefydlu ei hun a datblygu rhannau allweddol o'i seilwaith mae angen bellach i Swyddfa Archwilio Cymru:

- a cytuno, datblygu a rhannu gwybodaeth am gynllun busnes blynyddol cyffredinol sy'n dangos sut y caiff y strategaeth ei chyflawni;
- b datblygu strategaethau ategol a chynlluniau busnes ar gyfer prif rannau'r busnes er mwyn trosi'r strategaeth gyffredinol yn rhaglenni gwaith;
- c sicrhau bod staff yn gwybod sut y maent yn cyfrannu at y gwaith o gyflawni'r strategaeth ehangach;
- ch gwella ei gallu i fesur effaith a rheoli ei pherfformiad yn fwy effeithiol nag sy'n bosibl drwy ei Cherdyn Sgorio Cytbwys presennol, wedi'i ategu gan well prosesau llunio adroddiadau yn sgîl creu'r Pwyllgor Gweithredol newydd;
- d o fewn y Pwyllgor Gweithredol newydd, rhoi blaenoriaeth i: wella'r modd y caiff gwybodaeth reoli ei llunio, ei defnyddio a'i rhannu, wedi'i ategu gan brosesau busnes clir ac effeithiol; cynllunio busnes, monitro perfformiad; a gwerthuso gwerth am arian mewnol.



## Defnydd Swyddfa Archwilio Cymru o adnoddau

**17** Er ein bod yn cymeradwyo Swyddfa Archwilio Cymru am ei dull trylwyr o feincnodi ei ffioedd, credwn y gallai fod lle i ostwng ffioedd ymhellach y tu hwnt i'r targed effeithlonrwydd cronnol blynyddol o un y cant y mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi'i gymhwyso i Swyddfa Archwilio Cymru yn wirfoddol ac y mae'r Swyddfa wedi rhagori arno bob blwyddyn. Yn arbennig, mae angen i Swyddfa Archwilio Cymru ddatblygu ei gwaith yn y meysydd canlynol:

- **a** ymarfer seiliedig ar sero i gostio archwiliad ariannol er mwyn sicrhau bod cydbwysedd rhesymol yn ei ffioedd rhwng yr amser sydd ei angen i gynnal archwiliad ariannol a'r elfennau archwilio perfformiad ac, yn arbennig, ddatblygu cost seiliedig ar sero y gweithgarwch sydd ei angen i gyflawni'r gwaith sydd ynghlwm wrth y Mesur Llywodraeth Leol a chost archwiliad ariannol ar gyfer y Byrddau Iechyd newydd;
- **b** fel rhan o'r ymarfer hwn, ystyried a allai unrhyw agweddau ar y gyfundrefn symleiddio'r gofynion archwilio heb amharu ar effeithiolrwydd;
- **c** yng nghyd-destun ei chyfraniad i unrhyw adolygiad gan Lywodraeth y Cynulliad o grantiau, dylai Swyddfa Archwilio Cymru ystyried i ba raddau y mae ei gwaith ardystio grantiau yn cynrychioli gwerth da am arian i bwrs y wlad, ac yn benodol:
  - **i** sut y gallai weithio gyda Llywodraeth y Cynulliad i wella'r modd y gweinyddir hawliadau grant a lleihau'r gwaith ardystio y mae angen ei wneud, yn arbennig drwy newidiadau polisi gan Lywodraeth y Cynulliad i leihau cyfanswm yr arian a ddarperir ganddi drwy grantiau; hyd nes y gwneir unrhyw newid, efallai y bydd lle o fewn y gyfundrefn bresennol i fabwysiadu dull gweithredu llai cyfarwyddol;
  - **ii** a allai proses raddol o drosglwyddo unrhyw waith ardystio grantiau angenrheidiol i'r adran archwilio mewnol leihau'r costau sy'n gysylltiedig ag ardystio grantiau i bwrs y wlad.
- **ch** ystyried sut y gallai gymryd camau pellach er mwyn helpu i ddatblygu gwell gwasanaethau archwilio mewnol gyda'r sector cyhoeddus yng Nghymru;
- **e** adeiladu ar ddatblygiad ei dull o feincnodi ffioedd, gan sefydlu trefniadau mewnol trylwyr i herio cyllidebau ar gyfer astudiaethau a phrosiectau corfforaethol.

**18** Credwn fod angen i Swyddfa Archwilio Cymru fabwysiadu dull mwy systematig o ddangos ei darbodusrwydd, ei heffeithlonrwydd a'i heffeithiolrwydd ei hun nawr bod y sefydliad wedi mynd drwy'r cyfnod cychwynnol o ymsefydlu a datblygu ei systemau a'i seilwaith.

**19** Mae rheoli rhaglenni wedi bod yn her fawr i Swyddfa Archwilio Cymru, ac mae'n gwneud gwelliannau. Dylai Swyddfa Archwilio Cymru ddefnyddio ei strwythur rheoli newydd i roi momentwm i waith rheoli rhaglenni gwell fel blaenoriaeth gynnar. Yn arbennig, mae angen iddi ddatblygu a rhannu gwybodaeth am brosesau clir ar gyfer neilltuo staff i brosiectau, a dylai hyn fynd i'r afael â'r canfyddiadau ei bod yn dewis y staff gorau ar gyfer y prosiectau gorau ac nad yw'n ddigon tryloyw a theg wrth ddyrannu gwaith.

# Pennod 1 – Cyd-destun a chyflwyniad

## Archwilio ac atebolrwydd cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig

**1.1** Atebolrwydd cyhoeddus yw un o gonglfeini gwaith rheoli gwasanaethau cyhoeddus yn y DU. Mae gweinidogion, aelodau etholedig, cyrff llywodraethu a rheolwyr gwasanaethau cyhoeddus yn gyfrifol am sicrhau y caiff arian cyhoeddus ei ddefnyddio'n gywir a'i fod yn rhoi gwerth am arian.

**1.2** Mae gwaith archwilio cyhoeddus yn ganolog i'r trefniadau atebolrwydd er mwyn cynnal hyder y cyhoedd a hyrwyddo'r arfer o warchod arian cyhoeddus yn effeithiol. Mae angen mwy o atebolrwydd ar gyfer gwariant cyhoeddus oherwydd:

- **a** mae elfen o orfodaeth ynghlwm wrth godi arian cyhoeddus, drwy drethiant fel arfer;
- **b** dim ond at y dibenion a fwriedir ac a awdurdodir gan y gyfraith y gellir defnyddio arian cyhoeddus;
- **c** rhaid i'r rhai sy'n delio ag arian cyhoeddus allu dangos eu bod wedi gwneud hynny yn unol â'r safonau a ddisgwylir gan gynrychiolwyr etholedig a'r cyhoedd;
- **ch** gall prosesau craffu helpu i ysgogi gwelliant mewn meysydd o'r gwasanaethau cyhoeddus lle nad oes cystadleuaeth.

**1.3** Prif amcanion gwaith archwilio cyhoeddus yw:

- **a** rhoi darlun cynhwysfawr;
- **b** cynnig sicrwydd, craffu ac atebolrwydd;
- **c** hyrwyddo gwelliant.

**1.4** Lluniodd Arglwydd Sharman adroddiad arloesol ym mis Chwefror 2001, sef *Holding to Account: The Review of Audit and Accountability for Central Government*[1], a oedd yn amlinellu nifer o argymhellion i gryfhau rôl ac effaith trefniadau archwilio ac atebolrwydd mewn llywodraeth ganolog. Mae egwyddorion sylfaenol gwaith archwilio cyhoeddus fel a ganlyn:

- **a** dylai archwilwyr sector cyhoeddus fod yn hollol annibynnol ar y sefydliadau a archwilir ganddynt a dylent weithredu mewn modd cywir a gwrthrychol;
- **b** dylai gwaith archwilio cyhoeddus gynnwys archwilio datganiadau ariannol a rheoleidd-dra (neu gyfreithlondeb) a phriodoldeb (neu gywirdeb) y ffyrdd o gynnal busnes cyhoeddus;
- **c** dylai archwilwyr cyhoeddus archwilio gwerth am arian a dulliau rheoli perfformiad gwasanaethau cyhoeddus;
- **ch** dylai archwilwyr cyhoeddus sicrhau bod canlyniadau eu harchwiliadau ar gael i'r cyhoedd, a chynrychiolwyr a etholwyd drwy ddulliau democrataidd;
- **d** dylai archwilwyr cyhoeddus arddangos y safonau uchaf o lywodraethu, perfformiad ac atebolrwydd ar gyfer eu defnydd eu hunain o adnoddau.

1 http://www.hm-treasury.gov.uk/d/Holding_to_Account.pdf



## Crëwyd Swyddfa Archwilio Cymru gan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus Cymru ar 1 Ebrill 2005

**1.5** Mae dyfodiad datganoli wedi arwain at greu sefydliadau archwilio cyhoeddus newydd yn y gweinyddiaethau datganoledig. I ddechrau, roedd Archwilydd Cyffredinol rhan-amser Cymru, Syr John Bourn, hefyd yn Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol y Deyrnas Unedig. Gwasanaethodd y Cynulliad Cenedlaethol o'r adeg y cafodd ei greu yn 1999 hyd nes y crëwyd Swyddfa Archwilio Cymru yn 2005.

**1.6** Crëwyd Swyddfa Archwilio Cymru ar 1 Ebrill 2005 ar ôl i'r Frenhines benodi Archwilydd Cyffredinol llawn amser cyntaf Cymru, sef Jeremy Colman. Unwyd staff Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru a staff Comisiwn Archwilio Cymru.

**1.7** Mae'r pwerau i gyd yn eiddo i'r Archwilydd Cyffredinol yn hytrach na Swyddfa Archwilio Cymru, sydd heb unrhyw bwerau cyfreithiol ei hun. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol ar Lywodraeth y Cynulliad. Mae ei bwerau a'i swyddogaethau presennol yn deillio'n bennaf o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004[2] a Deddf Llywodraeth Cymru 2006[3]. Penodwyd Jeremy Colman am gyfnod o bum mlynedd i ddechrau. Ym mis Mai 2009 estynnwyd y cyfnod hwn i wyth mlynedd a ddaw i ben ym mis Mawrth 2013.


**1.8** Mae Swyddfa Archwilio Cymru a chyflenwyr gwasanaethau archwilio eraill yn helpu'r Archwilydd Cyffredinol sydd â hawliau mynediad archwilio cynhwysfawr. Ymhlith ei bwerau a'i gyfrifoldebau statudol mae:

- **a** archwilio cyfrifon Llywodraeth y Cynulliad ynghyd â'r cyrff cyhoeddus a noddir ganddi ac sy'n gysylltiedig â hi, yn cynnwys cyrff y GIG yng Nghymru;
- **b** rhoi adroddiadau i'r Cynulliad Cenedlaethol ar ba mor ddarbodus, effeithlon ac effeithiol mae Llywodraeth y Cynulliad a'r cyrff cyhoeddus a noddir ganddi ac sy'n gysylltiedig â hi wedi defnyddio eu hadnoddau wrth gyflawni eu swyddogaethau a sut y gallent wella eu defnydd o adnoddau.
- **c** penodi archwilwyr i gyrff llywodraeth leol yng Nghymru;
- **ch** cynnal a hyrwyddo astudiaethau gwerth am arian yn y sector llywodraeth leol ac arolygu cydymffurfiaeth â gofynion gwerth gorau o dan Raglen Cymru ar gyfer Gwella;
- **d** goruchwylio ac awdurdodi taliadau o Gronfa Gyfunol Cymru a sicrhau bod taliadau arfaethedig o'r Gronfa yn cael eu gwneud yn unol â'r ddeddfwriaeth ac awdurdod y gyllideb.

**1.9** Gweledigaeth Swyddfa Archwilio Cymru yw 'Gwneud i Arian Cyhoeddus Gyfrif' a'i chenhadaeth yw "Hybu gwelliannau fel y gall pobl Cymru gael budd o wasanaethau cyhoeddus atebol sydd wedi'u rheoli'n dda ac sy'n cynnig y gwerth gorau posibl am arian". Caiff gwaith a wneir ar ran yr Archwilydd Cyffredinol ei lywodraethu gan ei God Ymarfer Archwilio ac Arolygu statudol[4]. Llywodraethir y Cod gan y syniad o archwiliad 'cydgysylltiedig' lle mae gwaith archwilio ariannol a gwaith archwilio perfformiad yn ddwy elfen ar wahân ond hefyd yn elfennau cytbwys ac ategol o fusnes Swyddfa Archwilio Cymru (**Ffigur 1**).

2 http://www.opsi.gov.uk/acts/acts2004/ukpga_20040023_en_1
3 http://www.legislation.gov.uk/acts/acts1998/ukpga_19980038_en_1
4 http://www.wao.gov.uk/assets/welshdocuments/Code_of_Audit_and_Inspection-_welsh.pdf

## Ffigur 1 – Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn defnyddio dull archwilio cydgysylltiedig




*Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru.*

## Ffigur 2 – Amcanion strategol Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer 2009-2012

1 Helpu cyrff cyhoeddus yng Nghymru i wella'r ffordd y maent yn defnyddio adnoddau o fewn cyfyngiadau cynyddol yr economi a'r amgylchedd.

2 Hyrwyddo cymariaethau gwell, data perfformiad clir, ac adroddiadau hygyrch i wneuthurwyr penderfyniadau a dinasyddion.

3 Hyrwyddo canlyniadau gwell i ddinasyddion drwy weithio ar draws ffiniau i wella'r ffordd y caiff gwasanaethau cyhoeddus eu cynllunio, eu darparu a'u hadolygu.

4 Cefnogi'r broses o ddiwygio'r GIG drwy roi sicrwydd, heriau a diagnosis amserol o safon uchel.

5 Cefnogi'r gwaith o roi strategaeth Llywodraeth y Cynulliad ar waith yn uniongyrchol a thrwy eraill.

6 Helpu i sicrhau bod y broses o weithredu'r Mesur Llywodraeth Leol arfaethedig yn arwain at wasanaethau a chydberthnasau gwell.

*Ffynhonnell: Strategaeth Swyddfa Archwilio Cymru 2009-2012, Effaith Barhaus mewn Adeg o Newid, Mai 2009.*

**1.10** Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn gweithredu drwy gyfrwng Strategaethau Corfforaethol tair blynedd. Teitl y strategaeth dair blynedd gyntaf (2006-2009) oedd 'Gwneud i Arian Cyhoeddus Gyfrif'[5]. Lansiodd Swyddfa Archwilio Cymru ei strategaeth dair blynedd nesaf, 'Effaith Barhaus mewn Adeg o Newid'[6] yn ei hail gynhadledd i randdeiliaid ar 20 Mai 2009 yn dilyn proses ymgynghori. Mae'r strategaeth yn cynnwys chwe phrif amcan ar gyfer 2009-2012 (**Ffigur 2**) ac yn llywio'r broses o lunio rhaglen Swyddfa Archwilio Cymru.

5 http://www.wao.gov.uk/assets/welshdocuments/Strategy_2006_cym.pdf
6 http://www.wao.gov.uk/assets/welshdocuments/WAO_strategy_cym.pdf



## Datblygu gwaith archwilio ac arolygu yng Nghymru yn y dyfodol

**1.11** Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn wynebu nifer o gyfleoedd a heriau yn yr amgylchedd strategol fydd yn effeithio arni dros y pum mlynedd nesaf. Yn benodol:

- **a** Bydd y nifer o gyrff y GIG y mae'n eu harchwilio yn lleihau'n sylweddol yn sgîl creu saith Bwrdd Iechyd newydd o'r 22 o Fyrddau Iechyd Lleol a'r 12 o Ymddiriedolaethau. Bydd y llwyth gwaith archwilio'n cynyddu i ddechrau ond wedyn mae'n debygol o ostwng yn sylweddol dros amser.

- **b** Mae Llywodraeth y Cynulliad yn newid y gyfundrefn i ategu gwelliant parhaus mewn llywodraeth leol. Bydd y 'Mesur Llywodraeth Leol'[7] yn newid rôl Swyddfa Archwilio Cymru. Mae Swyddfa Archwilio Cymru wedi gwneud llawer i ddatblygu methodoleg a dull gweithredu sy'n llawer mwy effeithiol o ran ategu gwelliant parhaus, herio perfformiad a rhoi arwyddion cynharach o ddiffygion gwasanaeth posibl i randdeiliaid allweddol. Fel rhan o'r Mesur ceir ffocws mwy cyfannol ar allu a hanes Cynghorau o wella, a bydd yn arwain at lunio adroddiad sy'n ystyried eu hanes o wella yn y gorffennol ac adroddiad arall sy'n archwilio eu gallu i wella yn y dyfodol.

- **c** Mae cyfleoedd i adeiladu ymhellach ar ddefnydd Swyddfa Archwilio Cymru o'i chyrhaeddiad trawsbynciol o fewn y gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru, sydd wedi arwain at gyflawni nifer o brosiectau trawsbynciol o ansawdd. Gallai newidiadau strwythurol yn y GIG ei gwneud yn haws canolbwyntio ar faterion o safbwynt y dinesydd a dilyn y bunt gyhoeddus hyd nes y gwelir canlyniadau.

**1.12** Yn ddiweddar, cynhaliodd Llywodraeth y Cynulliad ymgynghoriad ar ei Datganiad Polisi ar Archwilio, Arolygu a Rheoleiddio yng Nghymru[8] a oedd yn tynnu sylw at y saith egwyddor canlynol:

- **a** canolbwyntio ar y dinesydd;
- **b** hyrwyddo gwelliannau;
- **c** llywio polisi;
- **ch** cymesuredd;
- **d** cydgysylltu;
- **dd** gwneud y defnydd gorau o adnoddau;
- **e** gwell rheoleiddio.

**1.13** Mae'r Datganiad Polisi yn datgan disgwyliad cryf am weithgarwch adolygu allanol sydd wedi'i gydgysylltu'n well er mwyn gwella effaith a lleihau achosion o ddyblygu. Roedd y pryderon hyn yn nodwedd amlwg yn yr adborth a gafwyd gan randdeiliaid yn ystod cyfweliadau ar gyfer yr Adolygiad Cymheiriaid (**Pennod 5**).

**1.14** Yn ehangach, bydd yr argyfwng economaidd byd-eang hefyd yn effeithio ar y gwasanaeth cyhoeddus i gyd. Bydd y tuedd diweddar o gynyddu gwariant cyhoeddus yn newid hyd nes mai lleihau gwariant sy'n debygol o fod yn fwyaf cyffredin yn y tymor canolig. Bydd y pwysau hwn yn effeithio ar Swyddfa Archwilio Cymru fel a ganlyn:

- **a** rôl sylweddol o ran helpu cyrff yn y sector cyhoeddus yng Nghymru i nodi a chyflawni enillion effeithlonrwydd y gellir eu cyfnewid am arian parod;

- **b** pwysau ar ei hincwm ffioedd a'i harian arall – yn yr un modd â gweddill y sector cyhoeddus, bydd yn hanfodol bwysig gwneud mwy gan ddefnyddio llai o arian a dod o hyd i atebion

7 http://www.cynulliadcymru.org/bus-hone/bus-legislation/bus-leg-measures/business-legislation-measures-lg.htm
8 http://wales.gov.uk/docs//dpsp/consultation/081126inspectionauditwelsh.pdf

gwirioneddol arloesol i'r problemau cymhleth fydd yn codi dros y blynyddoedd i ddod;

**c** yr angen i arddangos gwerth ychwanegol ei gwaith a'i gost-effeithiolrwydd;

**ch** mwy o reidrwydd i gydweithio â chyrff adolygu allanol eraill i ddarparu gwell gwerth am arian a gwasanaethau mwy effeithiol.



# Pennod 2 – Y gwasanaethau a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru

**2.1** Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn darparu dau brif fath o wasanaeth o fewn y model archwilio cydgysylltiedig:

- **a** gwaith archwilio ariannol;
- **b** gwaith archwilio perfformiad, sy'n cynnwys astudiaethau lleol a gwaith arolygu ac archwilio perfformiad lleol.

**2.2** Mae'r adran hon o'r adroddiad yn ystyried y gwasanaethau a ddarperir gan yr elfennau canolog hyn o raglen Swyddfa Archwilio Cymru, ynghyd â rhai agweddau eraill ar y gwasanaethau a ddarperir:

- **a** cydweithio a chydgysylltu gwaith adolygu allanol gyda chyrff archwilio ac arolygu eraill;
- **b** arfer da a dysgu a rennir;
- **c** gwaith rhyngwladol;
- **ch** ardystio grantiau;
- **d** twyll a llywodraethu.

## Gwasanaethau archwilio ariannol

### Cefndir

**2.3** Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gyfrifol am archwilio £20 biliwn o wariant cyhoeddus bob blwyddyn gan Lywodraeth y Cynulliad, awdurdodau lleol, cyrff y GIG a nifer o gyrff cyhoeddus eraill yng Nghymru. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gyfrifol am 119 o brif archwiliadau ac am archwilio 750 o gynghorau tref a chymuned i gyd. Mae hefyd yn ardystio gwerth £2.7 biliwn o hawliadau grant bob blwyddyn.

**2.4** Yr Archwilydd Cyffredinol yw'r archwilydd ar gyfer llywodraeth ganolog a chyrff y GIG ac mae'n gyfrifol am benodi archwilwyr ar gyfer awdurdodau lleol. Arweinir pob archwiliad gan Bartner Ymgysylltu neu Archwilydd Penodedig. Yr Archwilydd Cyffredinol yw'r archwilydd ym maes iechyd a llywodraeth ganolog, a cheir Partner Ymgysylltu sy'n atebol iddo am yr archwiliad; o ran llywodraeth leol, mae'r Archwilydd Cyffredinol yn penodi Archwilydd Penodedig annibynnol sydd â chyfrifoldebau statudol penodol. Yn ddiweddar mae Swyddfa Archwilio Cymru wedi cwblhau cynllun peilot ar gyfer Archwilwyr Penodedig Unigol. Fel rhan o'r cynllun hwn roedd yr Archwilydd Cyffredinol yn penodi uwch aelod o staff Swyddfa Archwilio Cymru yn Archwilydd Penodedig Unigol mewn nifer o safleoedd, gyda Phartner Ymgysylltu yn adrodd iddo.

**2.5** Mae'r rhan fwyaf o'r Partneriaid Ymgysylltu a'r Archwilwyr Penodedig yn uwch aelodau o staff Swyddfa Archwilio Cymru, ond daw nifer ohonynt o gyflenwyr yn y sector preifat fel PricewaterhouseCoopers, Grant Thornton a KPMG sy'n gweithredu o dan gontractau fframwaith sy'n cwmpasu tua thraean o'r gwaith archwilio ariannol. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gyfrifol am reoleiddio'r farchnad ar gyfer archwilio cyhoeddus yng Nghymru ac mae ganddo ddiddordeb mewn cynnal marchnad gynaliadwy. Mae'r cymysgedd o ddarpariaeth fewnol a chwmnïau allanol yn galluogi'r Archwilydd Cyffredinol i gymharu ansawdd cyflenwyr mewnol ac allanol er mwyn cynnal safonau. Mae hefyd yn galluogi Swyddfa Archwilio Cymru i ddefnyddio gallu ac adnoddau'r prif gwmnïau archwilio a dysgu wrthynt. Mae'r farchnad gymysg hefyd yn rhoi hyblygrwydd i'r Archwilydd Cyffredinol wrth gyflawni gwaith ym mhob rhan o'i gyfundrefn. Yn ogystal â rhoi peth o'r prif waith archwilio i'r cwmnïau hyn o dan gontract, mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn rhoi'r gwaith o archwilio cynghorau tref a chymuned ar gontract i dri chwmni preifat llai o faint.

## Casgliadau

**2.6** Mae gwaith archwilio ariannol Swyddfa Archwilio Cymru, a wneir yn fewnol a chan ei chyflenwyr yn y sector preifat, yn gryfder gwirioneddol. Mae wedi cyflawni yn unol ag amserlenni cynyddol uchelgeisiol a safonau caeth heb effeithio ar ansawdd. Cynhelir archwiliadau ariannol yn unol â Safonau Archwilio Rhyngwladol a llunnir adroddiadau ar y canlyniadau o fewn yr amserlenni statudol. Ymddengys bod y staff archwilio ariannol yn alluog ac yn ymroddedig, a'u bod yn ymdopi'n dda gyda newidiadau i'r safonau archwilio rhyngwladol ac amserlenni statudol mwy llym.

**2.7** Y prif risg gyffredinol ar gyfer yr holl gyflenwyr gwasanaethau archwilio ariannol yw'r posibilrwydd o ddiffyg cysondeb o ran y math o ddyfarniadau archwilio a wneir. Mae'r cynllun peilot diweddar ar yr Archwilydd Penodedig Unigol yn awgrymu y gallai'r trefniant hwn oresgyn y broblem o ddiffyg cysondeb. Er nad oedd gan y cwmnïau bryderon am yr Archwilydd Penodedig Unigol mewn egwyddor, tynnwyd sylw at rai anawsterau penodol o ran rhoi'r trefniant ar waith.

**2.8** Mae'n debyg iawn y bydd lle i'r gyfundrefn monitro ansawdd ganolbwyntio mwy ar ansawdd dyfarniadau archwilio yn hytrach na'r broses. Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn defnyddio meddalwedd TeamMate™ i reoli ei harchwiliadau, sy'n helpu i sicrhau y dilynir y prosesau i gyd a'u bod yn destun camau sicrhau ansawdd. Gallai'r gyfundrefn monitro ansawdd annibynnol, sy'n cynnwys archwilwyr o Swyddfa Archwilio Cymru a'r cwmnïau, elwa o roi ffocws cryfach ar ansawdd dyfarniadau archwilio.

**2.9** Un pwynt trafod yw a oes gormod o waith archwilio yn mynd rhagddo mewn perthynas â'r GIG, a hynny'n bennaf o ganlyniad i natur gyfarwyddol y rheoliadau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y Cynulliad a llwyth y profion a maint y samplau sydd eu hangen. Gallai ad-drefnu'r GIG yng Nghymru fod yn gyfle i gynnig y dylid diwygio'r rheoliadau cymwys yn briodol.

**2.10** Gall fod lle i wneud rhai enillion effeithlonrwydd fel rhan o waith archwilio ariannol Swyddfa Archwilio Cymru. Gallai cael y sicrwydd mwyaf posibl o waith adolygu systemau blaenorol lle bo hynny'n briodol a herio cyllidebau amser arfaethedig fod o fudd mawr o safbwynt effeithlonrwydd.

**2.11** Mynegodd y rhanddeiliaid y siaradwyd â hwy bryder ynghylch ansawdd gwaith archwilio mewnol yng ngwasanaeth cyhoeddus Cymru. Dylai cymryd camau gweithredol i ddatblygu gwaith archwilio mewnol yn y gwasanaeth cyhoeddus fod yn amcan pwysig i Swyddfa Archwilio Cymru, a gallai hyn gynnwys cynnal astudiaeth genedlaethol o wasanaethau archwilio mewnol gyda'r nod o hyrwyddo gwelliant. Wrth i archwilwyr mewnol ddatblygu a gwella, dylai Swyddfa Archwilio Cymru allu dibynnu i raddau mwy ar eu gwaith er mwyn cael archwiliadau ariannol mwy effeithlon ac effeithiol.

**2.12** Mae gwaith archwilio TG yn adolygu ac yn llunio adroddiadau ar amrywiaeth o faterion sy'n ymwneud â TG er mwyn ategu barn yr archwilydd ariannol. Mae hyn yn sicrhau y cydymffurfir â'r safonau archwilio rhyngwladol ac yn sicrhau dealltwriaeth briodol o'r amgylchedd systemau ariannol, gan gynnwys profion manylach o'r rheolaethau sy'n gysylltiedig â systemau ariannol unigol. Mae Swyddfa Archwilio Cymru wedi profi problemau hirfaith o ran ansawdd a chwmpas gwaith archwilio TG. Gan adeiladu ar rai llwyddiannau diweddar, megis adolygiad mawr o systemau yng Ngogledd Iwerddon a gwaith i Gomisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru, mae'n rhaid



cymryd camau unioni i ddatrys y problemau sy'n parhau o fewn y tîm archwilio TG a gwella ansawdd ei waith. Mae angen sicrhau hefyd bod llwyth y gwaith archwilio TG a'r cyflenwad staff archwilio TG yn cyfateb yn well i'w gilydd.

**2.13** Mae arferion Archwilio Ariannol Swyddfa Archwilio Cymru yn haeddu cymeradwyaeth am eu hymdrechion i ymgorffori arfer da a rhannu dysgu. Mae wedi datblygu pecynnau adnoddau defnyddiol ar gyfer rheoli grantiau ac arian cynghorau cymuned. Dylai Swyddfa Archwilio Cymru hefyd ystyried llunio adroddiad blynyddol ar reolaeth a pherfformiad ariannol cyffredinol ym mhob rhan o lywodraeth leol.

**2.14** Caiff y broses o osod gwaith archwilio ar gontract ei rheoli'n dda ac nid oedd gan unrhyw un o'r tri phrif gyflenwr broblemau o ran y modd y caiff contractau eu gosod na'u rheoli. Mae archwiliad mewnol wedi cadarnhau y dilynwyd holl reolau'r Undeb Ewropeaidd yn y rownd ddiweddaraf o gontractau.

## Archwilio perfformiad

### Cefndir

**2.15** Mae gwaith archwilio perfformiad yn ystyried pa mor ddarbodus, effeithlon ac effeithiol mae cyrff yn y sector cyhoeddus yn defnyddio eu hadnoddau ac yn cyflawni'r canlyniadau a fwriedir ar gyfer dinasyddion. Mae dwy brif elfen i waith Swyddfa Archwilio Cymru ar berfformiad:

- **a** Astudiaethau cenedlaethol sydd, ar wahân i astudiaethau llywodraeth leol, yn arwain yr Archwilydd Cyffredinol i gyflwyno adroddiad cyhoeddus gerbron y Cynulliad Cenedlaethol, i'w ystyried gan ei Bwyllgor Archwilio fel arfer – mae'n cyhoeddi tua 12 adroddiad o'r fath yn ystod blwyddyn gyffredin. Mae'r adroddiadau hyn yn deillio o brosiectau sydd wedi'u teilwra'n arbennig, neu'n crynhoi canfyddiadau gwaith lleol ym maes iechyd neu lywodraeth leol.

- **b** Gwaith archwilio ac arolygu perfformiad lleol a oedd gynt yn cynnwys prosiectau lleol bach i raddau helaeth, i ategu'r broses o archwilio cyfrifon sefydliad. Mae gwaith archwilio ac arolygu perfformiad mewn llywodraeth leol wedi bod yn rhan o Raglen Cymru ar gyfer Gwella ond bydd yn newid yn sylfaenol yn sgîl datblygu methodolegau newydd i ategu Mesur Llywodraeth Leol Llywodraeth y Cynulliad. Bydd y methodolegau newydd hyn yn arwain at lawer llai o brosiectau unigol, gan ganolbwyntio yn hytrach ar lunio asesiad cyffredinol o welliant ar gyfer pob awdurdod lleol, sy'n cynnwys Asesiad Corfforaethol sy'n edrych i'r dyfodol ac Asesiad Perfformiad sy'n edrych yn ôl.

**2.16** Caiff pob prosiect archwilio perfformiad cenedlaethol ei arwain gan Bartner Ymgysylltu sy'n atebol i'r Archwilydd Cyffredinol, gyda chymorth Rheolwr Prosiect. Daw aelodau timau'r prosiectau o bob rhan o fatrics Swyddfa Archwilio Cymru, a hynny fel arfer, ond nid bob amser, drwy broses mynegi diddordeb. Yn y GIG mae un Partner Ymgysylltu yn gyfrifol am yr holl waith archwilio perfformiad lleol; mewn llywodraeth leol, mae tri Phartner Ymgysylltu yn cwmpasu'r 22 o awdurdodau lleol, a cheir Partner a enwyd ar gyfer pob un ohonynt. Mae gan awdurdodau lleol Reolwr Cydberthynas hefyd sy'n gyfrifol am gydgysylltu holl weithgarwch rheoleiddio'r Cyngor hwnnw. Ceir Rheolwr Prosiect Perfformiad ar gyfer pob ardal bwrdd iechyd yn y GIG. Mewn llywodraeth leol, mae Swyddfa Archwilio Cymru wrthi'n datblygu trefniadau newydd yng ngoleuni'r Mesur Llywodraeth Leol, a bydd Arweinwyr Asesu Gwelliant a Chydgysylltwyr Asesu Gwelliant yn disodli'r Rheolwr Prosiect Perfformiad a'r Rheolwr Cydberthynas ymhob awdurdod.

**2.17** Mae gwaith archwilio perfformiad yn amodol ar Lawlyfr Cynnal Archwiliad o Berfformiad Swyddfa Archwilio Cymru. Cyflwynodd yr Archwilydd Cyffredinol ei ddull unigryw o Ddadansoddi Materion a Llunio Casgliadau i waith archwilio perfformiad. Rhoddwyd y dull hwn ar waith yn llwyddiannus ac mae wedi'i gydnabod yng Nghymru a thu hwnt, ac mae Swyddfa Archwilio Cymru yn rhoi hyfforddiant i gydweithwyr yn Llys Archwilio Ewrop a Malta ar y dull.

## Casgliadau

**2.18** Mae adroddiadau'r astudiaethau cenedlaethol o ansawdd uchel yn gyson ac wedi adlewyrchu'n dda ar Swyddfa Archwilio Cymru, a chafwyd adborth cadarnhaol yn gyson gan y rhan fwyaf o'r rhanddeiliaid. Mae'n destun clod mawr hefyd bod uwch randdeiliaid o sefydliadau yr oedd yna bryderon difrifol ynghylch eu perfformiad, a arweiniodd at gamau craffu gan Swyddfa Archwilio Cymru, wedi rhoi adborth cadarnhaol am y modd y cynhelir prosiectau sensitif ac uchel eu proffil o'r fath a'u heffaith.

**2.19** Fodd bynnag, mae ansawdd adroddiadau archwilio ac arolygu perfformiad lleol yn fwy amrywiol fel y dangosir gan systemau adborth cleientiaid Swyddfa Archwilio Cymru ei hun, a nododd lefelau is o foddhad â gwaith archwilio perfformiad o gymharu â gwaith Archwilio Ariannol. Mae Swyddfa Archwilio Cymru wedi cydnabod hyn, ac arweiniodd at gynnal proses adolygu oer helaeth o dan arweiniad personol yr Archwilydd Cyffredinol. Mae pryderon am ansawdd yr adroddiadau lleol wedi arwain at gyflwyno gwasanaeth golygu a system sgrinio ar gyfer pob adroddiad amlinellol a drafft, ac mae'r canlyniadau cychwynnol yn galonogol. Ar ôl i'r Mesur Llywodraeth Leol gael ei roi ar waith yn ddiweddarach eleni, ni fydd y gyfundrefn ar gyfer archwilio perfformiad lleol bellach yn cynnwys nifer fawr o brosiectau archwilio perfformiad lleol bach a bydd arolygiadau rheolaidd gan Swyddfa Archwilio Cymru yn diflannu'n llwyr.

**2.20** Datgelodd ein trafodaethau â rhanddeiliaid nifer o gyfleoedd allweddol i Swyddfa Archwilio Cymru adeiladu ar gryfderau ei gwaith rheoli perfformiad i helpu gwasanaeth cyhoeddus Cymru i wynebu'r heriau sydd o'i flaen. Yn benodol:

**a** Ystyrir bod amrywioldeb ar draws gwasanaethau cyhoeddus Cymru yn broblem allweddol gan randdeiliaid, yn enwedig ymhlith Gweinidogion ac uwch swyddogion yn Llywodraeth y Cynulliad. Ymddengys bod consensws cynyddol yn datblygu o blaid yr angen i feincnodi er mwyn nodi a llunio adroddiadau cyhoeddus ar lefelau perfformiad amrywiol, a chrisialir hyn yn y Mesur Llywodraeth Leol sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ddefnyddio data perfformiad i gymharu eu perfformiad a rhoi cyfrif i ddinasyddion a chymunedau ynghylch y lefelau gwasanaeth a ddarperir ganddynt.

**b** Mae angen amlwg i raglen o archwiliadau perfformiad Swyddfa Archwilio Cymru gynnwys astudiaethau sy'n archwilio'r ffactorau ehangach sy'n ysgogi perfformiad, achosion amrywiadau mewn perfformiad a chostau. Dylai hefyd gynnwys gwaith effeithlonrwydd mwy trylwyr. Mae lle amlwg i gysylltu'r ffocws hwn ar effeithlonrwydd a pherfformiad amrywiol gyda'r Gyfnewidfa Arfer Da, y gellid ei datblygu ymhellach i helpu i rannu a chymhwyso arfer da yn fwy effeithiol er mwyn lleihau'r amrywiadau amlwg ym mherfformiad gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.



**c** Wrth feincnodi perfformiad, cost ac arfer gorau, mae angen rhoi ystyriaeth fwy cyson i'r sefyllfa y tu allan i Gymru oherwydd gallai pennu meincnodau yng Nghymru yn unig guddio perfformiad cymharol wael yng Nghymru ac mae perygl na fanteisir ar arfer arloesol mewn mannau eraill.

**ch** Er bod rhanddeiliaid wedi canmol Swyddfa Archwilio Cymru am y gwaith a wna ar ôl i ddiffygion gwasanaeth gael eu nodi, er enghraifft, ei gwaith ar wasanaethau ambiwlans ac arolygiadau o lywodraethu corfforaethol mewn awdurdodau lleol penodol, roedd awydd, yn enwedig ymhlith Gweinidogion, i Swyddfa Archwilio Cymru a chyrff adolygu allanol eraill geisio nodi diffygion gwasanaeth posibl yn gynt.

**d** Y cyfle i wneud gwaith mwy trawsbynciol sy'n defnyddio gallu Swyddfa Archwilio Cymru i gyrraedd gwasanaeth cyhoeddus Cymru i gyd, yn hytrach na gwaith sy'n canolbwyntio ar raglenni neu sefydliadau penodol. Dylai datblygu gwaith sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau o safbwynt y dinesydd helpu i gefnogi'r modelau newydd ar gyfer darparu gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, megis Byrddau Gwasanaethau Lleol, a'r hyn a elwid yn llywodraeth 'gwlad fach'.

**2.21** Mae'r rhaglen archwilio perfformiad yn fwy cymhleth i'w rheoli na'r rhaglen archwilio ariannol, gan fod llawer mwy o hyblygrwydd ac ansicrwydd ynghlwm wrthi. Mae'r rhaglen yn ddigon hyblyg i fodloni dymuniadau cleientiaid o ran amseriad y gwaith a gallai gael ei rheoli'n well i sicrhau y gwneir y gwaith ar amser. Mae'r cymhlethdod hwn wedi arwain at heriau sylweddol o ran cyflawni'r rhaglen, a chymysg yw'r llwyddiant o ran ei chyflawni ar hyn o bryd. Mae staff archwilio perfformiad yn gyson yn treulio llai o amser y gellir codi tâl amdano ar waith archwilio na'u cydweithwyr yn y tîm archwilio ariannol, a gall hyn hefyd adlewyrchu problemau o ran digonolrwydd y cyllidebau archwilio perfformiad. Mae Swyddfa Archwilio Cymru wrthi'n mireinio ei system cofnodi amser fel y gellir monitro prosiectau archwilio perfformiad yn fwy effeithiol yn erbyn amserlenni a gynlluniwyd.

**2.22** Ceir problemau hefyd o ran amrywiadau yn amseroldeb rhai astudiaethau – mae rhai wedi cael eu cyflawni'n gyflym, ond mae eraill wedi cymryd llawer mwy o amser i'w cyflawni nag y dylent. Mae cydberthynas real a phwysig rhwng amseroldeb ac effaith, er hynny mae angen i adroddiadau fod yn gywir ac o ansawdd uchel. Awgryma adborth gan randdeiliad bod enw da Swyddfa Archwilio Cymru mewn perygl difrifol os nad eir i'r afael ag amseroldeb. Gan ddefnyddio'r data a ddylai ddod ar gael drwy'r trefniadau monitro newydd, dylai Swyddfa Archwilio Cymru adolygu ei phrosesau a nodi arfer da wrth gyflawni astudiaethau mwy amserol. Mae'r protocol ar gadarnhau cywirdeb ffeithiol adroddiadau, y cytunwyd arno'n gynharach eleni â Llywodraeth y Cynulliad, wedi dangos nad oes angen i'r cam hwn mewn astudiaethau arwain at oedi diangen o ran eu gorffen mwyach.

**2.23** Er i ni weld bod trefniadau sicrhau ansawdd mewnol cadarn ar waith ar gyfer astudiaethau, ni wneir unrhyw waith adolygu ansawdd allanol. Dylid cyflwyno system o ôl-adolygu ansawdd adroddiadau archwilio perfformiad, a hynny o bosibl drwy drefniant cyfatebol â swyddfa archwilio genedlaethol arall. Yn yr un modd, mae angen datblygu mecanweithiau i asesu effaith gwaith Swyddfa Archwilio Cymru yn gyffredinol ac ym maes archwilio perfformiad yn benodol.

2.24 Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn ymgynghori'n eang gydag uwch swyddogion yn Llywodraeth y Cynulliad a rhanddeiliaid eraill ar ei rhaglen astudiaethau, y mae'n ei chyflwyno i Bwyllgor Archwilio'r Cynulliad Cenedlaethol bob blwyddyn. Mae'r rhaglen yn hyblyg, a chaiff ei rhoi ar waith ar ffurf rhaglen dreigl. Mae iechyd yn cyfrif am gyfran fawr o gyllideb Llywodraeth y Cynulliad sy'n golygu y rhoddir sylw helaeth i iechyd yn rhaglen Swyddfa Archwilio Cymru. Serch hynny, o dan yr amgylchiadau economaidd presennol, mae'n bwysig bod astudiaethau sy'n ymwneud ag effeithlonrwydd ymhob rhan o'r gwasanaeth cyhoeddus a materion economaidd ehangach, megis creu swyddi, cynnal swyddi a mentrau eraill a gynlluniwyd i leihau effaith y dirwasgiad, yn cael mwy o sylw yn y rhaglen. Mae penodiad y Cyfarwyddwyr Cyffredinol newydd yn Llywodraeth y Cynulliad yn rhoi cyfle i Swyddfa Archwilio Cymru ymgynghori'n fwy strategol ar astudiaethau posibl a chysylltiadau trawsbynciol.

## Elfennau eraill y gwasanaethau a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru

### Cydweithio a chydgysylltu gwaith adolygu allanol


2.25 Mae'n hollbwysig cydweithio ag asiantaethau arolygu eraill er mwyn sicrhau y darperir gwasanaethau archwilio ac arolygu cymesur sy'n gwella perfformiad a'r defnydd a wneir o adnoddau ym maes iechyd, addysg a gofal cymdeithasol. Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn datblygu mecanweithiau i gydgysylltu gwaith yn effeithiol gydag AGIC, Estyn ac AGGCC er mwyn lleihau'r risg o orgyffwrdd a dyblygu. Gan adeiladu ar y cynnydd a wnaed yn ystod y 18 mis diwethaf drwy'r Fforwm Penaethiaid Arolygiaethau, mae'r Mesur Llywodraeth Leol yn cynnig cyfle sylweddol i wella gwaith cydgysylltu, yn enwedig drwy gysoni prosesau cynllunio busnes. Ni ddylai cydgysylltu mwy effeithiol rwystro Swyddfa Archwilio Cymru rhag llunio adroddiadau ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yr asiantaethau arolygu hynny wrth iddynt gyflawni eu swyddogaethau.

### Arfer Da a Rhannu Dysgu

2.26 Dangosodd ein cyfweliadau â rhanddeiliaid allanol fod rhannu arfer da sy'n digwydd yng Nghymru a thu hwnt yn flaenoriaeth allweddol, gydag ymdeimlad cyffredin nad yw'r gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru wedi rhannu arfer da yn effeithiol o ganlyniad i blwyfoldeb ac amharodrwydd i fabwysiadu unrhyw beth 'na ddyfeisiwyd yma'. Yn sgîl y pwysau ariannol presennol, mae'n debyg y bydd gofyn i wasanaethau cyhoeddus arloesi a dod o hyd i ffyrdd o addasu arfer da yn gyflym er mwyn sicrhau gwell canlyniadau gan leihau costau ar yr un pryd. Golyga hyn fod trosglwyddo arfer da yn effeithiol yn flaenoriaeth i'r sector cyhoeddus.

2.27 Gan gydnabod y cyfleoedd a'r heriau hyn, canolbwyntiodd strategaeth gyntaf Swyddfa Archwilio Cymru'n drwm ar arfer da, ac mae'n arwain y farchnad o ran arfer da a rhannu dysgu ym maes archwilio cyhoeddus. Mae wedi mabwysiadu dull gweithredu unigryw mewn perthynas ag arfer da a rhannu dysgu sy'n ateb ei chylch gwaith a'i chwmpas yn effeithiol. Buddsoddwyd yn sylweddol mewn datblygu Cyfnewidfa Arfer Da ar y we a chynhyrchion arfer da cysylltiedig. Dengys **Ffigur 3** ddull gweithredu Swyddfa Archwilio Cymru mewn perthynas ag arfer da, sy'n cyfuno dros 250 o astudiaethau achos ar y we, pecynnau adnoddau a chanllawiau hunanasesu, digwyddiadau rhannu dysgu a chymorth wedi'i hwyluso. Ers

**Ffigur 3 – Dull gweithredu Swyddfa Archwilio Cymru mewn perthynas ag Arfer Da a Rhannu Dysgu**




*Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru.*

hydref 2007, mae Swyddfa Archwilio Cymru wedi cynnal nifer o seminarau rhannu dysgu arloesol sydd wedi denu dros 350 o Arweinwyr Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a llunwyr penderfyniadau allweddol. Mae chwech y cant o ymwelwyr â gwefan Swyddfa Archwilio Cymru yn ymweld â gwefan y Gyfnewidfa Arfer Da ac mae hyn yn cymharu'n ffafriol â'r ystadegau cyfatebol ar gyfer adroddiadau cenedlaethol.

**2.28** Mae staff Swyddfa Archwilio Cymru wedi trafod arfer da mewn dros 25 o seminarau a digwyddiadau eraill. Maent yn parhau i gael ceisiadau i siarad ar y pwnc naill ai drwy'r ffrwd waith arfer da neu fel rhan o brosiectau prif ffrwd, megis oedi wrth drosglwyddo gofal a rheoli fflyd. Yn ddiweddar enillodd Swyddfa Archwilio Cymru Wobr Cliff Nicholson am arloesedd a rhagoriaeth ym maes archwilio

cyhoeddus gan y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth am ei gwaith ar reoli fflyd cerbydau. Roedd y prosiect hwn wedi cynnwys gwaith archwilio manwl ymhob rhan o'r sector cyhoeddus yng Nghymru, adroddiadau i gyrff lleol, brîff cenedlaethol, arweiniad arfer da ar-lein ar reoli fflyd a oedd yn cynnwys astudiaethau achos, cyfeirlyfr A-Z, adnoddau hunanasesu a chanllawiau eraill, a chynhadledd fawr i rannu arfer da a dysgu.

**2.29** Mae Swyddfa Archwilio Cymru wedi ymgymryd â gwaith arfer da thematig yn y meysydd canlynol:

- **a** rheoli absenoldeb oherwydd salwch;
- **b** iechyd galwedigaethol;
- **c** ffyrdd callach o weithio;
- **ch** rheoli grantiau;
- **d** arian cynghorau cymuned;
- **dd** rheoli asedau ( rheoli fflyd ac adeiladau).

**2.30** Daethom i'r casgliad bod y Gyfnewidfa Arfer Da wedi bod yn fenter ardderchog y mae nawr angen ei datblygu ymhellach. Yr heriau uniongyrchol yw:

- **a** integreiddio Arfer Da a Rhannu Dysgu yn fwy effeithiol yng ngwaith prif ffrwd Swyddfa Archwilio Cymru er mwyn ymestyn a dyfnhau ei heffaith, gan gadw uwch hyrwyddwr mewnol;
- **b** datblygu ymhellach ei gwaith parhaus i gydgysylltu datblygiad y Porth Arfer Da ar y cyd â chyrff allweddol eraill yng ngwasanaeth cyhoeddus Cymru;
- **c** nodi dulliau ehangach i fesur effaith ac effeithiolrwydd y Gyfnewidfa Arfer Da;
- **ch** datblygu trefniadau cynaliadwy i ariannu'r Gyfnewidfa Arfer Da er mwyn sicrhau bod trefniadau effeithiol ar waith i ymestyn gwefan y Gyfnewidfa Arfer Da a sicrhau ei bod yn cynnwys y wybodaeth ddiweddaraf.

## Ardystio grantiau

**2.31** Mae gwaith ardystio grantiau yn ffynhonnell bwysig o refeniw i Swyddfa Archwilio Cymru, a disgwylir cael incwm ffioedd o £3 miliwn yn sgîl ardystio gwerth £2.7 biliwn o arian grant yn 2009-10. Mae llwyth y gwaith ardystio grantiau yn deillio o'r gorffennol yn rhannol; roedd yn ofynnol i'r Comisiwn Archwilio yng Nghymru gynnal archwiliadau o hawliadau grantiau. Mae'r llwyth gwaith wedi tyfu ers datganoli am fod Llywodraeth y Cynulliad yn defnyddio grantiau'n helaeth ac yn aml yn ei gwneud yn ofynnol i hawliadau gael eu hardystio gan archwilydd allanol. Caiff grantiau gan y Comisiwn Ewropeaidd eu hardystio hefyd, ac mae'r rhain yn sylweddol am fod Cymru'n gymwys i gael arian o Gronfeydd Strwythurol yr Undeb Ewropeaidd.

**2.32** Mae Swyddfa Archwilio Cymru wedi cael cyngor cyfreithiol sy'n awgrymu na all bennu lefel de minimis ar gyfer ardystio hawliadau. Ymddengys bod lefel y gwaith ardystio hawliadau grantiau a wneir gan Swyddfa Archwilio Cymru yn gymharol uchel. Mae hwn yn opsiwn drud i'r gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru, ac mae maint cyfraniad y gwaith hwn i incwm Swyddfa Archwilio Cymru yn risg bosibl i'w hannibyniaeth os na fydd yn parhau i'w reoli'n ofalus.

**2.33** Mae Swyddfa Archwilio Cymru wedi ceisio gwella ansawdd yr hawliadau grantiau a gyflwynir drwy gyfrwng gweithdai, seminarau a hyfforddiant, gan gynnwys y Gyfnewidfa Arfer Da, ond mae'r trosiant uchel ymhlith staff sy'n paratoi hawliadau mewn cyrff archwiliedig wedi golygu



ei bod yn anodd cael effaith gynaliadwy a meithrin gallu. Gall fod cyfle i Swyddfa Archwilio Cymru ddatblygu dull ar y cyd â Llywodraeth y Cynulliad i leihau'r gwaith ardystio sydd ei angen a gwella'r modd y gweinyddir yr hawliadau grantiau sy'n weddill. Hyd nes y gwneir unrhyw newid, gall fod lle o fewn y gyfundrefn bresennol i fabwysiadu dull gweithredu llai cyfarwyddol a allai arwain at fwy o ddarbodusrwydd ac effeithlonrwydd wrth i'r gweithgarwch hwn gael ei drosglwyddo'n raddol i'r tîm archwilio mewnol wrth i ansawdd y gwasanaeth hwn wella.

## Twyll a llywodraethu

**2.34** Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn cymryd rhan ym Menter Twyll Genedlaethol y Comisiwn Archwilio a ddechreuodd yn 1996, ac sydd bellach yn cael ei gweithredu bob dwy flynedd. Ymarfer cydweddu data yw'r Fenter Twyll Genedlaethol sy'n helpu i ganfod taliadau twyllodrus a gwallus o bwrs y wlad ledled y DU. Ers 1996 canfuwyd dros £11.5 miliwn o daliadau twyllodrus a gwallus yng Nghymru, yn cynnwys budd-dal tai, pensiwn a thaliadau benthyciadau myfyrwyr. Yn 2006-07, canfu'r Fenter Twyll Genedlaethol werth £4.5 miliwn o daliadau twyllodrus a gwallus yng Nghymru a arweiniodd at 26 o erlyniadau llwyddiannus. Mae bron 70 o sefydliadau yn y sector cyhoeddus yng Nghymru'n cymryd rhan yn y fenter. Ers creu Swyddfa Archwilio Cymru, mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi cyflwyno dau adroddiad gerbron y Cynulliad Cenedlaethol yn crynhoi prif ganfyddiadau'r Fenter Twyll Genedlaethol yng Nghymru.

**2.35** Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn gwneud amrywiaeth eang o waith llywodraethu arall, ac mae wrthi'n cynnal astudiaeth o brosesau llywodraethu mewn llywodraeth leol gan ddefnyddio diagnostig a ddatblygwyd gan y Comisiwn Archwilio.

## Gwaith rhyngwladol

**2.36** Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn gwneud amrywiaeth o waith â thâl y tu allan i Gymru. Er mai elfen gymharol fach o'i gwaith yw hon, mae gan Swyddfa Archwilio Cymru hanes da o ddenu gwaith sy'n ei helpu i ddatblygu ei heffaith, ei hadnoddau a'i gallu, ei henw da a'i staff. Mae trefniadau cadarn ar waith i reoli'r broses o gyflwyno tendrau ac mae gwaith yn mynd rhagddo i ddatblygu strategaeth ar gyfer gwaith rhyngwladol.

**2.37** Ymhlith yr enghreifftiau o brosiectau a gynhaliwyd dramor hyd yma mae:

- **a** cynnal cyfres o ddigwyddiadau hyfforddi ar ddull Swyddfa Archwilio Cymru o Ddadansoddi Materion a Llunio Casgliadau yn Llys Archwilio Ewrop, gan gynnwys digwyddiadau ar gyfer Aelodau'r Llys;
- **b** cynnal digwyddiad tebyg ar gyfer Swyddfa Archwilio Genedlaethol Malta;
- **c** cyfraniad hirsefydlog i brosiect gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol i feithrin gallu yng Ngwasanaeth Archwilio Ghana, gyda mewnbwn sylweddol gan arbenigwyr perfformiad ac adnoddau dynol Swyddfa Archwilio Cymru;
- **ch** comisiwn gan bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Taleithiau Guernsey i gynnal nifer o astudiaethau gwerth am arian ac astudiaethau eraill.

# Pennod 3 – Llywodraethu, atebolrwydd a chyfundrefn ehangach yr Archwilydd Cyffredinol

**3.1** Mae'r sgandal ddiweddaraf dros dreuliau ASau wedi codi proffil y mater o ymddiriedaeth mewn gwasanaethau cyhoeddus. O ganlyniad, mae'r hinsawdd wedi newid yn sylweddol ar gyfer pob corff cyhoeddus. Mae gan gyrff archwilio cyhoeddus rôl ddeuol sylweddol i'w chwarae yn y cyd-destun hwn, sef dwyn cyrff cyhoeddus i gyfrif ynghylch eu defnydd o adnoddau, a dwyn eu hunain i gyfrif i ddangos y safonau atebolrwydd uchaf posibl. Annibyniaeth yw cryfder canolog gwaith archwilio cyhoeddus ac mae'n hollbwysig i waith archwilio cyhoeddus effeithiol. Mae angen cydbwyso'r annibyniaeth hon ag atebolrwydd dros ddefnyddio adnoddau cyhoeddus.

**3.2** Fel Swyddog Cyfrifyddu Swyddfa Archwilio Cymru, mae'r Archwilydd Cyffredinol yn atebol i'r Cynulliad Cenedlaethol, ac yn y pen draw i'r Senedd, am ei ddefnydd o adnoddau. I'w gynorthwyo yn ei rôl fel Swyddog Cyfrifyddu, mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi sefydlu Pwyllgor Archwilio ac Asesu Risg sy'n cynnwys tri aelod annibynnol i gynghori ar faterion sy'n ymwneud ag archwilio, risg a llywodraethu yn Swyddfa Archwilio Cymru. Mae'r Archwilydd Cyffredinol wrthi'n ehangu aelodaeth y Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg, ac mae wedi ymestyn ei gylch gorchwyl. Mae gan y Partner Cydymffurfiaeth, y Pennaeth Archwilio Mewnol a Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg y pŵer i roi gwybod yn uniongyrchol i Gadeirydd Pwyllgor Archwilio'r Cynulliad Cenedlaethol am faterion sy'n gysylltiedig ag ymddygiad yr Archwilydd Cyffredinol.

**3.3** Mae Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg yn gwirio ansawdd a gweithrediad trefniadau llywodraethu yn Swyddfa Archwilio Cymru yn ffurfiol, yn arbennig o ran materion sy'n ymwneud â risg a rheoli a chynnal busnes mewn ffordd effeithlon, effeithiol a darbodus, gan gynnwys:

- **a** adolygu'r cyfrifon blynyddol drafft a chynghori ar unrhyw ddiwygiadau neu welliannau cyn eu cyflwyno i'r Archwilydd Cyffredinol i'w cymeradwyo'n derfynol a'u llofnodi;
- **b** adolygu a chraffu ar y canlynol:
  - **i** polisïau, arferion a phrosesau ariannol a chyfrifyddu;
  - **ii** systemau rheoli mewnol gan gynnwys adolygu a rhoi cyngor ar gynlluniau gwaith archwilio mewnol;
  - **iii** adroddiadau archwilio mewnol a digonolrwydd ymatebion rheoli;
  - **iv** adroddiad blynyddol y Pennaeth Archwilio Mewnol;
  - **v** rhoi argymhellion archwilio ar waith yn barhaus;
  - **vi** gwaith asesu a gwaith rheoli risg y Pwyllgor Rheoli gan gynnwys adolygiad chwarterol ffurfiol o risgiau corfforaethol;
  - **vii** canlyniadau'r archwiliad allanol gan gynnwys y llythyr rheoli a'r ymateb gan reolwyr.

**3.4** Mae'r Pwyllgor hefyd yn rhoi cyngor ar gais, neu os yw'n teimlo ei fod yn briodol gan ddarparu cyngor allanol na fyddai'r Archwilydd Cyffredinol yn gallu cael gafael arno fel arall.

**3.5** O ran goruchwylio'r Archwilydd Cyffredinol yn bersonol, mae Pwyllgor Archwilio'r Cynulliad Cenedlaethol wedi amlinellu ei ddisgwyliadau o ran sut y bydd yn rhedeg Swyddfa Archwilio Cymru ac fel rhan o'r estyniad diweddar i'w benodiad mae'r Cynulliad Cenedlaethol wedi cadarnhau'r trefniadau ar gyfer materion megis absenoldeb, treuliau a derbyn penodiadau allanol.



**3.6** Er na cheir awgrym bod y trefniadau a ddisgrifir uchod yn aneffeithiol, ar adeg pan fo atebolrwydd swyddogion cyhoeddus yn hawlio lle mor uchel ar yr agenda wleidyddol, credwn fod lle i wella a chryfhau prosesau llywodraethu ac atebolrwydd yn Swyddfa Archwilio Cymru heb gyfyngu ar annibyniaeth yr Archwilydd Cyffredinol o ran barn a dyfarniadau archwilio. Mae rhanddeiliaid allweddol yng ngwasanaeth cyhoeddus Cymru yn arddel barn debyg a gwnaethant ofyn yn gyson 'pwy sy'n gwarchod y gwarcheidwaid?' Yn ystod trafodaethau â ni, roedd yn amlwg bod yr Archwilydd Cyffredinol yn deall ac yn parchu'r farn hon. Dangosodd ei barodrwydd i sefydlu trefniadau llywodraethu diwygiedig ar gyfer Swyddfa Archwilio Cymru heb amharu ar ei allu i archwilio pa bynciau bynnag o'i ddewis na gwneud dyfarniadau annibynnol arnynt yn rhydd rhag ymyrraeth wleidyddol.

**3.7** Mae **Atodiad 4** yn nodi'r trefniadau llywodraethu sydd ar waith mewn nifer o sefydliadau archwilio ac arolygu eraill. Dengys fod amrywiaeth o drefniadau ar waith, y mae nifer ohonynt yn gydnaws â threfniadau llywodraethu presennol Swyddfa Archwilio Cymru.

**3.8** Yn dilyn Adolygiad Tiner[9], mae prosesau llywodraethu Swyddfa Archwilio Genedlaethol y DU yn newid yn sylweddol ar hyn o bryd. Cyflwynwyd deddfwriaeth gerbron y Senedd i wneud y Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn gorff corfforaethol sydd â Bwrdd; cyn i'r ddeddfwriaeth ddod i rym, mae'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol wedi penderfynu mabwysiadu'r model llywodraethu newydd o'i gwirfodd. Ni chredwn y byddai efelychu'r trefniadau hyn yn briodol yng Nghymru. Mae creu strwythurau corfforaethol o gwmpas Archwilydd Cyffredinol sy'n gorfforaeth undyn yn esgor ar risgiau. Gallai penodi Cadeirydd annibynnol beri dryswch ynghylch atebolrwydd yr Archwilydd Cyffredinol fel corfforaeth undyn sy'n atebol i'r Cynulliad Cenedlaethol. Sefydlwyd y trefniadau newydd yn Lloegr o dan amgylchiadau arbennig ac nid yw'r un ffactorau yn berthnasol yng Nghymru. Mae nifer o faterion eraill a ddylanwadodd ar newidiadau diweddar i brosesau llywodraethu Swyddfa Archwilio Genedlaethol y DU bellach wedi cael eu datrys yn sgîl ailbenodiad diweddar yr Archwilydd Cyffredinol hyd 2013; mae'r rhain yn cynnwys pennu uchafswm ffurfiol ar gyfer cyfnod yr Archwilydd Cyffredinol yn ei swydd, sicrhau bod ei dreuliau'n cael eu goruchwylio'n drylwyr drwy'r Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg a chyfyngu ar gydnabyddiaethau eraill tra'i fod yn y swydd.

**3.9** Rydym wedi nodi dau brif opsiwn a fyddai, yn ein barn ni, yn cryfhau prosesau llywodraethu Swyddfa Archwilio Cymru heb beryglu annibyniaeth yr Archwilydd Cyffredinol, ac yn cyd-fynd â'r cyd-destun Cymreig. Dylai'r Archwilydd Cyffredinol ystyried a thrafod yr opsiynau hyn â Phwyllgor Archwilio'r Cynulliad Cenedlaethol, ac ystyried eu goblygiadau o ran gweithrediad y Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg presennol. Yn y pen draw, mae unrhyw newidiadau mewn prosesau llywodraethu yn benderfyniad cymhleth sy'n galw am gydbwysedd synhwyrol rhwng annibyniaeth a disgwyliadau cynyddol ymhlith y cyhoedd mewn perthynas â phob corff cyhoeddus o ran llywodraethu corfforaethol ac atebolrwydd. Byddai angen ystyried y goblygiadau ariannol hefyd. Mae'r ddau opsiwn fel a ganlyn:

**a** Penodi aelodau anweithredol drwy brosesau penodi cyhoeddus ac agored i Fwrdd Llywodraethu, y byddai'r Archwilydd Cyffredinol yn gadeirydd arno, ac a fyddai'n cynnwys aelodau o'r Pwyllgor Gweithredol newydd. Ni ddylai cylch gorchwyl y Bwrdd Llywodraethu gynnwys dyfarniadau archwilio

9 http://www.parliament.uk/documents/upload/pac-nao-governance-080206.pdf

na'r broses o gynnal y gwaith archwilio, ond dylai gynnwys gwaith cynllunio strategol a busnes a gwaith monitro perfformiad yn erbyn y cynlluniau hynny, gan gynnwys cynhyrchiant ac effeithlonrwydd Swyddfa Archwilio Cymru.

**b** Sefydlu Bwrdd Cynghori i helpu'r Archwilydd Cyffredinol i ddatblygu strategaethau a rhaglenni gwaith. Yn wahanol i'r Bwrdd Llywodraethu, byddai'r Bwrdd Cynghori yn canolbwyntio ar faterion allanol, gan ddarparu fforwm i drafodaeth ddwyffordd reolaidd rhwng yr Archwilydd Cyffredinol a grŵp o randdeiliaid allanol allweddol am ei strategaeth a'i raglen waith. Byddai'r Bwrdd Cynghori hefyd yn cael budd o gyfraniad gan arbenigwyr perthnasol o'r tu allan i Gymru a/neu aelod o Gymru nad yw'n un o brif gleientiaid neu randdeiliaid Swyddfa Archwilio Cymru. Diben y Bwrdd Cynghori fyddai cynghori'r Archwilydd Cyffredinol ond ni fyddai ganddo unrhyw bwerau dros strategaeth na rhaglen yr Archwilydd Cyffredinol.

**3.10** Ochr yn ochr â newid o'r fath mae lle hefyd i ddatblygu rôl Pwyllgor Archwilio'r Cynulliad Cenedlaethol wrth graffu ar yr Archwilydd Cyffredinol a phrosesau llywodraethu Swyddfa Archwilio Cymru. Mae'r Pwyllgor Archwilio yn cymeradwyo amcangyfrifon yr Archwilydd Cyffredinol o incwm a gwariant, ac mae ganddo gysylltiadau â Phwyllgor Archwilio a Rheoli Risg Swyddfa Archwilio Cymru. Yn dibynnu ar ddatblygiadau ehangach ym mhrosesau llywodraethu Swyddfa Archwilio Cymru, mae lle i Bwyllgor Archwilio'r Cynulliad Cenedlaethol ddatblygu ei rôl lywodraethu ymhellach wrth ystyried cyllideb ac adroddiadau blynyddol yr Archwilydd Cyffredinol, yn ogystal ag arfer ei bwerau yn rheolaidd i gomisiynu archwiliadau penodol o'r gwerth am arian a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru.

**3.11** O ran llywodraethu mewnol, mae gan Swyddfa Archwilio Cymru Bartner Cydymffurfiaeth ac ymhlith ei gyfrifoldebau mae penodiadau archwilio, gweithrediad cyfundrefn ehangach yr Archwilydd Cyffredinol, monitro ansawdd, materion cyfreithiol a Rhyddid Gwybodaeth, diogelwch data, rheoli risg ac archwilio mewnol. Nododd Swyddfa Archwilio Cymru yn ei hunanasesiad fod lle i unigolion newid rolau i raddau mwy o fewn y tîm Cydymffurfiaeth, yn ogystal â'r tîm Technegol sy'n rhoi cyngor ar faterion cyfrifyddu technegol. Dylai'r Archwilydd Cyffredinol adolygu rôl a chyfansoddiad y timau Cydymffurfiaeth a Thechnegol yng ngoleuni'r newidiadau i drefniadau llywodraethu ehangach a'r strwythur rheoli uwch.



# Pennod 4 – Rheoli Swyddfa Archwilio Cymru

**4.1** Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn sefydliad cymharol ifanc a sefydlwyd ym mis Ebrill 2005 ar ôl uno dwy swyddfa ranbarthol dau sefydliad gwahanol a llawer mwy o faint. Ers ei sefydlu, mae'r sefydliad wedi gorfod datblygu ei brosesau llywodraethu, ei brosesau rheoli a'i seilwaith ei hun. Mae'r rhan hon o'r adroddiad yn adeiladu ar yr ymarfer hunanasesu diweddar a gynhaliwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru, a roddodd asesiad trylwyr, gonest a realistig o'i chynnydd a'r heriau y mae'n eu hwynebu ar hyn o bryd. Rhown ystyriaeth i'r canlynol:

- **a** strwythur Swyddfa Archwilio Cymru;
- **b** arweinyddiaeth a diwylliant;
- **c** rheoli pobl ac adnoddau dynol;
- **ch** rheoli strategaethau a rhaglenni;
- **d** defnydd Swyddfa Archwilio Cymru o adnoddau.

## Strwythur y sefydliad

**4.2** Mae gan Swyddfa Archwilio Cymru ychydig dros 280 o staff (250 sy'n gyfwerth ag amser llawn), wedi'u rhannu rhwng archwilio ariannol, archwilio perfformiad a gwasanaethau corfforaethol. Mae **Ffigur 4** yn dangos nifer y staff fesul swyddogaeth.

**Ffigur 4 – Staff Swyddfa Archwilio Cymru**

| Grŵp | Nifer o staff | Cyfwerth ag amser llawn |
|---|---|---|
| Archwilio Ariannol | 136 | 109.81 |
| Archwilio Perfformiad | 70 | 69.4 |
| Gwasanaethau Corfforaethol | 75 | 70.34 |
| CYFANSWM | 281 | 249.55 |

*Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru.*

**4.3** Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn defnyddio strwythur rheoli matrics wedi'i drefnu ar sail prosiectau yn hytrach na swyddogaethau traddodiadol. Mae swyddogaethau o'r fath yn gyffredin mewn sefydliadau gwasanaeth proffesiynol y caiff eu rhaglenni gwaith eu llywio gan brosiectau. Mae i'r matrics ddwy elfen - mae un ochr yn cynrychioli 'pobl' ac mae'r staff yn perthyn i dimau cartref at ddibenion rheoli llinell, rhaglenni gwaith, rheoli perfformiad a lles; ar ochr arall y matrics mae 'prosiectau', a chaiff pob un ohonynt ei arwain gan Bartner Ymgysylltu sy'n atebol i'r Archwilydd Cyffredinol am gyflawni'r prosiect hwnnw. Caiff staff o bob rhan o Swyddfa Archwilio Cymru eu dyrannu i amrywiaeth o brosiectau. Mae'r strwythur hwn wedi'i gynllunio i sicrhau hyblygrwydd ac ystwythder, er mwyn galluogi Swyddfa Archwilio Cymru i ymateb yn gyflym i faterion sy'n dod i'r amlwg a gwneud y defnydd gorau posibl o'r sgiliau sydd ar gael drwy gysylltu'r bobl gywir â phob prosiect.

**4.4** Mae staff gwasanaethau corfforaethol yn perthyn i dimau swyddogaethol nad ydynt yn rhan o'r matrics yn gyffredinol, ond maent yn cyfrannu at brosiectau gweithredol yn achlysurol. Mae gan Swyddfa Archwilio Cymru y gwasanaethau corfforaethol canlynol:

- **a** Adnoddau Dynol;
- **b** Cyllid;
- **c** TGCh;
- **ch** Gwasanaethau Busnes;
- **d** Cyfathrebu a Chyhoeddi;
- **dd** Technegol;


**e** Rheoli Gwybodaeth;

**f** Swyddfa'r Archwilydd Cyffredinol;

**ff** Cydymffurfiaeth, sy'n cwmpasu amrywiaeth o swyddogaethau gan gynnwys rheoli penodiadau a chontractau archwilio, materion cyfreithiol, archwilio mewnol, grantiau, rheoli risg a threfniadau llywodraethu.

**4.5** O gwmpas y strwythur matrics sylfaenol hwn, ceir nifer o grwpiau a swyddogaethau eraill (**Ffigur 5**). Y Prif Swyddog Gweithredu oedd yn gyfrifol am reolaeth weithredol Swyddfa Archwilio Cymru rhwng mis Chwefror 2006 a 31 Gorffennaf 2009. Mae Pwyllgor Rheoli, sy'n cynnwys yr Archwilydd Cyffredinol a phum partner, wedi gwneud penderfyniadau gweithredol, gyda chymorth is-Bwyllgorau Archwilio Perfformiad, Archwilio Ariannol a Gwasanaethau Corfforaethol. Mae Bwrdd

## Ffigur 5 – Strwythur Swyddfa Archwilio Cymru 2006-2009




*Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru.*



Partneriaeth sy'n cynnwys deuddeg o bartneriaid wedi cyflawni swyddogaeth strategol a swyddogaeth gynghori.

**4.6** Mae cyfres o Hysbysiadau Corfforaethol yn nodi gwybodaeth fanwl iawn am rolau a chyfrifoldebau o fewn y strwythur hwn. Fodd bynnag, awgryma hunanasesiad Swyddfa Archwilio Cymru ei hun a gwaith tîm yr Adolygiad Cymheiriaid nad yw'r staff na rhanddeiliaid yn deall y rolau a'r cyfrifoldebau amrywiol yn dda. Yn arbennig, ymddengys mai ychydig o ddealltwriaeth a geir o rolau'r Bwrdd Partneriaeth a'r Pwyllgor Rheoli, gan gynnwys ymhlith uwch staff, er bod yr Hysbysiadau Corfforaethol yn rhoi gwybodaeth glir am eu rolau a'u cyfrifoldebau perthnasol.

**4.7** Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn newid ei rolau sy'n ymwneud â chleientiaid drwy gyfrwng ei dull sy'n datblygu o gyflawni'r Mesur Llywodraeth Leol. Cyn hyn, roedd gan gleientiaid Bartneriaid Ymgysylltu ar wahân ar gyfer Archwilio Perfformiad ac Archwilio Ariannol, a oedd yn cael eu cynorthwyo gan Reolwr Prosiect Perfformiad a Rheolwr Cleient fel y bo'n briodol. Mewn llywodraeth leol, mae Rheolwr Cydberthynas hefyd wedi bod yn gyfrifol am gydgysylltu'r holl weithgarwch rheoleiddio ar y safle hwnnw. Yn achos safleoedd a archwilir gan un o'r cyflenwyr o'r sector preifat, ceir Partner Cyswllt hefyd. Roeddem o'r farn fod y strwythur hwn yn rhy gymhleth i sefydliad o faint Swyddfa Archwilio Cymru. Mewn llywodraeth leol, bydd y Partneriaid Archwilio Perfformiad ac Archwilio Ariannol a'r Rheolwyr Cleient yn parhau, tra bydd Arweinydd Asesu Gwelliant a Chydgysylltydd Asesu Gwelliant yn cymryd lle'r Rheolwr Cydberthynas a'r Rheolwr Prosiect Perfformiad. Nid yw'n glir eto sut y bydd Swyddfa Archwilio Cymru yn cysylltu â'r byrddau iechyd newydd.

**4.8** Mae cyfle i roi cyfrifoldeb â ffocws cliriach i'r gwaith mewn sectorau penodol. Er enghraifft, clywyd barn bod lle i wella'r modd y cydlynir gwaith Swyddfa Archwilio Cymru ar draws y GIG, a chlywyd am gyfleoedd i gael mwy o effaith drwy allu unigryw Swyddfa Archwilio Cymru i gyrraedd y gwasanaethau cyhoeddus i gyd. Mae Swyddfa Archwilio Cymru wedi penodi Cyfarwyddwyr yn ddiweddar i feithrin ei gallu ym maes iechyd a gofal cymdeithasol ac astudiaethau trawsbynciol.

**4.9** Gan gydnabod rhywfaint o'r materion hyn, mae'r Archwilydd Cyffredinol wrthi'n newid ei strwythur rheoli uwch a rhai o'r rolau allweddol sy'n ymwneud â chleientiaid. Mae union fanylion y newidiadau hyn yn dod i'r amlwg. Mae pwyntiau allweddol y newidiadau strwythurol arfaethedig fel a ganlyn:

- **a** Dirwyn rôl y Prif Swyddog Gweithredu i ben i gydnabod enw da allanol a seilwaith mewnol Swyddfa Archwilio Cymru.
- **b** Diddymu'r Pwyllgor Rheoli a sefydlu Pwyllgor Gweithredol i redeg y busnes yn ei le. Caiff y Pwyllgor Gweithredol ei gadeirio gan yr Archwilydd Cyffredinol ac mae'n cynnwys nifer fach o Bartneriaid Rheoli ar gyfer rhannau allweddol o'r busnes. Bydd y Bwrdd Partneriaeth yn parhau ond bydd iddo ffocws strategol a chynghori cliriach, a phwyslais cryfach ar gyfathrebu mewnol ac allanol; bydd Partneriaid nad ydynt yn aelodau o'r Pwyllgor Gweithredol yn adrodd i un neu ragor o'r Partneriaid Rheoli.
- **c** Newidiadau i rolau mewn llywodraeth leol i adlewyrchu'r dull gweithredu newydd a awgrymir drwy weithredu'r Mesur Llywodraeth Leol; bydd rolau'r Rheolwr Cydberthynas a'r Rheolwr Prosiect Perfformiad yn dod i ben, ac mae rolau

newydd yn cael eu sefydlu gyda'r nod o bennu cyfrifoldeb uwch cliriach ar gyfer gwaith perfformiad a chydgysylltu gweithgarwch.

**ch** Trefniadau i gynnal gallu Swyddfa Archwilio Cymru i ddwyn timau prosiect ynghyd o blith y cydweithwyr gorau sydd ar gael ymhob rhan o'r sefydliad.

**4.10** Mae'r strwythur newydd yn cynnig yr addewid o atebolrwydd cliriach am gyflawni, uwch dîm rheoli mwy cydlynol a gweledol, prosesau cliriach a chyflymach ar gyfer gwneud penderfyniadau a phrosesau cyfathrebu mewnol ac allanol gwell. Mae tîm yr Adolygiad Cymheiriaid wedi trafod y newidiadau â'r Archwilydd Cyffredinol ac mae'n ystyried eu bod yn gyson, ar lefel uchel, â chanfyddiadau'r ymarfer hwn. Bydd gweithredu'r strwythur newydd yn hollbwysig i'w effaith yn y meysydd hyn.

## Arweinyddiaeth a diwylliant

**4.11** Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn uchel ei barch ymhlith rhanddeiliaid allanol ac o fewn Swyddfa Archwilio Cymru. Fodd bynnag, o dan yr Archwilydd Cyffredinol a'r Prif Swyddog Gweithredu, mae ansicrwydd wedi bod ynghylch pwy sy'n rhan o dîm arwain Swyddfa Archwilio Cymru. Dylai'r 12 Partner fod yn unigolion allweddol, ond nid ydynt wedi ffurfio tîm arwain cydlynol sy'n rhoi negeseuon corfforaethol cyson a chlir i staff, a ategir gan lefelau priodol o gydgyfrifoldeb.

**4.12** Mae'r staff o'r farn bod y Partneriaid yn rhanedig, gyda thensiynau penodol rhwng rhai Partneriaid sy'n niweidiol i'r sefydliad yn ein barn ni. Mae pob Partner yn ddiweddar wedi derbyn cyfrifoldeb am reoli timau cartref arbennig fel rhan o'r Adolygiad diweddar o Reolaeth Timau Cartref.

**4.13** Bydd creu Pwyllgor Gweithredol llai o faint a mwy cydlynol yn ei gwneud hi'n haws gweld sut y caiff penderfyniadau eu gwneud, ond mae'n debyg y bydd ei effeithiolrwydd yn dibynnu'n helaeth ar y graddau y mae ei aelodau'n gallu gweithredu mewn modd corfforaethol a chydweithredol ar lefelau uwch o fewn y sefydliad.

**4.14** Ymddengys mai'r broblem allweddol yw diffyg ymddiriedaeth o fewn y sefydliad. Mae uwch reolwyr yn cydnabod y pryderon hyn. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn barod i siarad ag unrhyw aelod o staff, ond yn amlwg mae problemau ehangach sy'n ymwneud ag ymddiriedaeth a ffydd yn y broses gwneud penderfyniadau a'r uwch dîm rheoli ehangach. Mae ymddiriedaeth yn broses ddwyffordd – mae'r achosion niferus o ddatgelu gwybodaeth o arolygon staff a gwybodaeth sensitif arall yn ddinistriol ac yn gwneud niwed diangen i enw da'r sefydliad ac maent hefyd yn effeithio ar gydweithwyr o ddydd i ddydd wrth iddynt wneud eu gwaith ymhob rhan o'r gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru.

## Materion yn ymwneud â rheoli pobl ac adnoddau dynol

**4.15** Ased pwysicaf unrhyw sefydliad archwilio yw ei wybodaeth a'i gyfalaf dynol. O ganlyniad, mae cryfder, ymrwymiad a chymhelliant staff yn hollbwysig i lwyddiant.

**4.16** Etifeddodd Swyddfa Archwilio Cymru amgylchiadau heriol wrth y sefydliadau a'i rhagflaenodd, y sefydlwyd un ohonynt ei hunan yn sgîl uno'r Archwiliad Dosbarth, yr Arolygiaeth Gwerth Gorau a'r Comisiwn Archwilio. Mae Swyddfa Archwilio Cymru wedi profi cryn anawsterau gyda materion yn ymwneud ag adnoddau dynol drwy gydol ei phedair blynedd, ac mae'n dal i wynebu agenda hynod o heriol i'w



datrys. Er ei bod yn anochel y bydd uno dau sefydliad â gwahanol ddiwylliannau, dulliau gweithredu a pholisïau adnoddau dynol yn broses anodd, rydym wedi cael ein synnu gan raddau'r tensiynau sy'n dal i fodoli.

**4.17** Dangosodd hunanasesiad Swyddfa Archwilio Cymru, er gwaethaf sylwadau negyddol gan staff am gyflog ac olyniaeth, a rhai pryderon am lwyth gwaith a phwysau gwaith, fod llawer o staff o'r farn bod Swyddfa Archwilio Cymru yn gyflogwr ardderchog sy'n cynnig telerau ac amodau da iawn. Tynnodd staff sylw yn rheolaidd at drefniadau gweithio hyblyg fel un agwedd gadarnhaol ar weithio i Swyddfa Archwilio Cymru. Mae'r pwyntiau amlwg eraill fel a ganlyn:

- **a** nododd yr hunanasesiad y gydnabyddiaeth gref fod ansawdd y bobl sy'n gweithio i'r sefydliad yn gryfder allweddol a bod staff yn dangos lefel uchel o ymrwymiad a chefnogaeth i ethos a gwerthoedd y sector cyhoeddus a'r broses o'i wella;
- **b** mae'r adran adnoddau dynol wedi sefydlu'r fframwaith sylfaenol drwy ddatblygu ystod o bolisïau newydd a llawlyfr staff i lywio'r broses o reoli materion yn ymwneud ag adnoddau dynol;
- **c** mae staff yn ymfalchïo yn y sefydliad, ei bobl, ei genhadaeth, ei effaith a'i arbenigedd;
- **ch** ceir lefelau isel o absenoldeb oherwydd salwch (5.18 o ddiwrnodau fesul cyflogai yn 2008-09 sy'n cymharu'n dda â chyrff sector cyhoeddus ac archwilio cyhoeddus eraill);
- **d** mae lefelau isel o drosiant staff yn helpu'r sefydliad i sicrhau cysondeb (er nad yw hynny o reidrwydd yn beth cadarnhaol bob tro; yn arbennig, gall trosiant isel fod yn rhwystr i syniadau newydd a gall arwain at atgynhyrchu syniadau).

**4.18** Er hynny, mae Swyddfa Archwilio Cymru yn wynebu nifer o broblemau sylweddol a hirsefydlog mewn perthynas ag adnoddau dynol a materion ehangach o ran diwylliant ac ymddiriedaeth o fewn y sefydliad, yn arbennig: rheolaeth fatrics; cynllunio'r gweithlu a'r strategaeth adnoddau dynol; gwerthuso swyddi, cyflog a pherfformiad; cyfathrebu mewnol; a'r adran adnoddau dynol a chysylltiadau diwydiannol (mae 80 y cant o staff Swyddfa Archwilio Cymru yn aelodau o un o'r ddau undeb, Prospect a PCS).

## Rheolaeth fatrics

**4.19** Nododd hunanasesiad Swyddfa Archwilio Cymru fod gan staff farn gymysg am reolaeth fatrics, a adlewyrchai ganlyniadau arolygon staff amrywiol a'n trafodaethau ein hunain â staff. Mae rhai o'r buddiannau amlwg sy'n deillio o reolaeth fatrics fel a ganlyn:

- **a** cafodd staff o gyrff rhagflaenol eu hintegreiddio'n gyflymach – nodwyd mai anaml iawn y siaradodd y staff am y cyrff rhagflaenol sy'n anarferol i sefydliad newydd a unwyd yn gymharol ddiweddar;
- **b** mwy o ymatebolrwydd a hyblygrwydd, a ddangoswyd gan y gallu i ymgymryd ag ymchwiliad annisgwyl, sensitif ac uchel ei broffil i wasanaethau ambiwlans, sefydlu tîm traws-swyddogaethol ar fyr rybudd, a llunio adroddiad cynhwysfawr a chymeradwy cyn pen pedwar mis;
- **c** mwy o hyblygrwydd nag y byddai strwythur adrannol yn debyg o'i gynnig, er enghraifft wrth ddewis y timau gorau ar gyfer prosiectau o bob rhan o Swyddfa Archwilio Cymru; mae'r ymchwiliad i wasanaethau ambiwlans a'r prosiect rheoli fflyd a enillodd wobrau yn enghreifftiau da lle dewiswyd

timau prosiect o bob rhan o'r disgyblaethau archwilio ariannol ac archwilio perfformiad i gyflawni prosiectau trawsbynciol.

**4.20** Mae anfanteision i agweddau ar reolaeth fatrics hefyd, yn ogystal â bylchau yn y prosesau busnes ategol a chyfathrebu corfforaethol wyneb yn wyneb. Yn arbennig, wrth roi'r dull matrics ar waith, nid yw'n glir y rhoddwyd digon o ystyriaeth i'r angen i reoli staff a rhaglenni gwaith yn effeithiol.

**4.21** Mae rôl y Rheolwr Tîm Cartref yn hollbwysig er mwyn rheoli Swyddfa Archwilio Cymru yn effeithiol a rhoi'r dull rheolaeth fatrics ar waith yn llwyddiannus. Dylai'r Rheolwr Tîm Cartref gyflawni swyddogaethau rheoli llinell craidd ar gyfer staff (lles, mentora a hyfforddi, rheoli perfformiad, cadw tŷ, datblygiad personol a chynnal rhaglen waith lawn a chytbwys). Fodd bynnag, nid yw Rheolwyr Timau Cartref o reidrwydd yn gweithio'n rheolaidd gydag aelodau eu Tîm Cartref ar brosiectau ac nid ydynt yn gwybod cyflog gwirioneddol aelodau unigol o'r tîm - dim ond eu band cyflog. O ganlyniad, mae rhai Rheolwyr Timau Cartref yn teimlo nad ydynt mewn sefyllfa i gyflawni eu swyddogaethau allweddol am nad oes ganddynt wybodaeth lawn am aelodau eu tîm na'r gallu i ddylanwadu ar agweddau allweddol ar eu gwaith megis llwyth gwaith. Mae problemau hefyd ynghylch digonoldeb yr adborth a geir gan reolwyr prosiect ar berfformiad prosiectau unigol, gan nad yw rheolwyr prosiect yn cyflawni eu cyfrifoldebau ar gyfer rheoli pobl ar brosiectau yn gyson.

**4.22** Mae'n gallu bod yn anodd i Reolwyr Timau Cartref ddylanwadu ar y ffordd y dyrennir gwaith am nad oes ganddynt ddigon o wybodaeth am y rhaglen waith gyffredinol na'r adnoddau a ddyrennir. Rheolwyr adnoddau sy'n gyfrifol am hyn. Mae hyn yn golygu ei bod yn anodd i rai Rheolwyr Timau Cartref nodi cyfleoedd ar gyfer aelodau eu tîm. Mae lefelau uchel o hyblygrwydd ac ymreolaeth yn ymddangos fel pe baent yn addas i rai aelodau o staff, yn enwedig y rhai mwyaf galluog a'r rhai y mae galw am eu gwasanaeth, ond mae eraill yn gweld eisiau ymdeimlad o berthyn.

**4.23** Cydnabu Swyddfa Archwilio Cymru fod anghysondebau yn y modd y cyflawnir rôl y Rheolwr Tîm Cartref ac mae wedi penodi'n ddiweddar garfan newydd o Reolwyr Timau Cartref yn dilyn proses recriwtio fewnol gystadleuol. Mae'r Rheolwyr Timau Cartref newydd wedi cael hyfforddiant sefydlu manwl ac wedi gorffen ymarfer system mesur perfformiad newydd Swyddfa Archwilio Cymru a oedd yn ymddangos fel pe bai'n gweithio'n effeithiol. Mae hyn yn galonogol o ran rôl y Rheolwr Tîm Cartref yn y dyfodol. Roedd y cysyniad o Reolwr Tîm Cartref yn ddeniadol i dîm yr Adolygiad Cymheiriaid ac roedd y sampl o Reolwyr Timau Cartref y cyfarfuwyd â hwy i drafod y rôl wedi creu argraff ar dîm yr Adolygiad. Credwn fod ei lwyddiant yn hollbwysig i ddatblygiad Swyddfa Archwilio Cymru fel sefydliad. Gellid mynd i'r afael â rhai o'r pryderon hyn drwy roi'r matrics ar waith yn well, yn enwedig:

- **a** gwelliannau mewn cyfathrebu mewnol, gan bwysleisio cyfathrebu wyneb yn wyneb yn hytrach na chyfathrebu drwy e-bost;
- **b** sicrhau bod Rheolwyr Timau Cartref yn cael adborth mwy rheolaidd ac amserol ar y rhaglen waith gyffredinol a sut mae eu staff yn perfformio;
- **c** fel rhan o raglen o archwiliadau a phrosiectau a gaiff ei diweddaru'n rheolaidd, llunio rhestr gyfun a ddiweddarir yn aml o brosiectau y mae angen adnoddau ar eu cyfer er mwyn ei gwneud yn haws i Reolwyr Timau Cartref nodi gwaith y gallai aelodau eu tîm ei gyflawni;



**ch** cymorth arwain mwy effeithiol i Reolwyr Timau Cartref a chydnabyddiaeth gywir gan Bartneriaid o'u cyfrifoldebau eu hunain o ran rheoli pobl.

**4.24** Fodd bynnag, er bod rheolaeth fatrics yn amlwg wedi helpu i ddwyn y sefydliad ynghyd, mae angen gweddnewid y modd y gweithredir y matrics er mwyn goresgyn anawsterau canfyddedig a gwirioneddol. Gall y newidiadau strwythurol y mae'r Archwilydd Cyffredinol yn eu gwneud helpu i ddiffinio cyfrifoldebau ac atebolrwydd yn gliriach. Bydd angen rhoi sylw pellach i'r materion canlynol hefyd:

**a** mae arweinyddiaeth amrywiol, a waethygir gan densiynau gweladwy rhwng uwch staff, a gorddibyniaeth ar gyfathrebu ysgrifenedig ac electronig wedi arwain at rwystredigaeth ac ansicrwydd sylweddol ymhlith staff;

**b** mae rolau wedi'u diffinio'n rhy llac ac mae staff yn cael anhawster deall pwy sy'n gyfrifol am faterion arbennig;

**c** tynnodd yr hunanasesiad sylw at yr effaith sylweddol y mae problemau o ran rheoli rhaglenni yn ei chael ar ganfyddiadau staff o reolaeth fatrics; er bod y sefyllfa'n gwella yn amlwg, mae angen systemau llawer gwell i wella'r sefyllfa bresennol lle mae staff o'r farn bod systemau rheoli anffurfiol yn drech na systemau rheoli ffurfiol, a hynny er anfantais i'r broses o ddyrannu staff i brosiectau;

**ch** mae diffyg gwaith cynllunio busnes a phrosesau rheoli perfformiad corfforaethol gwael yn ei gwneud yn anodd i staff weld sut y mae eu rôl yn helpu i gyflawni gweledigaeth, cenhadaeth a strategaeth Swyddfa Archwilio Cymru.

## Cynllunio'r gweithlu a'r strategaeth adnoddau dynol

**4.25** Un pryder arwyddocaol o ran adnoddau dynol yw'r diffyg gwaith cynllunio gweithlu sy'n mynd rhagddo yn Swyddfa Archwilio Cymru. Mae'r pryder hwn yn cysylltu â gwendidau ym maes cynllunio busnes. Mae'n hollbwysig bod Swyddfa Archwilio Cymru mewn sefyllfa dda i ymateb yn strategol i'r lleihad posibl yn ei llwyth gwaith yn y tymor canolig. Mae canlyniadau posibl y lleihad yn y llwyth gwaith yn cynnwys lleihad ym maint y sefydliad, a'r posibilrwydd y bydd y cymysgedd o sgiliau sydd eu hangen yn y dyfodol a natur y sgiliau hynny yn wahanol i'r sgiliau sydd ar gael ar hyn o bryd. Mae prosesau cynllunio'r gweithlu yn dechrau cael eu datblygu fel rhan o ymateb Swyddfa Archwilio Cymru i'r Mesur Llywodraeth Leol ac ad-drefnu'r GIG. Fodd bynnag, er i ni weld tystiolaeth o fodelau ariannol ar gyfer gwahanol senarios posibl yn y dyfodol, ychydig iawn o dystiolaeth a welwyd o waith cynllunio'r gweithlu neu waith cynllunio ar gyfer olyniaeth. Wrth i oblygiadau'r newidiadau amrywiol yn amgylchedd allanol Swyddfa Archwilio Cymru ddod yn gliriach, mae'n hollbwysig bod Swyddfa Archwilio Cymru yn darogan sut y dylai'r sefydliad edrych gan lunio cysylltiadau â nifer y staff a'r math o sgiliau y bydd eu hangen arno i gyflawni ei genhadaeth.

**4.26** Nid oes gan Swyddfa Archwilio Cymru strategaeth adnoddau dynol neu strategaeth datblygu sefydliadol y mae'r staff yn ei deall. Ymddengys bod nifer o brosiectau a mentrau ar waith ond gellid trosglwyddo gwybodaeth amdanynt yn llawer mwy effeithiol er mwyn sicrhau bod staff yn gwybod sut y maent yn cyd-fynd â'i gilydd ac yn cyfateb ag amcanion strategol ehangach. Elfen allweddol o unrhyw gynllun gweithlu fydd ystyried llif staff i mewn ac allan o'r sefydliad er mwyn darparu meddylfryd ffres a syniadau newydd.

## Gwerthuso swyddi, cyflog a pherfformiad

**4.27** Yn 2006, rhannodd Swyddfa Archwilio Cymru staff yn bedwar band cyflog i ddechrau ond roedd pryderon ynghylch trylwyredd y broses hon a'i chydymffurfiaeth â gofynion cyflog cyfartal. O ganlyniad, rhoddwyd proses gwerthuso swyddi ar waith sydd wedi bod yn llafurus iawn. Mae'r broses estynedig hon wedi effeithio ar forâl staff.

**4.28** Yn dilyn proses dendro, dechreuodd y cwmni ymgynghori, Insight, ar waith i gynllunio'r cynllun gwerthuso swyddi ym mis Ebrill 2007; disgwyliwyd y byddai'r gwaith hwn yn cymryd rhwng chwech ac wyth mis ond cymerodd dros flwyddyn i'w gwblhau yn y pen draw. Datblygodd y staff ddisgrifiadau swydd unigol a gwnaethant gytuno arnynt gyda'u Rheolwr Tîm Cartref. Wedyn cafodd pob aelod o staff gyfweliad unigol ag Insight. Yn dilyn hyn rhoddwyd sgôr i bob aelod o staff yn erbyn y cynllun gwerthuso swyddi. Mae'r staff wedi cael hawl i apelio yn erbyn sgôr eu gwerthusiad swydd a gwneud cais am un gwerthusiad swydd arall – dewisodd 17 o staff wneud hynny.

**4.29** Lluniodd Insight hefyd strwythur gwobrwyo arfaethedig gyda 10 band cyflog wedi'u seilio ar gyfradd canol y farchnad ar gyfer pob band. Roedd y cyfraddau marchnad arfaethedig wedi rhoi ystyriaeth i ymarfer meincnodi yn erbyn sefydliadau a rolau cyffelyb yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat. Pennwyd y meincnodau ar sail cyflogau sylfaenol Swyddfa Archwilio Cymru yn unig ac ni roddwyd ystyriaeth i'r pecyn buddiannau cyffredinol a gydnabyddir gan y staff fel un da, er enghraifft y cynllun pensiwn cyflog terfynol, y cynllun ceir a'r lwfansau cludiant sy'n gymwys i rai staff. Fodd bynnag, roedd cyfanswm y buddiannau wedi dylanwadu ar benderfyniadau uwch reolwyr wrth iddynt ddewis safle Swyddfa Archwilio Cymru yn y farchnad recriwtio.

**4.30** Nid yw'r rheolwyr na'r undebau wedi cytuno eto ar y bandiau cyflog terfynol, systemau ar gyfer symud drwy'r bandiau cyflog na threfniadau i ddelio â'r rhai sydd â chyflog uwchlaw'r cyfraddau targed presennol. Roedd rheolwyr Swyddfa Archwilio Cymru wedi ailgychwyn trafodaethau â'r undebau ym mis Mehefin ar ôl i'r trafodaethau gael eu hatal yn ystod anghydfod cysylltiadau diwydiannol ar wahân.

**4.31** Dangosodd yr ymarfer gwerthuso swyddi gwreiddiol bod tua 54 y cant o staff uwchlaw'r gyfradd darged arfaethedig, ac roedd 42 y cant o dan y gyfradd darged arfaethedig ar gyfer eu band cyflog. Symudwyd y rhai a oedd o dan y gyfradd arfaethedig i waelod y gyfradd gyflog arfaethedig yn syth ond nid oes trefniadau wedi'u cytuno eto i ddelio â'r staff sydd â chyflogau yn uwch na'r gyfradd darged arfaethedig nac i sicrhau y gall cyflogeion fynd drwy'r bandiau cyflog.

**4.32** Ers ei sefydlu mae Swyddfa Archwilio Cymru wedi rhoi trefniadau ar waith i bennu amcanion, arfarnu perfformiad a gwneud gwaith cynllunio datblygiad personol. Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn buddsoddi'n drwm mewn datblygu staff, ac mae pob aelod o staff yn cael arian i gael deg diwrnod o hyfforddiant bob blwyddyn. Ers mis Ebrill 2008 mae wedi defnyddio proffil cymwyseddau i nodi ymddygiad priodol ar gyfer ei staff sy'n gysylltiedig ag amcanion a pherfformiad. Fodd bynnag, nid oes ganddi systemau arfarnu digon aeddfed i fesur perfformiad a chysylltu hyn ag olyniaeth o ran cyflog. Mae hyn wedi golygu nad yw perfformiad wedi effeithio ar gyflog nac olyniaeth ar unrhyw adeg yn hanes Swyddfa Archwilio Cymru. Mae'r diffyg olyniaeth o ran cyflog yn destun rhwystredigaeth mawr i'r staff. Un rhwystr arbennig wrth weithredu system arfarnu drylwyr yw ei bod yn anodd sicrhau bod rheolwyr prosiectau a Phartneriaid yn rhoi adborth cadarn ac amserol i Reolwr Timau Cartref ar y staff sy'n gweithio ar eu prosiectau.



**4.33** Yng nghylch arfarnu mis Ebrill 2009, gweithredodd Swyddfa Archwilio Cymru ei System Mesur Perfformiad newydd am y tro cyntaf. Mae pob aelod o staff wedi cael sgôr ar raddfa chwe phwynt (mae pwynt dau wedi'i wahanu'n a neu b) sy'n amrywio o bump ar y brig i un ar y gwaelod i staff sy'n destun gweithdrefnau gallu Swyddfa Archwilio Cymru. Mae canlyniadau'r ymarfer asesu perfformiad wedi'u cymedroli ar bedair lefel i geisio sicrhau cysondeb. At ddibenion profi'r system y gwnaed hyn; cysylltir newidiadau cyflog â'r mesurau perfformiad hyn o fis Ebrill 2010 ymlaen, ar yr amod y ceir cytundeb ynghylch y mater hwn ac unrhyw fater arall sy'n ymwneud â chyflog. Awgrymodd adborth cychwynnol fod y broses wedi mynd rhagddi'n gymharol dda, wedi'i hategu gan hyfforddiant gorfodol sylweddol i bob aelod o staff ar adborth effeithiol a hyfforddiant sylweddol i'r garfan newydd o Reolwyr Timau Cartref. Cyflwynodd un ar ddeg aelod o staff apêl yn erbyn eu mesur perfformiad. Bydd y cylch mesur perfformiad nesaf yn profi a yw'r system yn ddigon cadarn i wrthsefyll y pwysau sydd ynghlwm wrth gysylltu newidiadau cyflog â'r mesurau.

**4.34** Mae cyfyngiadau ar yr arian sy'n debygol o fod ar gael yn y dyfodol o ganlyniad i bwysau ariannol, a'r newidiadau sylweddol yn amgylchedd gweithredu Swyddfa Archwilio Cymru, yn golygu ei bod yn anochel y bydd Swyddfa Archwilio Cymru yn wynebu nifer o benderfyniadau anodd yn y dyfodol agos. Awgrymodd ein trafodaethau â staff a'u cynrychiolwyr, os yw uwch reolwyr yn agored ac yn ddidwyll am y problemau sy'n wynebu Swyddfa Archwilio Cymru, mae'n debyg y bydd staff yn cefnogi'r penderfyniadau anodd y mae'n debygol y bydd angen eu gwneud.

## Cyfathrebu Mewnol

**4.35** Mae Swyddfa Archwilio Cymru wedi cyflwyno amrywiaeth o systemau cyfathrebu ysgrifenedig, wedi'u hategu gan ryngweithio uniongyrchol gyda staff, a arweinir yn gyffredinol gan yr Archwilydd Cyffredinol a'r cyn-Brif Swyddog Gweithredu.

**4.36** Mae nifer o systemau cyfathrebu ysgrifenedig yn rhoi gwybodaeth fanwl iawn i ddiwallu anghenion staff Swyddfa Archwilio Cymru sy'n gwerthfawrogi manylion. Fodd bynnag, gall y manylder ei gwneud yn anodd i'r staff i gyd ddeall goblygiadau newid yn llawn gan nad oes systemau cyson ar waith i egluro newidiadau i staff wyneb yn wyneb. Lle bo cyfarfodydd wyneb yn wyneb yn cael eu cynnal drwy'r Rheolwyr Timau Cartref neu gyfarfodydd ardal, nid yw'n glir bod pob un o arweinwyr y sefydliad yn cyfleu neges gorfforaethol glir a chyson am sut y mae'r sefydliad yn perfformio a'i gyfeiriad yn y dyfodol. Mae hyn yn gallu ei gwneud yn anodd i'r staff ddeall eu rôl a'u cyfraniad i'r sefydliad.

**4.37** Yn y dyfodol rhaid i Swyddfa Archwilio Cymru fabwysiadu dull disgybledig o gyfathrebu wyneb yn wyneb â staff nad yw'n dibynnu'n gyfan gwbl ar yr Archwilydd Cyffredinol. Dylai'r system ddwyffordd strwythuredig hon o sesiynau briffio staff rheolaidd, a gynhelir wyneb yn wyneb gyda Rheolwyr Timau Cartref yn ddelfrydol, gysylltu ag adroddiadau rheolaidd ar gynnydd yn erbyn amcanion y cynllun busnes blynyddol ar sefyllfa ariannol a pherfformiad Swyddfa Archwilio Cymru. Gallai system o'r fath sicrhau bod negeseuon corfforaethol yn cael eu cyfleu'n effeithiol a gallai fod yn ffordd systematig o gael adborth gan staff. Cydnabyddwn fod problemau ymarferol gwirioneddol ynghlwm wrth drefnu cyfarfodydd o'r fath yn sgîl y pwysau i gynnal archwiliadau ariannol ar amrywiaeth o safleoedd a'r angen i sicrhau y codir tâl priodol am

wasanaethau staff, ond credwn yn gryf fod angen y ddisgyblaeth sy'n gysylltiedig â system friffio ffurfiol ar Swyddfa Archwilio Cymru a weithredir, i'r graddau sy'n bosibl, ar sail wyneb yn wyneb.

**4.38** Fel sefydliad sy'n dibynnu ar wybodaeth ei staff, mae'n hollbwysig hefyd bod Swyddfa Archwilio Cymru yn symud ymlaen yn gyflym â'i chynlluniau i wella systemau rhannu a rheoli gwybodaeth.

## Adran Adnoddau Dynol a Chysylltiadau Diwydiannol

**4.39** Mae gan dîm adnoddau dynol Swyddfa Archwilio Cymru wyth aelod o staff, sy'n gymharol fawr i sefydliad o'r maint hwn. Dim ond cynghori y gall y tîm adnoddau dynol ei wneud; y Partneriaid sy'n gyfrifol am wneud penderfyniadau, ond mae pryderon yn yr adran adnoddau dynol nad yw ei chyngor yn cael ei ddilyn bob amser. O ganlyniad, mae beirniadaeth o'r adran weithiau yn adlewyrchu pryderon ehangach am y modd y caiff y sefydliad ei reoli. Cododd yr ymarfer hunanasesu ac arolwg yr undeb gwestiynau difrifol am effeithlonrwydd yr adran adnoddau dynol, yn arbennig amseroldeb, ansawdd a chysondeb y cyngor a roddir. Er bod yr adran wedi rhoi amrywiaeth eang o bolisïau adnoddau dynol ar waith a oedd eu hangen ar gyfer y sefydliad newydd, mae pryderon ynghylch i ba raddau y mae'r rhain wedi'u cymhwyso'n gyson. Mae'r pryderon hyn yn cyferbynnu â gwasanaethau corfforaethol eraill Swyddfa Archwilio Cymru sy'n uchel eu parch yn gyffredinol.

**4.40** Pwysleisiodd Pennaeth yr Adran faint o amser yr oedd wedi'i dreulio'n delio â chwynion unigol, y mae rhai ohonynt wedi bod yn llafurus a hirhoedlog iawn. Mae'r effaith a gafodd cwynion yn y gorffennol yn anghynaliadwy ac yn awgrymu bod angen newid gwirioneddol yn y diwylliant cysylltiadau diwydiannol a rheoli.

**4.41** Mae nifer fach o gwynion yn cynnwys honiadau o fwlio ac aflonyddu. Bu dirywiad hefyd yn y gydberthynas rhwng undeb Prospect a rheolwyr y Swyddfa. Gofynnwyd i ACAS ymyrryd ac mae wedi llunio adroddiad ar ei ganfyddiadau. Mae'n destun pryder bod arolygon undebau llafur a rheolwyr wedi nodi dro ar ôl tro ganfyddiad o fwlio yn Swyddfa Archwilio Cymru ond mae nifer y cwynion a wnaed yn fach iawn. Mae Swyddfa Archwilio Cymru wedi rhoi hyfforddiant gorfodol i bob aelod o staff ar urddas yn y gwaith ac wedi datblygu polisïau a gweithdrefnau gyda chyngor allanol. Mae cylch arall o hyfforddiant wedi'i gynllunio, sy'n gysylltiedig â pholisïau diwygiedig ar urddas yn y gwaith. Yn ganolog i wella canfyddiadau o fwlio bydd camau gweithredu i fynd i'r afael â phroblemau diwylliannol ehangach yn Swyddfa Archwilio Cymru.

**4.42** Daeth y dirywiad mewn gwaith partneriaeth ffurfiol rhwng mis Hydref 2008 a mis Mehefin 2009 i ben yn dilyn cytundeb ffurfiol rhwng y rheolwyr a Prospect. Mae rheolwyr Swyddfa Archwilio Cymru yn cydnabod ei bod yn hanfodol ailsefydlu cydberthnasau gwaith effeithiol â'r ddau undeb, sef Prospect a PCS. Mae'r trafodaethau presennol gyda'r undebau ar gyflog ac olyniaeth yn hollbwysig. Croesawn y camau i ailsefydlu'r Fforwm Partneriaeth a thrafodaethau ar gyflog ac olyniaeth a fydd yn galw am drafodaeth aeddfed, onest a realistig rhwng yr undebau a'r rheolwyr. Mae meithrin cysylltiadau diwydiannol cadarnhaol yn



hollbwysig i adfer ymddiriedaeth y ddwy ochr a mynd i'r afael â'r heriau amrywiol sydd bellach yn wynebu'r sefydliad.

**4.43** Mynegodd yr adran adnoddau dynol bryder ynghylch ei dylanwad yn Swyddfa Archwilio Cymru. Ni chynrychiolir yr adran adnoddau dynol yn uniongyrchol ar y Pwyllgor Rheoli, ac nid yw'r adran wedi chwarae rôl ganolog yn y broses o ddatblygu'r sefydliad cyn y gwaith sy'n mynd rhagddo ar y Mesur Llywodraeth Leol. Credwn y byddai Swyddfa Archwilio Cymru yn cael budd o adran adnoddau dynol sy'n llai o faint ond yn fwy grymus sy'n chwarae rhan fwy strategol, yn enwedig o ran olyniaeth a chynllunio'r gweithlu. Dylai pennaeth adran ar ei newydd wedd fynychu cyfarfodydd y Pwyllgor Gweithredol newydd o leiaf.

**4.44** Mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi cychwyn adolygiad diweddar o rôl ac effeithlonrwydd y swyddogaeth adnoddau dynol i nodi camau gweithredu uniongyrchol y gellir eu cymryd yn y tymor byr i wella ei gweithrediad, a'r gwaith sydd ei angen i fynd i'r afael â materion sy'n galw am ddull gweithredu tymor hwy. Er i'r adolygiad nodi pryderon tebyg i'r rhai a amlinellir yn yr adroddiad hwn, canfu ei arolwg staff fod y rhan fwyaf o'r staff yn fodlon ar y gwasanaeth roeddent yn ei gael gan yr adran adnoddau dynol.

## Strategaeth, rheoli rhaglenni a manteisio ar fudd-daliadau

### Cynllunio strategaethau a rhaglenni

**4.45** Cyhoeddodd Swyddfa Archwilio Cymru ei hail strategaeth dair blynedd ar gyfer 2009 a 2012 yn ddiweddar, yn dilyn cyfnod ymgynghori. Roedd y rhan fwyaf o randdeiliaid y siaradwyd â hwy yn gefnogol o'r strategaeth ond mynegodd lleiafrif rywfaint o bryder nad oedd y strategaeth yn mynd i'r afael yn ddigonol â gwerth am arian Swyddfa Archwilio Cymru ei hun.

**4.46** Er bod dealltwriaeth gymharol dda o'r cyfeiriad strategol ymhob rhan o'r sefydliad, mae bylchau yn y systemau ar gyfer gweithredu. Mae angen i Swyddfa Archwilio Cymru wella'r graddau y mae'r strategaeth i'w gweld yn llywio gweithgarwch drwy'r sefydliad. Yn benodol bydd angen iddi wella prosesau cynllunio busnes drwy feithrin cysylltiadau cliriach gyda'r rhaglen waith a rheoli perfformiad.

**4.47** Mae strategaeth Swyddfa Archwilio Cymru yn llywio cynllun ei rhaglen waith. Mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi mabwysiadu rhaglen hyblyg ac ystwyth i alluogi Swyddfa Archwilio Cymru i ymateb yn gyflym i faterion sy'n dod i'r amlwg. Mae ganddi hanes da yn hyn o beth, gan lunio adroddiadau'n gyflym drwy gynnal arolygiadau o systemau llywodraethu corfforaethol awdurdodau lleol sy'n cael anhawster a thrwy ei gwaith ar Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru.

**4.48** Fodd bynnag, nid yw'r rhaglen wedi'i llunio mewn modd cyfannol ac mae tuedd iddi gael ei llywio gan sector, cleient neu ffrwd waith. Teimlai rhai rhanddeiliaid nad yw'r rhaglen yn ddigon cydlynol yn gyffredinol ac nad oes digon

o resymeg dros ddewis prosiectau ond mae gan Swyddfa Archwilio Cymru enw da am gyflawni prosiectau da. Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn sefydliad digon bach i lunio ac ymgynghori ar gynllun gwaith cyffredinol sy'n nodi'r holl fanteision trawsbynciol posibl sy'n gysylltiedig â chyrhaeddiad Swyddfa Archwilio Cymru ymhob rhan o'r sector cyhoeddus.

**4.49** Er y gofynnir i randdeiliaid roi sylwadau i Bwyllgor Archwilio'r Cynulliad Cenedlaethol ar gynigion pendant ar gyfer astudiaethau y bwriedir iddynt fod yn rhan o Flaenraglen Waith yr Archwilydd Cyffredinol ac fe'u hanogir i wneud sylwadau ac awgrymiadau ar unrhyw adeg ar unrhyw agwedd ar waith Swyddfa Archwilio Cymru, gwnaethant fynegi barn yn gyson y byddai parhau â'r drafodaeth ynghylch cynnwys y rhaglen waith a'r pynciau penodol a gynigiwyd yn ddefnyddiol. Gan gydnabod bod cynnwys rhaglen Swyddfa Archwilio Cymru yn adlewyrchu'r gyfran uchel o wariant cyffredinol Llywodraeth y Cynulliad sydd wedi'i dyrannu i iechyd, awgrymodd rhai rhanddeiliaid y byddai'n ddefnyddiol cael rhesymeg gliriach dros ddewis pynciau a chydbwysedd ehangach y rhaglen.

## Rheoli rhaglenni

**4.50** Dangosodd hunanasesiad Swyddfa Archwilio Cymru, y sesiynau briffio staff a gynhaliwyd a chyfarfodydd eraill â rhanddeiliaid allweddol fod rheoli rhaglenni yn peri pryder sylweddol. Mae'r broses o ddyrannu pobl i brosiectau wedi bod yn destun pryder cyson mewn arolygon staff amrywiol. Ymddengys bod prosesau cynllunio llwyth gwaith yn llawer mwy effeithiol ym maes archwilio ariannol nac archwilio perfformiad, yn rhannol am fod y gwaith archwilio ariannol yn dilyn cylch blynyddol mwy rhagweladwy ac am fod iddo amserlenni penodol y mae'n rhaid i bawb eu cymryd o ddifrif. Yn y dyfodol, ar ôl i'r Mesur Llywodraeth Leol ddod i rym, bydd gwaith perfformiad yn y sector hwnnw hefyd yn dilyn cylch blynyddol mwy rhagweladwy.

**4.51** Hyd yn oed yn dilyn y newidiadau sy'n deillio o'r Mesur, bydd cynllunio a chyflawni'r rhaglen waith archwilio perfformiad yn fwy cymhleth nac archwilio ariannol, a bydd amrywiaeth ehangach o ffactorau'n effeithio ar amseriad y gwaith. Mae dyrannu'r staff cywir i brosiectau archwilio perfformiad, gan sicrhau y codir tâl priodol am amser staff a rheoli amryw o brosiectau ac amserlenni, wedi profi i fod yn anodd.

**4.52** Ailsefydlwyd y Swyddfa Rhaglenni ym mis Ionawr 2008 ac mae wedi awgrymu nifer o welliannau i brosesau cynllunio llwyth gwaith y mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi'u derbyn. Mae gwelliannau wedi'u gwneud i'r broses o fapio cyflenwad a galw am waith a lluniwyd system well o olrhain incwm a'r gwaith a gyflawnir gan Bartneriaid Ymgysylltu. Mae angen parhau i ganolbwyntio ar agweddau eraill ar wella prosesau rheoli rhaglenni, yn enwedig dyrannu staff i brosiectau. Er bod gwaith yn mynd rhagddo i gael dull ffurfiol o ddyrannu staff i brosiectau, caiff prosesau ffurfiol eu hosgoi weithiau drwy drefniadau anffurfiol sy'n diwallu anghenion byrdymor Partneriaid unigol. Mae hyn yn cynnwys dewis 'hufen' y staff ar gyfer prosiectau a dyrannu staff heb roi cyfle iddynt fynegi diddordeb yn y gwaith sy'n cyfrannu at ganfyddiadau o neigaredd a diffyg tryloywder. Er na fydd byth yn bosibl dyrannu pob aelod o staff i bob prosiect y mae ganddo ddiddordeb ynddo, dylai rheolwyr egluro i'r staff y rhesymau pam na chawsant eu dyrannu i brosiectau penodol. Gall goblygiadau'r problemau o ran dyrannu gwaith gynnwys y canlynol:

- **a** rhai unigolion nad ydynt yn cael eu defnyddio'n ddigonol;



b nid yw problemau sylfaenol o ran perfformiad unigolion yn cael eu datrys bob amser;

c mae diffyg tryloywder mewn prosesau dyrannu staff i brosiectau yn golygu nad yw pobl bob amser yn teimlo eu bod yn cael eu trin yn deg.

**4.53** Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn sefydliad uchelgeisiol a blaengar, sydd wedi cyflawni rhai newidiadau effeithiol iawn yn sgîl ei gweithrediadau. Mae'r gwaith i ymsefydlu'r dull o Ddadansoddi Materion a Llunio Casgliadau, gwaith dysgu ar ôl prosiect, y gwasanaeth golygyddol a datblygiad y Gyfnewidfa Arfer Da yn enghreifftiau o arfer da.

**4.54** Mae penodiad Rheolwr Busnes Materion Corfforaethol yn gynnar yn 2009 yn helpu i sicrhau bod y rhaglen gorfforaethol o brosiectau'n cael ei rheoli'n gadarnach er mwyn datblygu meysydd penodol o'r sefydliad neu'i waith. Mae rhai gwendidau wedi bod yn y gorffennol yn y dull o reoli'r rhaglen gorfforaethol ehangach. Er y rhestrir prosiectau corfforaethol ar Fewnrwyd Swyddfa Archwilio Cymru, mae staff yn teimlo bod tuedd gyffredinol wedi bod i ddibynnu ar fentrau penodol i fynd i'r afael â phroblemau arbennig heb ddangos yn glir sut y maent yn cyd-fynd â'i gilydd ac yn cysylltu â nifer fach o flaenoriaethau strategol. Mae'r ymdeimlad hwn wedi cyfrannu at rywfaint o'r ansicrwydd yn y sefydliad lle mae'r staff yn aneglur ynghylch y darlun ehangach, yn enwedig gan fod nifer o brosiectau corfforaethol fel pa baent wedi diflannu ar ôl iddynt fethu cael unrhyw effaith fanteisiol.


## Rheoli perfformiad a mesur effaith

**4.55** Er bod gan Swyddfa Archwilio Cymru Gerdyn Sgorio Cytbwys yn seiliedig ar ymarfer mapio strategaeth a ddefnyddiodd y strategaeth dair blynedd gyntaf, mae'r cerdyn yn cael ei ddatblygu o hyd ac ni chaiff ei ddefnyddio fel adnodd rheoli o ddydd i ddydd ymhob rhan o'r sefydliad. Mae angen i Swyddfa Archwilio Cymru ddatblygu systemau effeithiol i reoli ei pherfformiad, yn arbennig i asesu a mesur effaith, a allai ddefnyddio adborth ar ffurf naratif yn ogystal â gwaith monitro canlyniadau.

**4.56** Ar ôl sefydlu ei hun a datblygu rhannau allweddol o'i seilwaith, mae angen nawr i Swyddfa Archwilio Cymru rannu cynlluniau busnes ategol sy'n ymgorffori'r strategaeth gyffredinol yn gliriach yn rhaglenni gwaith prif rannau ei busnes. Mae datblygu ac integreiddio cynlluniau strategol ategol o'r fath, ynghyd â gwell dulliau o roi gwybod i staff am gynnydd, yn hanfodol er mwyn sicrhau bod pobl yn gwybod sut y gallant gyfrannu at y gwaith o gyflawni'r strategaeth ehangach. Bwriedir i'r prosesau llywodraethu mewnol cryfach fydd yn dod i'r amlwg yn sgîl creu'r Pwyllgor Gweithredol gynnig cyfleoedd sylweddol i ddatblygu'r meysydd hyn.

**4.57** Mae gwybodaeth reoli a phrosesau busnes wedi'u datblygu ers sefydlu Swyddfa Archwilio Cymru ac mae seilwaith sylfaenol ar waith bellach. Dros gyfnod ei strategaeth nesaf, mae angen i Swyddfa Archwilio Cymru wella ei phrosesau ar gyfer llunio, defnyddio a rhannu gwybodaeth reoli, a ategir gan brosesau busnes effeithiol. Yn benodol, dylai cynllunio busnes, monitro perfformiad a gwerthuso gwerth am arian mewnol fod yn flaenoriaethau i'r Pwyllgor Gweithredol newydd.

**Ffigur 6 – Ffynonellau incwm a phrif benawdau gwariant Swyddfa Archwilio Cymru, 2008-09**




*Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru.*

## Y defnydd o adnoddau

**4.58** Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn cael tua £25 miliwn bob blwyddyn gan gymysgedd o gleientiaid sy'n talu ffioedd archwilio, cyfraniadau gan gyflenwyr gwaith archwilio o'r sector cyhoeddus sy'n cynnal archwiliadau ar ran yr Archwilydd Cyffredinol ac arian gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru (**Ffigur 6**). Mae arian gan y Cynulliad Cenedlaethol yn cyfrif am tua 20 y cant o'r incwm i gyd.

**4.59** Yn gyffredinol, daethom i'r casgliad bod Swyddfa Archwilio Cymru yn cael ei chyllido'n gymharol dda, sydd wedi ei galluogi i fuddsoddi yn seilwaith y sefydliad newydd megis swyddfeydd, TGCh a gwasanaethau cymorth.

**4.60** Mae lefelau ffioedd a chost gyffredinol Swyddfa Archwilio Cymru yn feysydd a fydd yn dod yn fwy heriol yn sgîl y newidiadau sydd ar fin digwydd yn y GIG a chyflwyno'r Mesur Llywodraeth Leol. Bydd disgwyl hefyd i Swyddfa Archwilio Cymru barhau i ddangos arweiniad



wrth gyflawni ei heffeithlonrwydd ei hun yn erbyn y pwysau ariannol sylweddol sydd ar Lywodraeth y Cynulliad a chyrff archwiliedig unigol. Fel pob corff cyhoeddus, bydd angen i Swyddfa Archwilio Cymru ddatblygu ei hanes o arloesedd a gwella ei gwasanaethau gan gyflawni effeithlonrwydd sylweddol ar yr un pryd. Gall y pwysau hwn fod yn gyfle i fynd i'r afael â'r heriau sy'n wynebu Swyddfa Archwilio Cymru a amlinellir yn yr adroddiad hwn.

**4.61** Daw'r rhan fwyaf o incwm Swyddfa Archwilio Cymru o ffioedd. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgynghori ar ei raddfeydd ffioedd bob blwyddyn ac mae ganddo drefniadau i safoni ffioedd ar gyfer cyrff cleientiaid unigol cyn cytuno arnynt. Mae gan Swyddfa Archwilio Cymru raglen dreigl gadarn i feincnodi ei ffioedd yn allanol a rhwng Swyddfa Archwilio Cymru a safleoedd cwmnïau. Mae hon yn seiliedig ar fethodoleg gadarn sy'n ystyried ffioedd yng Nghymru yn erbyn sampl o awdurdodau lleol yn Lloegr a'r Alban. Mae'n ystyried amrywiaeth o ffactorau gan gynnwys perfformiad, ffactorau economaidd-gymdeithasol a'r gymhareb gwariant crynswth gan gyrff archwiliedig i ffioedd.

**4.62** Dengys dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru bod ei ffioedd archwilio ac arolygu mewn llywodraeth leol yn debyg i'r ffioedd yn Lloegr a'r Alban. Mae ffioedd Swyddfa Archwilio Cymru wedi aros yn sefydlog rhwng 2005-06 a 2007-08 yn wahanol i Loegr lle cododd y cyfanswm ffioedd 5.7 y cant dros yr un cyfnod. Fodd bynnag, mae ei chyfanswm ffioedd yn gymharol uwch, yn bennaf am fod cyfran yr incwm o waith ardystio grantiau yn llawer uwch (30 y cant) na'r gyfran yn Lloegr (18 y cant) sy'n adlewyrchu'r ffaith bod arian grant yn gyffredin iawn yng Nghymru. Mae incwm Swyddfa Archwilio Cymru o waith ardystio grantiau llywodraeth leol wedi aros yn sefydlog ond cafwyd gostyngiad o 20 y cant mewn incwm o waith ardystio grantiau yn Lloegr. Mae paragraffau 2.31-2.33 ac argymhelliad 17 yn rhoi mwy o wybodaeth am ardystio grantiau.

**4.63** Mae ffioedd archwilio ac arolygu ar gyfer awdurdodau lleol yng Nghymru yn weddol debyg i'r rhai ar gyfer awdurdodau yn Lloegr ac maent wedi cael gradd perfformiad o ddau neu dri gan y Comisiwn Archwilio (mae'r raddfa yn mynd o sero i bedair seren) yn yr Asesiad Perfformiad Cynhwysfawr. Fel yn yr Alban, gostyngodd ffioedd fel cyfran o wariant crynswth awdurdodau o oddeutu 10 y cant rhwng 2005-06 a 2007-08 er i wariant crynswth awdurdodau gynyddu tua 11 y cant dros yr un cyfnod. Yn Lloegr, bu gostyngiad o 4.4 y cant mewn ffioedd fel cyfran o wariant crynswth awdurdodau dros yr un cyfnod. Nid yw cyfanswm incwm ffioedd Swyddfa Archwilio Cymru wrth awdurdodau lleol wedi cynyddu dros yr un cyfnod er bod ffioedd rhai awdurdodau unigol wedi cynyddu wrth i eraill ostwng.

**4.64** Mae Ymddiriedolaethau'r GIG yng Nghymru yn talu ffioedd sy'n weddol debyg i'r rhai a delir gan Ymddiriedolaethau yn Lloegr a dyfarnwyd bod y rhain yn ardderchog neu'n dda gan y Comisiwn Gofal Iechyd ac fe'u harchwiliwyd gan y Comisiwn Archwilio. Yn sgîl ad-drefnu'r GIG yng Nghymru bydd angen i Swyddfa Archwilio Cymru ddatblygu graddfeydd ffioedd newydd ar gyfer y byrddau iechyd integredig. Mae hwn yn gyfle pwysig i ddatblygu ffioedd o'r newydd.

**4.65** Etifeddodd Swyddfa Archwilio Cymru nifer o ffrydiau incwm a threfniadau ar gyfer pennu ffioedd. Canmolwn Swyddfa Archwilio Cymru am ei dull o feincnodi a'i dealltwriaeth o'i ffioedd. Er hynny, credwn fod lle i ostwng ffioedd y tu hwnt i'r targed effeithlonrwydd cronnol blynyddol o un y cant y mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi'i gymhwyso o'i wirfodd i Swyddfa Archwilio Cymru ac y mae'r Swyddfa wedi rhagori arno

bob blwyddyn. Yn arbennig, mae angen i Swyddfa Archwilio Cymru ddatblygu ei gwaith yn y meysydd canlynol:

**a** ymarfer seiliedig ar sero i gostio archwiliad ariannol er mwyn sicrhau bod gwell dealltwriaeth o gost archwiliad a mwy o gysondeb o ran ffioedd a allai arwain at gynnydd neu ostyngiad mewn ffioedd unigol; yn arbennig mae angen cyfrifo cost seiliedig ar sero ar gyfer archwiliadau ariannol i'r Byrddau Iechyd Lleol newydd;

**b** fel rhan o'r ymarfer hwn, ystyried a allai unrhyw agweddau ar y gyfundrefn symleiddio'r gofynion archwilio heb amharu ar effeithiolrwydd;

**c** cyfrannu at unrhyw adolygiad gan Lywodraeth y Cynulliad o grantiau, er mwyn ystyried y gwerth a ychwanegir gan lwyth y gwaith ardystio grantiau a wneir gan Swyddfa Archwilio Cymru mewn ymateb i geisiadau gan sefydliadau sy'n rhoi'r grantiau (gweler paragraffau 2.31-2.33);

**ch** gan adeiladu ar ddatblygiad ei dull o feincnodi ffioedd, datblygu trefniadau cadarn tebyg i herio cyllidebau ar gyfer prosiectau eraill, megis astudiaethau a phrosiectau corfforaethol.

**4.66** Yng nghyd-destun heriau economaidd presennol a'r rhai sy'n debygol o godi yn y dyfodol, mynegodd rhai rhanddeiliaid allanol bryder cyffredinol y dylai Swyddfa Archwilio Cymru fod yn fwy gweladwy o ran dangos ei gwerth am arian ei hun. Credwn fod lle i Swyddfa Archwilio Cymru ganolbwyntio'n gryfach ar ddangos ei darbodusrwydd, ei heffeithlonrwydd a'i heffeithiolrwydd ei hun. Mae gan ei hadran archwilio mewnol a'r Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg rôl allweddol i'w chwarae yn y broses hon. Byddai'n ddefnyddiol pe bai Swyddfa Archwilio Cymru yn rhoi mwy o sylw i'w heffeithlonrwydd a'i darbodusrwydd mewn adroddiadau nawr bod y sefydliad wedi dod drwy'r cam cychwynnol o sefydlu a datblygu ei systemau a'i seilwaith.

**4.67** Hefyd, ychydig iawn o gronfeydd ariannol wrth gefn sydd gan Swyddfa Archwilio Cymru i'w helpu i wynebu'r heriau sylweddol i'w sefyllfa ariannol dros y ddwy neu dair blynedd nesaf. Defnyddiwyd ei chronfeydd wrth gefn i dalu costau sylweddol ac annisgwyl y gwaith o symud holl staff y cyn-Gomisiwn Archwilio yng Nghymru i Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil yn dilyn yr uno â'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol yng Nghymru.

**4.68** Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn gwneud gwaith cynllunio senarios i ddatblygu strategaeth ariannol fanwl, a ategir gan gynlluniau ariannol sy'n cynnwys cynlluniau gostwng costau penodol mewn amryw o senarios incwm posibl. Yn gyffredinol, mae'n debyg y bydd incwm Swyddfa Archwilio Cymru yn cynyddu yn ystod y flwyddyn ariannol gyfredol; bydd gwaith archwilio yn cyrraedd penllanw yn ystod y broses o ad-drefnu'r GIG, sy'n cynnwys dwy gyfres o gyfrifon yn ystod y flwyddyn ariannol bresennol. Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd y llwyth gwaith yn lleihau o flwyddyn ariannol 2010-11 ymlaen, ac mae ansicrwydd ychwanegol am lefelau ffioedd ar gyfer y Byrddau Iechyd newydd a'r goblygiadau ariannol sy'n gysylltiedig â'r Mesur Llywodraeth Leol.



# Pennod 5 – Cydberthnasau â rhanddeiliad

5.1 Wrth gyfweld ag amrywiaeth eang o randdeiliaid allanol o Wasanaeth Cyhoeddus Cymru, gwelwyd bod gan Swyddfa Archwilio Cymru ydberthnasau da ar y cyfan â'i rhanddeiliaid a'i bod wedi ennill enw iddi ei hun fel sefydliad uchel ei barch sy'n rhoi sicrwydd a gwybodaeth annibynnol ac awdurdodol am wasanaethau cyhoeddus.

## Cynulliad Cenedlaethol Cymru

5.2 Gwnaethom gyfarfod â chyn-gadeirydd a chadeirydd presennol Pwyllgor Archwilio'r Cynulliad Cenedlaethol, sy'n un o randdeiliaid allweddol Swyddfa Archwilio Cymru. Mynegodd y ddau ohonynt farn gadarnhaol iawn ynghylch gwaith Swyddfa Archwilio Cymru ac ansawdd eu cydberthynas â'r Archwilydd Cyffredinol. Gwnaethant gyfeirio at hygrededd, enw da ac annibyniaeth yr Archwilydd Cyffredinol, ansawdd cynhyrchion penodol gan Swyddfa Archwilio Cymru, gan gynnwys ei gwaith ar wasanaethau ambiwlans a'r Gyfnewidfa Arfer Da yn benodol.

> **"Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn darparu adroddiadau ardderchog sy'n drylwyr, yn annibynnol ac o ansawdd uchel ac mae'r Archwilydd Cyffredinol yn darparu gwasanaeth o'r radd flaenaf. Mae angen cael y cydbwysedd cywir rhwng y Pwyllgor yn gwneud penderfyniadau ar ei waith ei hun a'r gydberthynas â'r Archwilydd Cyffredinol. Eleni bu newid sylweddol o fodel gweithredu blaenorol y Pwyllgor, gan symud tuag at ddull gweithredu Pwyllgor Archwilio Cyhoeddus Senedd yr Alban. Fel arfer, mae hyn wedi golygu bod y Pwyllgor wedi dewis cynnal ymchwiliad llawn yn hytrach na llunio un adroddiad, ond mae'r ffaith bod mwy o hyblygrwydd o ran opsiynau yn sicr o gymorth i'r Pwyllgor."**
>
> *Jonathan Morgan, AC, Cadeirydd Pwyllgor Archwilio Cynulliad Cenedlaethol Cymru*

5.3 Croesawn ddatblygiad trefniadau gweithio newydd y Pwyllgor, sy'n seiliedig ar y model a weithredir gan Bwyllgor Archwilio Cyhoeddus Senedd yr Alban. Mae'r trefniadau newydd yn ymestyn dull gweithredu'r Pwyllgor drwy ddarparu ystod ehangach o opsiynau ar gyfer ystyried adroddiadau'r Archwilydd Cyffredinol a chraffu arnynt. Mae'n anochel y bydd y trefniadau'n cymryd amser i ennill tir yn llawn, ond rydym o'r farn eu bod yn cynnig cyfleoedd i wella effaith y Pwyllgor Archwilio a Swyddfa Archwilio Cymru.

5.4 Gallai'r Pwyllgor ddatblygu ei rôl o ran rhoi sylwadau ar raglen waith yr Archwilydd Cyffredinol. Yn draddodiadol, mae'r Archwilydd Cyffredinol yn cyflwyno papur sy'n cynnwys opsiynau ar gyfer astudiaethau posibl yn yr hydref, ond byddai'n fanteisiol cael trafodaeth fwy rheolaidd am waith posibl, yn arbennig o gofio awydd yr Archwilydd Cyffredinol i fod yn hyblyg ac yn ymatebol. Gallai trafodaeth amlach helpu'r Pwyllgor i ymestyn ei effaith, lleihau canfyddiadau y rhoddir gormod o bwyslais ar waith iechyd, a datblygu proffil y Pwyllgor hefyd.

## Llywodraeth Cynulliad Cymru

5.5 Gwnaethom gyfarfod â Phrif Weinidog Cymru a thri o Weinidogion eraill Llywodraeth y Cynulliad. Canfuwyd bod gan y Gweinidogion farn gadarnhaol yn gyffredinol am Swyddfa Archwilio Cymru, ond roedd rhai pryderon o fewn y sector iechyd.

**5.6** Tynnodd y Gweinidogion sylw at nifer o feysydd ffocws defnyddiol i Swyddfa Archwilio Cymru eu hystyried yn y dyfodol:

**a** parhau i weithio gyda chyrff adolygu allanol eraill i ddefnyddio dull mwy cydgysylltiedig a chydlynol o archwilio ac arolygu yn gyffredinol, yn enwedig yr angen i ddatblygu:

**i** prosesau cynllunio cyffredin;

**ii** gwell dulliau o rannu gwybodaeth;

**iii** ffyrdd o leihau'r baich a chynyddu'r gwerth a ychwanegir gan adolygiadau allanol drwy gyfrwng camau ymyrryd sy'n fwy cymesur â pherfformiad;

**iv** rhoi ffocws cryfach ar ganlyniadau yn ogystal â mewnbynnau ac allbynnau;

**v** systemau i helpu i nodi achosion o ddiffygion gwasanaeth posibl neu ddiffygion sydd ar fin digwydd yn gynt, a chymryd camau ymyrryd.

**b** rhoi ffocws cryfach ar feincnodi gwerth am arian, effeithlonrwydd ac arfer da i hybu arloesedd a goresgyn problemau sy'n deillio o amrywiadau annerbyniol ym mherfformiad gwasanaethau cyhoeddus;

**c** yn gyson â Datganiad Polisi Llywodraeth y Cynulliad ar Archwilio, Arolygu a Rheoleiddio, a'r Mesur Llywodraeth Leol, yr angen i ategu gwelliannau i brosesau caffael a gallu sefydliadau i hunanasesu eu perfformiad mewn modd gwrthrychol a thryloyw.

**5.7** Gwnaethom gyfarfod â nifer o uwch weision sifil yn Llywodraeth y Cynulliad, gan gynnwys yr Ysgrifennydd Parhaol. Ar y cyfan roeddent yn fodlon ar eu hymgysylltiad ag uwch bersonél Swyddfa Archwilio Cymru a gwnaethant ddweud bod y gydberthynas rhyngddynt yn dda ac yn gwella. Fel rhan o'r adborth hwn a oedd yn gadarnhaol ar y cyfan, tynnodd yr uwch weision sifil sylw at nifer o bwyntiau i'r dyfodol:

**a** Peth pryder ynghylch a oedd Swyddfa Archwilio Cymru wedi llwyddo i gyflawni'r holl fanteision posibl o'i sefydlu. Mae lle i Swyddfa Archwilio Cymru gyflawni'r manteision sy'n gysylltiedig â chorff archwilio unigol yn fwy cyson, yn enwedig gwaith systemau cyfan sy'n adeiladu ar enghreifftiau llwyddiannus o waith trawsbynciol ac yn eu hymestyn. Hefyd, bydd newidiadau ym maes llywodraethu yng Nghymru, yn enwedig datblygiad Byrddau

> **"Bydd angen newid diwylliant i ailsaernïo gwasanaeth cyhoeddus Cymru a dull gweithredu mwy aeddfed mewn perthynas ag arian a pherfformiad cyrff cyhoeddus. Mae'r argyfwng economaidd presennol hefyd yn rhoi cyfle i newid diwylliant gwasanaeth y sector cyhoeddus a all helpu i feithrin gallu yn sefydliadau gwasanaeth cyhoeddus Cymru i ad-drefnu'r ffordd y maent yn perfformio ac yn mesur perfformiad. Hoffwn ystyried Swyddfa Archwilio Cymru fel rhan o'r agenda gyfan ar gyfer cael gwell gwerth o arian Cymru, nid yn unig drwy wella effeithlonrwydd, ond drwy newid y modd y darperir gwasanaethau, gan rannu arfer da ac arloesedd a chael awdurdodau lleol, y GIG a phartneriaid eraill i gydweithio i ailgynllunio gwasanaethau."**
>
> *Y Gwir Anrh. Rhodri Morgan AC, Prif Weinidog Cymru*



> **"Mae Swyddfa Archwilio Cymru wedi ennill enw da iddi ei hun fel corff hyddysg ac annibynnol sy'n gwerthuso gwasanaethau cyhoeddus Cymru ac, yn haeddiannol, caiff ei barn ei hystyried yn awdurdodol ar y cyfan."**
>
> *Dr Brian Gibbons AC, Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol*

Gwasanaethau Lleol a'r agenda gydweithredol, yn galw am fabwysiadu dulliau newydd o archwilio ac arolygu, gan ganolbwyntio'n arbennig ar ganlyniadau.

**b** Roedd meincnodi, arfer da ac effeithlonrwydd yn bryderon pwysig, yn enwedig adrodd ar berfformiad cymharol yng Nghymru a thu hwnt a'r cyfle i roi safbwynt cliriach ar berfformiad ymhob rhan o wasanaeth cyhoeddus Cymru.

**c** Datblygu rhaglen waith Swyddfa Archwilio Cymru i ategu'r agenda ehangach ar gyfer gwella gwasanaethau cyhoeddus ac effeithlonrwydd; efallai y bydd hyn yn galw am lai o waith sy'n canolbwyntio ar raglenni penodol a mwy o waith sy'n edrych ar bob rhan o'r gwasanaeth cyhoeddus.

> **"Mae gan Swyddfa Archwilio Cymru ran allweddol i'w chwarae o ran arwain dull mwy integredig o archwilio, arolygu a rheoleiddio sy'n dechrau ymddangos drwy'r Fforwm Penaethiaid Arolygiaethau."**
>
> *Andrew Davies AC, Y Gweinidog dros Gyllid a Chyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus*

**ch** Cydgysylltu gwaith arolygu, archwilio a rheoleiddio, gyda'r nod o fynd ati ar y cyd i helpu i nodi diffygion gwasanaeth posibl yn gynt.

**d** Nodi a rhannu arfer da o Gymru a thu hwnt, a defnyddio cyrhaeddiad Swyddfa Archwilio Cymru i sicrhau y mabwysiadir arfer da yn gyflymach.

**5.8** Roedd yr adborth cyffredinol a gafwyd gan y Llywodraeth yn gadarnhaol, ond mynegodd uwch randdeiliaid o'r GIG rai pryderon penodol am waith Swyddfa Archwilio Cymru yn y sector hwnnw. Mae hyn yn arwyddocaol o gofio bod y GIG yn cael effaith sylweddol ar fywydau pobl ac mae'n fater sensitif o safbwynt gwleidyddol o gofio gwerth y gwasanaeth i ddinasyddion. Mae ei wariant yn cyfrif am tua 40 y cant o wariant Llywodraeth y Cynulliad. Mynegodd uwch randdeiliaid o'r GIG rai pryderon am:

**a** yr amser y mae wedi'i gymryd yn y gorffennol i gadarnhau cywirdeb adroddiadau. Mae protocol newydd y mae Swyddfa Archwilio Cymru a Llywodraeth y Cynulliad wedi cytuno arno yn mynd i'r afael â hyn;

**b** er y trafodir cynnwys datganiadau i'r wasg yn rheolaidd â swyddogion, credwyd bod cywair datganiadau Swyddfa Archwilio Cymru i'r wasg yn tynnu sylw at beth aeth o'i le;

**c** diffyg trafodaeth gynnar am raglen iechyd Swyddfa Archwilio Cymru;

**ch** lle i wneud gwell gwaith cydgysylltu a chydlynu gyda chyrff archwilio ar arolygu eraill yn y GIG drwy'r Concordat.

## Cyrff archwilio ac arolygu eraill

**5.9** Canfuwyd bod y cydberthnasau rhwng Swyddfa Archwilio Cymru ac asiantaethau archwilio, arolygu a gwella eraill yn dda ar y cyfan. Ceir llawer o enghreifftiau o gydweithredu rhwng Swyddfa Archwilio Cymru ac Estyn wrth arolygu Awdurdodau Addysg Lleol, yr astudiaethau cenedlaethol a gynhaliwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol, a hyfforddiant staff. Mae Swyddfa Archwilio Cymru a'r Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi cydweithio ar ddau gylch o Gydadolygon o Wasanaethau Cymunedol, a chynhaliwyd nifer o gydbrosiectau ag Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru. Ceir sawl enghraifft arall o gydweithredu, er enghraifft cyfraniadau i astudiaethau cenedlaethol drwy baneli arbenigol neu rannu gwybodaeth. Cafodd proffesiynoldeb staff Swyddfa Archwilio Cymru a thrylwyredd ei gwaith eu canmol yn gyffredinol gan y cyrff adolygu allanol eraill.

**5.10** Clywsom fod y Fforwm Penaethiaid Arolygiaethau yn ceisio pennu diben cliriach ar gyfer mynd i'r afael â'r pryder eang am weithgarwch adolygu allanol sydd wedi'i gydgysylltu'n wael. Roedd hyn yn elfen amlwg o'r egwyddorion a amlinellir yn Natganiad Polisi drafft Llywodraeth y Cynulliad ar Archwilio, Arolygu a Rheoleiddio. Ymddengys mai'r blaenoriaethau allweddol yw gwelliannau mewn prosesau cynllunio strategol a busnes rhwng y cyrff adolygu allanol, cydbrosiectau mwy effeithiol â chysylltiadau gwell rhwng gwaith y mae'r cyrff amrywiol yn ei wneud yn unigol neu ar y cyd. Credwn fod gan y cyrff adolygu allanol, drwy'r Fforwm Penaethiaid Arolygiaethau, ddiben cyffredin cryfach bellach. Nodwyd cyfle arbennig i'r cyrff adolygu allanol amrywiol drafod yn fwy effeithiol gynnwys eu rhaglenni gwaith perthnasol.

> **"Mae angen i Swyddfa Archwilio Cymru gymryd camau mwy rhagweithiol i hyrwyddo arfer da ac esiamplau, gan roi pwyslais cryfach ar effeithlonrwydd, y defnydd a wneir o adnoddau a gwerth am arian. Ym maes iechyd, mae cyfle arbennig i ystyried arbedion effeithlonrwydd a gwerth am arian, gan ddefnyddio diffiniad cyffredinol o werth am arian sy'n cydnabod nad yr opsiwn mwyaf effeithiol yw'r rhataf bob amser o ran gwerth i'r dinesydd."**
>
> *Edwina Hart MBE AC, Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol*

**5.11** Gwelwyd mai ym maes iechyd yr oedd y cyfle mwyaf i wella, lle mae cyfle sylweddol i'r cyrff adolygu allanol amrywiol fabwysiadu dull mwy cydgysylltiedig o arolygu ac archwilio drwy weithredu'r *Concordat Rhwng y Corfforaethau sydd yn Arolygu, Rheoli ac yn Archwilio Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru* yn fwy effeithiol[10]. Mae cyfleoedd amlwg i wella cydberthynas Swyddfa Archwilio Cymru â'r Asiantaeth Genedlaethol Arwain ac Arloesi mewn Gofal Iechyd (NLIAH), fel y gellir rhannu data yn fwy effeithiol ac i NLIAH feithrin gallu i helpu i weithredu argymhellion Swyddfa Archwilio Cymru. Nid yw'r cydberthnasau rhwng y ddau sefydliad wedi bod yn ddigon agos yn y gorffennol i ategu dull gweithredu o'r fath.

10 http://www.walesconcordat.org.uk/Documents/591/concordat-e.pdf



## Cyflenwyr archwilio

**5.12** Gwnaethom siarad â phartneriaid o bob un o'r tri phrif gyflenwr sy'n darparu gwasanaethau archwilio i gyrff yn y sector cyhoeddus yng Nghymru o dan gontractau fframwaith â Swyddfa Archwilio Cymru. Gwelwyd bod gan y cyflenwyr farn gadarnhaol am Swyddfa Archwilio Cymru ar y cyfan, a gwnaethant dynnu sylw at brosesau effeithiol ar gyfer gosod contractau a monitro contractau a chydberthnasau da ag uwch staff Swyddfa Archwilio Cymru. Roedd ganddynt farn gadarnhaol hefyd am y modd y gweithredir y dull Dadansoddi Materion a Llunio Casgliadau, y Gyfnewidfa Arfer Da ac astudiaethau cenedlaethol penodol.

**5.13** Mynegodd cyflenwyr rai pryderon ynghylch a oeddent wedi'u hintegreiddio'n gyson yn rhan o dîm Swyddfa Archwilio Cymru i'r graddau y gallent. Tynnodd cyflenwyr sylw at y cyfle i'w cynnwys yn llawnach yn y broses o ddatblygu syniadau ar gyfer strategaeth a rhaglen waith Swyddfa Archwilio Cymru, ac roeddent o'r farn y gellir cysylltu'r rhaglen waith hon yn gliriach â strategaeth. Mynegodd cyflenwyr farn hefyd nad oedd eu harbenigedd a'u gallu o ran datblygu cynnyrch yn cael eu defnyddio cystal ag y gallent.

**5.14** Roedd cefnogaeth gyffredinol i'r cynllun Peilot ar yr Archwilydd Penodedig Unigol, ond cyfeiriodd cyflenwyr at ddulliau eraill i wella cysondeb yng nghyfundrefn yr Archwilydd Cyffredinol, megis fforwm technegol cryfach. Fodd bynnag, er bod y materion hyn yn codi yn holl waith Swyddfa Archwilio Cymru, roedd peth pryder hefyd ynghylch rhoi'r trefniant ar waith yn ymarferol, er enghraifft pe bai materion technegol anodd yn codi neu pe bai'r Archwilydd Penodedig Unigol yn gorchymyn cwmni i wneud rhywbeth na allai ei swyddogaeth gydymffurfio fewnol ei gefnogi.

**"Mae angen cryfhau prosesau cymharu perfformiad yng Nghymru sydd wedi tueddu i edrych ar berfformiad yn fewnol yn unig. Rhaid i waith cynllunio strategol gael ei ategu gan bwyslais cryf ar werth am arian ac effeithlonrwydd. Mae staff Swyddfa Archwilio Cymru yn hyddysg yn y maes ac yn barod eu cymorth. Mae angen gwneud mwy o waith ar y Concordat. Mewn cyfnodau o ddatblygiadau cyflym, mae angen cwblhau astudiaethau'n gyflymach fel eu bod yn amserol. Gall y cysyniad o archwiliad 'amser real' fod yn ddefnyddiol i greu darlun er mwyn cefnogi newid cyflymach."**

*Mike Ponton, Cyfarwyddwr,*
*Cydffederasiwn y GIG yng Nghymru*

## Cleientiaid

**5.15** Yn ogystal â chleientiaid llywodraeth ganolog (paragraffau 5.2-5.8), gwnaethom siarad â nifer fach o gleientiaid lleol Swyddfa Archwilio Cymru a'u cynrychiolwyr. Mewn llywodraeth leol, gwnaethom gyfarfod â Phrif Weithredwr un Cyngor lle roedd Swyddfa Archwilio Cymru wedi gwneud gwaith sylweddol, a Phrif Weithredwr Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Ac ym maes iechyd, gwnaethom gyfarfod â Chyfarwyddwr Cydffederasiwn y GIG yng Nghymru a Chadeirydd Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru a oedd wedi gweithio'n helaeth gyda Swyddfa Archwilio Cymru. Gwnaethom hefyd ystyried adborth gan gleientiaid Swyddfa Archwilio Cymru ei hun.

**5.16** Yn gyffredinol roedd safbwyntiau cadarnhaol am waith Swyddfa Archwilio Cymru. Canmolodd Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru y modd trylwyr a sensitif roedd Swyddfa Archwilio Cymru wedi ymdrin â'i hadolygiadau o'r Ymddiriedolaeth ac ansawdd ei gwaith. Tynnodd sylw at y dull o Ddadansoddi Materion a Llunio Casgliadau, y grwpiau ffocws a gynhaliwyd â staff a'r defnydd a wnaed o baneli arbenigol. Argraff Cydffederasiwn y GIG yw bod pobl yn teimlo bod Swyddfa Archwilio Cymru yn darparu gwasanaethau llawer gwell a mwy priodol na'r sefydliadau a'i rhagflaenodd: mae ei staff yn gyfarwydd â'r maes ac yn barod i helpu. Mae angen gwneud mwy o waith ar y Concordat i ddatblygu dull mwy cydgysylltiedig o weithredu, ac mae angen cyflawni astudiaethau yn gyflymach fel eu bod yn amserol. Gall y cysyniad o archwiliad 'amser real' fod yn ddefnyddiol i lunio darlun er mwyn sicrhau newidiadau cyflymach, yn enwedig yng nghyd-destun ad-drefnu'r GIG.

**5.17** Yn y llywodraeth leol, clywsom am gydberthnasau cefnogol a chadarnhaol iawn i helpu'r awdurdodau lleol i wella, ond roedd mwy o gydgysylltu ym maes gweithgarwch adolygu allanol yn bryder allweddol. Teimlwyd bod gan y Mesur Llywodraeth Leol y potensial i ddarparu dull mwy cymesur a chydgysylltiedig o arolygu llywodraeth leol, er y bu rhai pryderon am y posibilrwydd o golli gwaith â ffocws lleol a'r bwriad i ddiddymu rôl y Rheolwr Cydberthynas.

## Dinasyddion a'r cyfryngau

**5.18** Mae Swyddfa Archwilio Cymru wedi datblygu rhai dulliau effeithiol o ymgysylltu â dinasyddion, yn enwedig drwy ei gwaith gohebu, ei gwefan a'i gwaith ymgysylltu uniongyrchol ar astudiaethau cenedlaethol amrywiol. Cynhaliodd wyth gwrandawiad cyhoeddus hefyd ledled Cymru fel rhan o'r ymchwiliad ambiwlans gwreiddiol. Er bod y rhain yn enghreifftiau o arfer da, mae Swyddfa Archwilio Cymru yn ymwybodol o'r angen i ddatblygu dull mwy cyson o ymgysylltu â dinasyddion fel rhan o'i gwaith. Mae nifer o brosiectau ar y gweill i wella'r modd y mae'n ymgysylltu â dinasyddion.

**5.19** Mae gan Swyddfa Archwilio Cymru ddulliau cyfathrebu effeithiol a chydberthnasau da â'r cyfryngau. Mae'r tîm Cyfathrebu wedi ennill dwy wobr allanol, ac mae Bwrdd yr Iaith Gymraeg wedi canmol Swyddfa Archwilio Cymru am waith dwyieithog o ansawdd; cyfeiriodd y Bwrdd at wefan Swyddfa Archwilio Cymru fel enghraifft o arfer gorau ym maes dwyieithrwydd.

**5.20** Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn llunio Llythyr Archwilio Blynyddol ar gyfer pob un o'i chleientiaid. Mewn llywodraeth leol, caiff y Llythyr Blynyddol ei ddisodli gan y trefniadau adrodd newydd o dan y Mesur Llywodraeth Leol. Mae'r llythyrau blynyddol yn ddogfennau cyhoeddus cynhwysfawr ond mae eu fformat yn golygu bod perygl y caiff pwysigrwydd pwyntiau unigol eu hanwybyddu gan fod y dogfennau yn cynnwys cymaint o ddeunydd cefndirol. Mae hyn yn cyferbynnu ag allbynnau eraill Swyddfa Archwilio Cymru sy'n dilyn y dull Dadansoddi Materion a Llunio Casgliadau yn gliriach. Tynnodd nifer o randdeiliaid, mewn cyrff unigol ac ymhob un o'r sectorau, sylw at yr anhawster wrth ganfod y materion allweddol yn y llythyrau



blynyddol. Ceir dadl gref dros gynnwys dogfen fer a chryno sy'n hawdd ei deall yn y llythyr, sy'n tynnu sylw at y prif faterion y mae angen ymdrin â hwy ar unwaith.

**5.21** Yn ystod y cyfnodau anodd sy'n wynebu gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, bydd ymgysylltu mewn modd effeithiol ac amserol â'r cyhoedd wrth wneud penderfyniadau allweddol am gynllunio a darparu gwasanaethau yn hollbwysig. Efallai y byddai'n ddefnyddiol pe bai Swyddfa Archwilio Cymru, heb lesteirio creadigrwydd lleol, yn darparu rhyw fath o arweiniad cenedlaethol ar arfer gorau ym maes ymgysylltu â'r cyhoedd, gan ddefnyddio arfer gorau o'r tu allan i Gymru.

# Atodiad 1 – Cylch Gorchwyl yr Adolygiad Cymheiriaid

## Cwmpas

1 Bydd yr adolygiad yn asesu effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd Swyddfa Archwilio Cymru, yn arbennig i ba raddau y mae'n cyflawni'r canlyniadau sydd eu heisiau ar gyfer ei rhanddeiliaid. Dylai'r adolygiad edrych i'r dyfodol ac ystyried camau ymarferol y gall Swyddfa Archwilio Cymru eu cymryd i barhau i ddatblygu ei gwasanaethau, ei sefydliad a'i phobl.

2 Dylai'r adolygiad drafod y penawdau cyffredinol a nodir yn **a**, **b** a **c** isod. O dan bob pennawd ceir cyfres o is-faterion y gallai Tîm yr Adolygiad Cymheiriaid eu defnyddio i ddewis nifer o feysydd penodol i roi sylw manylach iddynt:

- **a** Ansawdd, effeithiolrwydd ac effaith y gwasanaethau allanol a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n cynnwys:
  - **i** gwaith archwilio ariannol, gan gynnwys ardystio grantiau a'r casgliad am werth am arian;
  - **ii** llywodraethu a thwyll;
  - **iii** gwaith arolygu ac archwilio perfformiad, gan gynnwys gwaith archwilio perfformiad lleol, astudiaethau cenedlaethol a awdurdodwyd ac adroddiadau gwerth am arian a gyflwynwyd gerbron y Cynulliad Cenedlaethol;
  - **iv** y Gyfnewidfa Arfer Da a rhannu dysgu.
- **b** Y broses o redeg Swyddfa Archwilio Cymru, a allai gynnwys:
  - **i** effeithiolrwydd trefniadau i ategu dysgu a gwelliant;
  - **ii** rheoli a datblygu staff a'r swyddogaeth adnoddau dynol;
  - **iii** arweinyddiaeth, strategaeth a chyfeiriad;
  - **iv** systemau rheoli ansawdd, trefniadau ar gyfer rhoi gwaith archwilio ar gontract a threfniadau cydymffurfio;
  - **v** gwaith rheoli ariannol, pennu a monitro ffioedd archwilio a'r defnydd a wneir o adnoddau;
  - **vi** rheoli rhaglenni – dewis prosiectau, trefnu adnoddau a dyrannu gwaith – gan gynnwys ymatebolrwydd trefniadau o'r fath;
  - **vii** trefniadau llywodraethu.
- **c** Effeithiolrwydd cydberthnasau allanol, cyfathrebu a chydberthnasau â rhanddeiliaid. Gellid canolbwyntio ar un neu ragor o'r canlynol:
  - **i** y Cynulliad Cenedlaethol;
  - **ii** Llywodraeth y Cynulliad;
  - **iii** llywodraeth leol;
  - **iv** y GIG;
  - **v** cyrff adolygu allanol eraill yng Nghymru a thu hwnt;
  - **vi** effeithiolrwydd yr ymagwedd gyffredinol at gyfathrebu allanol, llunio adroddiadau a defnyddio'r Rhyngrwyd.

## Cynhyrchion

3 Bydd yr Adolygiad Cymheiriaid yn llunio adroddiad sy'n cynnwys casgliadau, canfyddiadau ac argymhellion Tîm yr Adolygiad ar gyfer gwella.



## Amseru

**4** Bydd yr Adolygiad Cymheiriaid yn dechrau ym mis Mawrth 2009 a bydd yn cyflwyno ei adroddiad erbyn 30 Mehefin 2009 fan bellaf. Cwblhaodd tîm yr Adolygiad Cymheiriaid y cyfweliadau gwaith maes olaf ar 19 Mehefin. Gwnaethom roi adroddiad i'r Archwilydd Cyffredinol ar ein canfyddiadau cychwynnol ym mis Mehefin 2009 a gwnaethom gyhoeddi ein hadroddiad terfynol ym mis Medi 2009.

# Atodiad 2 – Cynnal yr Adolygiad Cymheiriaid

## Cylch gorchwyl

1 Roedd gan yr Adolygiad Cymheiriaid gylch gorchwyl eang i asesu effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd Swyddfa Archwilio Cymru, yn arbennig i ba raddau y mae'n cyflawni'r canlyniadau sydd eu heisiau ar gyfer ei rhanddeiliaid. Roedd disgwyl i'r adolygiad edrych i'r dyfodol ac ystyried camau ymarferol y gallai Swyddfa Archwilio Cymru eu cymryd i barhau i ddatblygu ei gwasanaethau, ei sefydliad a'i phobl.

2 Roedd y cylch gorchwyl (**Atodiad 1**) wedi'i rannu'n dair rhan:

- **a** ansawdd, effeithiolrwydd ac effaith y gwasanaethau allanol a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru;
- **b** y broses o redeg Swyddfa Archwilio Cymru;
- **c** effeithiolrwydd cydberthnasau allanol, cyfathrebu a chydberthnasau â rhanddeiliaid.

3 Cynhaliodd Swyddfa Archwilio Cymru ymarfer hunanasesu trylwyr i lywio'r Adolygiad Cymheiriaid. Galluogodd hyn dîm yr Adolygiad Cymheiriaid i ddibynnu ar yr hunanasesiad i fodloni agweddau penodol ar ei gylch gorchwyl a chanolbwyntio ei sylw ar feysydd penodol. Roedd yr hunanasesiad yn ymarfer hynod o drylwyr a oedd yn cynnwys grwpiau ffocws y cymerodd 135 o aelodau o staff ran ynddynt, hunanasesiadau gan bob rhan o Swyddfa Archwilio Cymru a chyfweliadau â 46 o staff. Yn ogystal dadansoddodd a chasglodd yr hunanasesiad amrywiaeth eang o dystiolaeth ddogfennol a data a oedd ar gael i dîm yr Adolygiad Cymheiriaid.

## Cwmpas

4 Gofynnodd yr Archwilydd Cyffredinol i dîm yr Adolygiad Cymheiriaid bennu'r meysydd penodol yr hoffai ganolbwyntio arnynt, yn seiliedig ar ddiwrnod sefydlu hynod o ddefnyddiol a chanlyniad hunanasesiad Swyddfa Archwilio Cymru.

5 Dim ond adborth eilaidd gan randdeiliaid allanol a ddefnyddiwyd yn yr hunanasesiad, a oedd yn golygu bod yr Adolygiad Cymheiriaid wedi canolbwyntio'n gryf ar randdeiliaid allanol. Hefyd, gwnaethom bennu'r argymhellion canlynol ar gyfer yr Adolygiad Cymheiriaid:

- **a** rheoli pobl ac adnoddau dynol;
- **b** rheolaeth fatrics;
- **c** atebolrwydd, llywodraethu a'r fframwaith cyffredinol ar gyfer cyfundrefn yr Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru;
- **c** llwyth gwaith, cynllunio a rheoli (gan gynnwys cynllunio senarios i ateb heriau yn y dyfodol);
- **ch** meincnodi, ffioedd a thaliadau;
- **d** darparu ac ansawdd gwaith gweithredol:
  - **i** archwilio ariannol;
  - **ii** archwilio perfformiad.
- **dd** cydberthnasau â rhanddeiliaid, gan gynnwys cydgysylltu gwaith arolygu ac archwilio a chydweithredu â chyrff adolygu allanol.



## Dull

6 Aethom i Gynhadledd Rhanddeiliaid Swyddfa Archwilio Cymru ar 20 Mai. Bu hwn yn gyfle amhrisiadwy i siarad ag amrywiaeth eang o randdeiliaid ac arsylwi Swyddfa Archwilio Cymru wrth iddi gynnal digwyddiad mawr.

7 Gwahoddwyd amrywiaeth eang o randdeiliaid i ddod i'n cyfarfod ni er mwyn trafod gwaith ac effaith Swyddfa Archwilio Cymru nawr ac yn y dyfodol. Ymhlith y rhain roedd Gweinidogion, uwch swyddogion o Lywodraeth y Cynulliad a rhanddeiliaid ym maes iechyd, llywodraeth leol a chyrff adolygu allanol eraill (ceir rhestr lawn yn **Atodiad 3**). Rydym yn hynod o ddiolchgar i'r holl randdeiliaid a roddodd o'u hamser mor hael ac a fynegodd farn onest, adeiladol a chraff ar ddatblygiad Swyddfa Archwilio Cymru yn y dyfodol.

8 Gwnaethom adolygu amrywiaeth eang o ddogfennau a chyfweld â staff allweddol o Swyddfa Archwilio Cymru. Gwnaethom hefyd ofyn am ddadansoddiad data i ategu ein gwaith mewn meysydd perthnasol.

9 Gwnaethom ddefnyddio amrywiaeth eang o ddulliau i ymgysylltu â rhanddeiliaid mewnol Swyddfa Archwilio Cymru, gan adeiladu ar ymarfer hunanasesu Swyddfa Archwilio Cymru ei

### Bywgraffiadau tîm yr Adolygiad Cymheiriaid

| | |
|---|---|
| Caroline Gardner (Cadeirydd) | Mae Caroline wedi bod yn Ddirprwy Archwilydd Cyffredinol ers 2000, ac fe'i penodwyd yn Rheolwr Archwilio gan Weinidogion yr Alban yn 2004. Cyn hyn bu'n gweithio i Gomisiwn Cyfrifon yr Alban a Chomisiwn Archwilio Cymru a Lloegr. Treuliodd ei gyrfa gynnar gyda Wolverhampton MBC ac Archwiliad Dosbarth. Caroline oedd Llywydd CIPFA yn 2006/07. |
| Syr Alistair Graham | Mae'n Gadeirydd PhonepayPlus, sef y rheoleiddiwr ar gyfer gwasanaethau ffôn cyfraddau premiwm. Bu'n Gadeirydd y Pwyllgor Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus rhwng 2004 a 2007, bu'n Gadeirydd Awdurdod Cwynion yr Heddlu rhwng 2000 a 2004 a bu'n Gadeirydd Comisiwn Gorymdeithiau Gogledd Iwerddon rhwng 1997 a 2000. |
| Paul Boeding | Mae Paul Boeding yn Uwch Gwnselydd yn Llys Archwilio Yr Iseldiroedd ac mae'n delio â phroblemau cyhoeddus cymhleth. Bu'n Bennaeth Is-adran Polisi a Materion Cyfreithiol Llys Archwilio Yr Iseldiroedd ac roedd yn gyfrifol am ddatblygu strategol, cynllunio archwilio, datblygu sefydliadol a rheoli rhanddeiliaid. Cyn iddo ddod yn was sifil bu'n uwch swyddog yr heddlu ym Maes Awyr Schiphol. Dechreuodd Paul ar ei yrfa fel ymgynghorydd rheoli mewn cwmni preifat yn yr Iseldiroedd. |
| Roel Praat | Ers 2002, mae Roel Praat wedi bod yn aelod o dîm rheoli Algemene Rekenkamer yn yr Iseldiroedd. Mae materion rhyngwladol a materion mewnol ymhlith ei gyfrifoldebau. Cyn hyn, bu'n gweithio yn y Weinyddiaeth Gyllid, y Weinyddiaeth Iechyd ac mewn banc canolig ei faint yn yr Iseldiroedd. Graddiodd fel economegydd a dechreuodd ei yrfa fel athro mewn ysgol uwchradd yn ei ddinas enedigol, Yr Hâg. |
| John Purcell | John Purcell yw cyn-Reolwr ac Archwilydd Cyffredinol Gweriniaeth Iwerddon ac mae hefyd yn gyn-aelod o Gomisiwn Safonau mewn Swyddi Cyhoeddus a Chomisiwn Refferendwm Iwerddon. Ar hyn o bryd mae'n gweithio fel Ymchwilydd Arbennig penodedig i faterion penodol sy'n gysylltiedig â'r argyfwng bancio yn Iwerddon. |

hun a lwyddodd i ymgysylltu â staff yn drylwyr. Gwnaethom gofrestru dau gyfeiriad e-bost y gallai rhanddeiliaid mewnol ac allanol eu defnyddio i roi eu barn ysgrifenedig. Cynhaliwyd tri sesiwn briffio a holi ac ateb agored gyda staff yn nhri phrif safle Swyddfa Archwilio Cymru – Caerdydd, Ewlo ac Abertawe ac roedd cyfanswm o 55 o staff yn bresennol. Roedd y sesiynau hyn yn cynnwys brîff gan un neu ddau o aelodau tîm yr Adolygiad Cymheiriaid, yna cwestiynau gan staff am broses yr Adolygiad Cymheiriaid, gyda thrafodaeth agored ar unrhyw faterion perthnasol ym marn y staff i gloi.

**10** Cafodd tîm yr Adolygiad Cymheiriaid ddiwrnod sefydlu cychwynnol lle rhoddodd yr Archwilydd Cyffredinol ac uwch gydweithwyr wybodaeth drylwyr am weithrediadau Swyddfa Archwilio Cymru, y cyd-destun strategol a'r broses o gynnal ei hymarfer hunanasesu ei hun a'i ganlyniadau. Cyfarfu tîm yr Adolygiad Cymheiriaid deirgwaith ar ôl hynny i adolygu cynnydd a thrafod ei ganfyddiadau. Hwyluswyd cyfarfodydd tîm yr Adolygiad Cymheiriaid gan Rob Powell, un o Gyfarwyddwyr Swyddfa Archwilio Cymru, a weithredodd fel Ysgrifennydd i dîm yr Adolygiad Cymheiriaid.

## Cost yr Adolygiad Cymheiriaid

**11** Amcangyfrifwyd mai cost yr Adolygiad Cymheiriaid yw £50,000.



# Atodiad 3 – Rhestr o randdeiliaid allanol a gafodd eu cyfweld fel rhan o'r Adolygiad Cymheiriaid

| Enw | Teitl | Sefydliad |
|---|---|---|
| David Hands | Aelod o Bwyllgor Archwilio a Rheoli Risg | Swyddfa Archwilio Cymru |
| Dr Bill Maxwell | Prif Arolygydd | Estyn |
| Simon Brown | Pennaeth Cyfarwyddiaeth – Partneriaethau Addysg, Hyfforddiant a Chynhwysiad | Estyn |
| Andrew Davies AC | Y Gweinidog dros Gyllid a Chyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus | Llywodraeth Cynulliad Cymru |
| Dr Brian Gibbons AC | Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol | Llywodraeth Cynulliad Cymru |
| Y Gwir Anrh. Rhodri Morgan AC | Prif Weinidog Cymru | Llywodraeth Cynulliad Cymru |
| Steve Thomas | Prif Weithredwr | Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru |
| Dr Christine Daws | Cyfarwyddwr Cyffredinol – Cyllid | Llywodraeth Cynulliad Cymru |
| John Golding | Partner | Grant Thornton |
| Dr Emyr Roberts | Cyfarwyddwr Cyffredinol – Cyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus a Llywodraeth Leol | Llywodraeth Cynulliad Cymru |
| Y Fonesig Gillian Morgan DBE | Ysgrifennydd Parhaol | Llywodraeth Cynulliad Cymru |
| Stuart Fletcher | Cadeirydd | Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru |
| Alan Murray | Prif Weithredwr | Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru |
| Jonathan Morgan AC | Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio | Cynulliad Cenedlaethol Cymru |
| Gilbert Lloyd | Partner | KPMG |
| Lynn Hine | Partner | PricewaterhouseCoopers LLP |
| David Melding AC | Cyn-Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio | Cynulliad Cenedlaethol Cymru |
| Peter Laing | Cadeirydd Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg | Swyddfa Archwilio Cymru |
| Andrew Lewis | Prif Weithredwr Dros Dro | Asiantaeth Genedlaethol Arwain ac Arloesi mewn Gofal Iechyd |
| Vivienne Sugar | Cadeirydd | Llais Defnyddwyr Cymru |

| Enw | Teitl | Sefydliad |
|---|---|---|
| Paul Williams OBE | Prif Weithredwr, GIG Cymru a Chyfarwyddwr Cyffredinol dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol | Llywodraeth Cynulliad Cymru |
| Dr Peter Higson | Prif Weithredwr | Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru |
| Rosamund Blomfield-Smith | Aelod o Bwyllgor Archwilio a Rheoli Risg | Swyddfa Archwilio Cymru |
| Edwina Hart AC MBE | Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol | Llywodraeth Cynulliad Cymru |
| Rob Pickford | Prif Arolygydd | Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru |
| Mike Ponton | Cyfarwyddwr | Cydffederasiwn GIG Cymru |
| Dr Jo Farrar | Prif Weithredwr | Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr |
| Debra Wood-Lawson | Ymgynghorydd Rheoli | Insight |
| Gareth Howells | Swyddog Trafodaethau | Prospect |
| Tony Bell | Swyddog Cenedlaethol | Prospect |



# Atodiad 4 – Mewnbwn allanol ym maes Llywodraethu ac Atebolrwydd mewn cyrff archwilio ac arolygu eraill

| | |
|---|---|
| Swyddfa Archwilio Cymru | Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru, yn rhinwedd ei swydd fel Swyddog Cyfrifyddu Swyddfa Archwilio Cymru, yn atebol i Bwyllgor Archwilio Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Sefydlodd hefyd Bwyllgor Archwilio a Rheoli Risg i'w helpu i gyflawni ei gyfrifoldebau am faterion yn ymwneud â risg, rheoli a llywodraethu a sicrwydd cysylltiedig yn Swyddfa Archwilio Cymru. Ar hyn o bryd mae'r Pwyllgor yn cynnwys pedwar aelod annibynnol; mae un lle gwag. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gwahodd ceisiadau am y lle gwag ac mae'n ceisio recriwtio dau aelod arall i wasanaethu ar y Pwyllgor.<br>http://www.wao.gov.uk/cymraeg/whoweare/946.asp<br>http://www.wao.gov.uk/assets/ARMC_TofR_.pdf |
| Audit Scotland | Ar hyn o bryd mae'r Bwrdd yn cynnwys un cyfarwyddwr annibynnol anweithredol, a benodwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol a Chadeirydd y Comisiwn Cyfrifon.<br>http://www.audit-scotland.gov.uk/about/as/people.php<br>Mae'r swyddog atebol yn atebol i Senedd yr Alban drwy Gomisiwn Archwilio Cyhoeddus yr Alban (SCPA) am gyflawni ei swyddogaethau. Wrth adolygu trefniadau llywodraethu corfforaethol Audit Scotland, argymhellodd SCPA yn ddiweddar y dylai'r Bwrdd gynnwys yr Archwilydd Cyffredinol a Chadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon ynghyd â thri aelod annibynnol anweithredol arall (a benodir am gyfnod penodedig) sydd heb gysylltiad â'r naill na'r llall. Mae Senedd a Llywodraeth yr Alban wedi cytuno â'r argymhelliad hwn ac maent yn diwygio'r ddeddfwriaeth berthnasol ar hyn o bryd.<br>http://www.scottish.parliament.uk/s3/committees/scpa/reports-08/scpar08-01.htm - 9<br>http://www.scottish.parliament.uk/s3/committees/scpa/documents/SPCBresponse-05-12-08.pdf<br>http://www.scottish.parliament.uk/s3/committees/scpa/documents/SGresponseCorporate Governance.pdf |
| Comisiwn Archwilio | Ar hyn o bryd mae'r corff llywodraethu ffurfiol yn cynnwys 14 o gomisiynwyr a benodwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Gymunedau a Llywodraeth Leol. Y Prif Weithredwr yw un o'r comisiynwyr; nid yw'r gweddill yn aelodau o staff y Comisiwn.<br>Mae'r Comisiwn, drwy'r Ysgrifennydd Gwladol dros Gymunedau a Llywodraeth Leol a gweinidogion eraill, yn atebol i'r Senedd am weithgareddau'r Comisiwn, gwarchod arian cyhoeddus a'r graddau y cyflawnwyd targedau perfformiad ac amcanion.<br>Er mwyn helpu i sicrhau tryloywder ac atebolrwydd, mae'r Comisiwn Archwilio yn cyhoeddi cofnodion gwirioneddol y Bwrdd yn hytrach na chrynodebau.<br>http://www.audit-commission.gov.uk/SiteCollectionDocuments/Downloads/CorporateGovernance Framework.pdf<br>http://www.audit-commission.gov.uk/aboutus/howwearerun/pages/default.aspx |
| Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol | Cyflwynwyd y Mesur Llywodraethu a Diwygio Cyfansoddiadol gerbron y Llywodraeth ar 20 Gorffennaf 2009. Mae'r Mesur yn cynnwys cymalau sy'n ymwneud â threfniadau llywodraethu'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol ac yn arbennig sefydlu'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol fel endid corfforaethol sy'n cynnwys naw aelod, gan gynnwys pump nad ydynt yn gyflogeion i'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol. Cyflwynwyd y Mesur yn dilyn adolygiad a gomisiynwyd gan y Comisiwn Cyfrifon Cyhoeddus yn 2007, a chyhoeddwyd y canlyniadau gan y Comisiwn ym mis Mawrth 2008.<br>Cyn y ddeddfwriaeth mae'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol wedi penderfynu rhoi'r model llywodraethu newydd ar waith yn wirfoddol. Penodwyd y Cadeirydd anweithredol o 1 Ionawr 2009, penodwyd y pedwar Aelod anweithredol arall o 1 Mehefin 2009, a phenodwyd y tri Aelod gweithredol arall yn ychwanegol at y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol ar 17 Gorffennaf 2009.<br>Mae'r ddeddfwriaeth ddrafft i'w gweld ar wefan y Senedd<br>http://www.publications.parliament.uk/pa/cm200809/cmbills/142/2009142.pdf |

| | |
|---|---|
| Swyddfa Archwilio Gogledd Iwerddon | Mae Swyddfa Archwilio Gogledd Iwerddon wedi'i seilio ar y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, ond mae nifer o newidiadau wedi'u gwneud yn ddiweddar i'w trefniadau llywodraethu. Mae dau aelod anweithredol ar uwch fwrdd rheoli Swyddfa Archwilio Gogledd Iwerddon.<br>http://www.parliament.uk/documents/upload/pac-nao-governance-080206.pdf |
| Swyddfa Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol Iwerddon | Caiff strategaeth a pherfformiad strategol y Swyddfa eu goruchwylio gan Fwrdd Archwilio sy'n cynnwys y Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol a'r tri rheolwr uchaf eu statws (yr Ysgrifennydd a'r Cyfarwyddwr Archwilio a dau Gyfarwyddwr Archwilio).<br>Mae gan y Swyddfa Bwyllgor Archwilio sy'n gweithredu yn unol â Siarter. Rôl y Pwyllgor Archwilio yw rhoi cyngor annibynnol ar effeithiolrwydd y systemau a'r rheolaethau sydd ar waith yn Swyddfa'r Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol.<br>http://audgen.gov.ie/ViewDoc.asp?fn=%2Fhome%2Easp&CatID=2 |
| Estyn (Swyddfa Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru) | Sefydlwyd Bwrdd cyfarwyddwyr sy'n cynnwys tri aelod anweithredol.<br>Caiff Pwyllgor Archwilio sy'n cynnwys cyfarwyddwyr anweithredol Bwrdd Estyn ei gadeirio gan un o'r cyfarwyddwyr anweithredol. Mae'r Pwyllgor Archwilio yn helpu'r Swyddog Cyfrifyddu (Prif Arolygydd) i gyflawni ei gyfrifoldebau am faterion yn ymwneud â risg, rheoli, llywodraethu a sicrwydd.<br>http://www.estyn.gov.uk/about_estyn/estyns_board_report_2007_2008.pdf<br>http://www.estyn.gov.uk/about_estyn/estyn_corporate_plan_2009_2012.pdf |
| Ofsted | Mae'r trefniadau llywodraethu yn debyg i'r Comisiwn Archwilio gyda Bwrdd sy'n cynnwys cadeirydd a dim mwy na 10 o aelodau annibynnol eraill a benodir gan yr Ysgrifennydd Gwladol, ynghyd â'r Prif Arolygydd.<br>http://www.ofsted.gov.uk/Ofsted-home/About-us/Our-structure-and-leadership/The-Ofsted-board/Board-Meetings/Board-meeting-documents/Ofsted-s-corporate-governance-framework/(language)/eng-GB |
| Comisiwn Ansawdd Gofal | Mae'r trefniadau llywodraethu yn debyg i rai'r Comisiwn Archwilio ac Ofsted.<br>http://www.cqc.org.uk/aboutcqc/whoweare/ourpeople.cfm |
| Audit New Zealand/ Swyddfa'r Archwilydd Cyffredinol | Mae pwyllgor archwilio a risg sy'n cynnwys pedwar aelod yn cyfarfod bedair gwaith y flwyddyn i roi'r sicrwydd sydd ei angen ar yr Archwilydd Cyffredinol ynghylch rheolaethau a phrosesau mewnol allweddol. Mae'r Pwyllgor yn cynnwys tri aelod allanol, a ddewisir ar sail eu harbenigedd a'u profiad, a'r Dirprwy Reolwr ac Archwilydd Cyffredinol (sydd, fel y Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol, yn swyddog statudol a benodir gan y Senedd). Ei brif swyddogaethau yw rheoli risg a rheolaeth fewnol, y swyddogaeth archwilio mewnol, adroddiadau ariannol ac adroddiadau eraill, fframwaith a systemau llywodraethu, cydymffurfio â deddfwriaeth a pholisi. Nodir y swyddogaethau hyn yn glir yn Siarter y Pwyllgor.<br>Mae swyddogaeth archwilio mewnol y Swyddfa wedi'i rhoi ar gontract yn ddiweddar i gwmni cyfrifyddu mawr. Yn flaenorol, fe'i cyflawnwyd gan aelod o staff - trefniant nad oedd yn hollol foddhaol i'r Archwilydd Cyffredinol na'r Pwyllgor Archwilio a Risg.<br>Mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi cymryd sawl cam arall i sicrhau bod y Swyddfa yn agored i waith craffu allanol, gan gynnwys Adolygiad Cymheiriaid mawr. Ymhlith y camau eraill a gymerwyd mae grwpiau cynghori, adolygiadau allanol o archwiliadau perfformiad, gwiriadau annibynnol o benderfyniadau dyrannu archwilio a phrosesau monitro ffioedd, ymgynghoriadau ag aelodau Seneddol a rhanddeiliaid eraill ar y rhaglen waith ddewisol, arolygon staff ac arolygon o gleientiaid a rhanddeiliaid allanol, a chyhoeddwyd gwariant yr Archwilydd Cyffredinol ar deithio rhyngwladol ar ei wefan.<br>http://www.oag.govt.nz/2008/peer-review/docs/peer-review-report.pdf |



| | |
|---|---|
| Swyddfa Prif Archwilydd Canada | Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn cael cyngor allanol drwy sawl pwyllgor, gan gynnwys Pwyllgor Archwilio, panel o uwch gynghorwyr, a phwyllgor cynghori annibynnol, sy'n cynnwys aelodau o'r tu allan i Swyddfa Archwilydd Cyffredinol Canada.<br>http://www.oag-bvg.gc.ca/internet/English/au_lp_e_8072.html |
| Llys Archwilio Yr Iseldiroedd | Mae Bwrdd y Llys Archwilio yn cynnwys tri aelod gweithredol, sef y Llywydd, a dau aelod arbennig. Gellir galw ar aelodau Arbennig o'r Bwrdd i gymryd rhan mewn gweithgareddau penodol. Er enghraifft, gellir gofyn iddynt oruchwylio archwiliadau, cynnal gweithgareddau allanol neu ddirprwyo i aelod o'r Bwrdd.<br>Mae Pwyllgor Archwilio sy'n cynnwys tri aelod yn rhoi cyngor annibynnol i'r Llywydd yn rhinwedd ei swydd fel pennaeth y Llys Archwilio ac i'r Ysgrifennydd Cyffredinol yn rhinwedd ei swydd fel pennaeth staff.<br>http://www.rekenkamer.nl/9282400/v/ |
| Swyddfa Archwilio Genedlaethol Awstralia | Mae bwrdd Gweithredol yn arwain Swyddfa Archwilio Genedlaethol Awstralia wrth iddi gyflawni'r amcanion a'r strategaethau a nodir yn ei Chynllun Corfforaethol, ac mae'n helpu'r Archwilydd Cyffredinol i gyflawni ei gyfrifoldebau statudol. Mae EBOM yn gyfrifol am bennu a monitro cyfeiriadau strategol, goruchwylio cyfleoedd a risgiau busnes allweddol, a chyllideb Swyddfa Archwilio Genedlaethol Awstralia.<br>Mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi sefydlu Pwyllgor Archwilio, a gaiff ei gadeirio gan aelod annibynnol allanol i wella'r fframwaith rheoli, gwella gwrthrychedd a dibynadwyedd gwybodaeth ariannol a gwybodaeth arall a gyhoeddir yn allanol, a helpu'r Archwilydd Cyffredinol i gydymffurfio â'r holl amcanion deddfwriaethol a sefydliadol eraill.<br>http://www.anao.gov.au/uploads/documents/2007-08_Annual_Report1.pdf |
| Riksrevisionen – Swyddfa Archwilio Genedlaethol Sweden | Arweinir Swyddfa Archwilio Genedlaethol Sweden gan dri Archwilydd Cyffredinol a benodir gan Senedd Sweden.<br>Caiff aelodau bwrdd Swyddfa Archwilio Genedlaethol Sweden eu penodi gan Senedd Sweden ac fe'u dewisir o blith aelodau seneddol nawr ac yn y gorffennol. Mae'r bwrdd yn cynnwys 11 o aelodau ac 11 o ddirprwyon. Ei dasgau yw monitro gweithrediadau archwilio a phennu, heb unrhyw gyfyngiadau, pa benderfyniadau polisi y gallai fod angen eu gwneud mewn perthynas â'r casgliadau a'r argymhellion a gyflwynir gan yr Archwilwyr Cyffredinol yn eu hadroddiadau archwilio.<br>Mae gan Swyddfa Archwilio Genedlaethol Sweden Gyngor Gwyddonol hefyd sy'n gyfrifol am roi cyngor a chymorth ynghylch materion yn ymwneud â methodoleg ac ansawdd yn ogystal â materion strategol eraill. Caiff aelodau'r cyngor eu penodi ar y cyd gan yr Archwilwyr Cyffredinol.<br>http://www.riksrevisionen.se/templib/pages/NormalPage____1768.aspx |
| Riksrevisjonen – Swyddfa Archwilydd Cyffredinol Norwy | Caiff Swyddfa'r Archwilydd Cyffredinol ei rheoli gan Fwrdd o bum Archwilydd Cyffredinol. Mae'r Bwrdd yn trafod yr adroddiadau a gyflwynir i'r Senedd a dogfennau pwysig eraill mewn cyfarfod llawn. Penodir yr Archwilwyr Cyffredinol a'u dirprwyon gan y Senedd am gyfnod o bedair blynedd. Cadeirydd y Bwrdd yw prif swyddog gweithredol Swyddfa'r Archwilydd Cyffredinol. Mae gan yr Archwilwyr Cyffredinol un bleidlais yr un. Rhaid i'r penderfyniadau a wneir gan y Bwrdd gael cefnogaeth o leiaf tri o'r Archwilwyr Cyffredinol. Mae gan bob un o aelodau'r Bwrdd gysylltiad gwleidyddol yn debyg iawn i fodel Sweden.<br>http://www.riksrevisjonen.no/en/AboutRR/BoardOfAuditorsGeneral/ |